



Arsyllfa **Wledig** Cymru
Wales **Rural** Observatory

TROSOLWG O BOLISI AC ADNODDAU SY’N EFFEITHIO AR GYMRU WLEDIG

Medi 2004



CYNNWYS

	Rhif y dudalen
Crynodeb Gweithredol	5
Adran 1 Cyflwyniad	10
Adran 2 Polisi Cymru wledig: gwnaed yng Nghymru, i Gymru?	14
Adran 3 Cydnabod y dimensiwn gwledig	28
Adran 4 Ffermio a'r economi wrth galon polisi gwledig	51
Adran 5 Polisiau a rhaglenni amrywiol ar gyfer cefn gwlad amrywiol Cymru	65
Adran 6 Hau hadau ar lefel y gymuned	78
Adran 7 Cynnal polisiau a rhaglenni gwledig	93
Atodiadau	98
Cyfeiriadau	124

Rhestr o ffigurau a thablau

Ffigur 1	Map o'r awdurdodau unedol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol yng Nghymru wledig	22
Ffigur 2	Ffrydiau Ariannu Ewropeaidd	26
Ffigur 3	Dosbarthu gwledig a threfol, fel y'u diffinnir gan Brosiect Diffiniadau Gwledig a Threfol (2004)	48
Ffigur 4	Map o ddosbarthu gwledig a dinesig yng Nghymru, fel y'i diffinnir gan Gyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004)	49
Ffigur 5	Ardaloedd rhaglenni prif ffrwd cronfeydd strwythurol yng Nghymru, 2000 - 2006	63
Ffigur 6	Ardaloedd partneriaethau Gweithredu dros Gymunedau Gwledig	68
Ffigur 7	Ardaloedd LEADER II yng Nghymru	69
Ffigur 8	Ardaloedd LEADER+ yng Nghymru	70
Ffigur 9	Y Persbectif Gofodol Cenedlaethol fel y caiff ei amlinellu yng Nghynllun Gofodol Cymru	74
Ffigur 10	Grant Cynnal Refeniw y pen	80
Tabl 1	Dadansoddiad o'r Gwariant Ariannol Dangosol sy'n gysylltiedig â Chynllun Datblygu Gwledig Cymru 2000-2006	58
Tabl 2	Sefydliadau gwirfoddol fesul mil o'r boblogaeth yn ôl ardal awdurdod lleol	87
Tabl 3	Dyfarniadau Amcan 1 i Awdurdodau Unedol	94

Rhestr Atodiadau

Atodiad 1	Arolwg o Awdurdodau Unedol	98
Atodiad 2	Atebwyr yr holiadur	106
Atodiad 3	Crynodeb o atebion i'r holiadur	107
Atodiad 4	Byrfodau	117
Atodiad 5	Aelodau o Bartneriaeth Wledig Cymru	118
Atodiad 6	Pwyntiau allweddol Datganiad Cork	120
Atodiad 7	Tair thema drawsbynciol Llywodraeth Cynulliad Cymru	122
Atodiad 8	Lefelau a diffiniadau partneriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru	123

CRYNODEB GWEITHREDOL

Cyflwyniad

Yn 2004, ymgwymerodd Arsyllfa Wledig Cymru â throsolwg o'r polisiau, y rhaglenni a'r adnoddau sy'n effeithio ar y Gymru wledig i gyfarwyddo gwaith Is-adran Polisi Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y dyfodol.

Roedd gan y trosolwg yr amcanion allweddol canlynol:

- Nodi'r polisiau, y rhaglenni a'r adnoddau allweddol sy'n effeithio ar y Gymru wledig
- Archwilio cydbwysedd sectoraidd ac ymlediad daearyddol y polisiau, y rhaglenni a'r adnoddau
- Gosod polisiau, rhaglenni ac adnoddau sy'n effeithio ar Gymru wledig yn eu cyd-destun ehangach

Roedd ymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn yn gofyn am archwiliad o ddogfennau polisi allweddol ac arolwg o awdurdodau lleol Cymru wledig, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru a nifer o Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad.

Darganfyddiadau allweddol

Polisi Cymru wledig: a wnaed yng Nghymru, i Gymru?

Mae creu Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi creu cryn gyfle i bolisiau, rhaglenni ac adnoddau adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau Cymru wledig. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad Is-adran Polisi Gwledig sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chyflwyno polisi gwledig nad yw'n amaethyddol. Ymgwymerodd Awdurdod Datblygu Cymru â'r cyfrifoldeb am ddatblygiad economaidd Cymru wledig gyfan yn dilyn creu'r Cynulliad. Mae ail dymor y Cynulliad wedi gweld creu Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, sy'n cymryd lle'r Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig flaenorol.

Er gwaethaf datganoli, mae'r cyfleoedd i'r Cynulliad hunanbenderfynu polisiau gwledig yn parhau'n gyfyngedig. Caiff datblygu polisi ac adnoddau i Gymru wledig ei gyfarwyddo a'i strwythuro gan ystod o ffactorau sydd y tu hwnt i'r heriau a'r cyfleoedd mwyaf brys y mae cefn gwlad Cymru yn eu gosod, a'r gyrru tuag at hunanbenderfynu gan Gymru. Y ffactorau hyn, yn bennaf, yw'r themâu a'r gwerthoedd craidd sy'n cyfarwyddo holl waith y Cynulliad, blaenoriaethau a strategaeth y Cynulliad i Gymru gyfan, amgylchedd polisi y DU a dylanwad polisi a chyllido yr Undeb Ewropeaidd.

Mae polisiau, rhaglenni a chyllid gan yr UE wedi cymryd rôl ddominyddol yn natblygiad ac adfywio Cymru wledig. Daw mwyafswm yr arian sydd ar gael ar gyfer datblygu ac adfywio ardaloedd gwledig Cymru drwy ffrydiau arian Ewropeaidd. Cafodd y ddogfen raglen fwyaf cynhwysfawr ar gyfer Cymru wledig, Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2000-2006, ei chreu o dan Reoliad Datblygu Gwledig yr UE.

Cydnabod y dimensiwn gwledig

Nid yw cydnabyddiaeth o ddimensiwn gwledig economi, cymdeithas, diwylliant ac amgylchedd Cymru, yn gyson ar draws graddau gwahanol polisi a rhwng gwahanol gyrff y llywodraeth yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod angen ystyried Cymru wledig yn faes polisi arbennig. Yn ei chynlluniau strategol ar gyfer datblygu Cymru, mae wedi nodi ei hymrwymiad i economi wledig gynaliadwy, i amgylchedd gwledig cynaliadwy a chymunedau gwledig cynaliadwy. Creodd Is-adran Polisi Gwledig pwrpasol o fewn Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad. Y tu hwnt i'r ymrwymiad eang hwn fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth o set gydlynol o bolisiau a ddatblygwyd yn fewndarddol ar gyfer cefn gwlad Cymru.

Cymharol brin yw'r ymrwymiad i sicrhau bod polisiau a rhaglenni 'prif ffrwd' yn cymryd y dimensiwn gwledig i ystyriaeth. Mae'r cyfrifoldeb am y dasg hon yn gorwedd yn gyfan gwbl gydag Is-adran Polisi Gwledig Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad; nid oes dyletswydd ar unrhyw adran arall o fewn LICC i ymgynghori â'r IPG. Nid yw hyn yn cymharu'n ffafriol â'r trefniadau yn Lloegr ac yn yr Alban, lle mae ymrwymadau penodol a mecanweithiau ar gyfer yr hyn a elwir yn 'brawfesur polisiau gwledig'.

Ychydig gydnabyddiaeth sydd o'r Gymru wledig fel maes polisi a rhaglennu arbennig ymysg y cyrff cyhoeddus anetholedig sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu Cymru. Dim ond ELWa sydd yn cyflwyno adnoddau penodol i feysydd neu faterion gwledig er bod Bwrdd Croeso Cymru wedi llunio cynllun gweithredu ar gyfer dyfodol twristiaeth mewn ardaloedd gwledig yn ddiweddar. I raddau helaeth mae gan Gyrff Cyhoeddus eraill a Noddir gan y Cynulliad ddiffyg ffocws clir neu benodol ar Gymru wledig heblaw wrth gyflwyno rhaglenni gwledig yr UE a LICC. Mae Awdurdod Datblygu Cymru yn canolbwyntio ar gyflwyno rhaglenni cenedlaethol yn lleol ac yn dadlau achos dros wneud yn llai o'r gwahaniaethau rhwng gwlad a thref. Mewn amryw achos mae'n amlwg nad yw CCNCau yn ystyried bod ardaloedd gwledig yn wahanol i ardaloedd trefol. Mewn sawl achos nid yw'n glir ar ba dystiolaeth - os o gwbl - y seilir yr asesiad hwn.

Nid oes consensws ar draws awdurdodau unedol ynghylch yr angen am adnoddau a rhaglenni pwrpasol i gefnogi ardaloedd gwledig. Mae rhai awdurdodau unedol o'r farn bod eu holl bolisiau a'u gweithgareddau yn cefnogi ardaloedd gwledig; mae eraill yn nodi'r angen i wahaniaethu rhwng anghenion a buddiannau eu hardaloedd gwledig a threfol. Yn rhannol, mae hyn yn adlewyrchu'r amrywiad yng nghyfrifoldeb tiriogaethol awdurdodau lleol sy'n cwmpasu ardaloedd gwledig. Mae nifer o awdurdodau lleol yn ystyried bod eu cyfrifoldeb yn gyfan gwbl wledig ac i bob diben felly maent wedi ymrwymo eu holl adnoddau i ardaloedd gwledig. Mae eraill yn ystyried bod ardaloedd gwledig a threfol yn eu cwmpas ond prin yw'r dystiolaeth ar draws yr awdurdodau hyn o gydnabyddiaeth bendant o anghenion a blaenoriaethau penodol yr ardaloedd gwledig.

Mae diffyg polisi gwledig penodol yng Nghymru yn ffactor yn rhannol o'r amwysedd a'r amhendrantrwydd ynghylch y diffiniadau o 'Gymru wledig'. Nid oes un diffiniad y cytunir arno yn gyffredinol; caiff Cymru wledig ei ddiffinio'n wahanol yn ôl pwrpas ei ddiffinio. Mae hyn yn cymhlethu datblygiad a gweithrediad polisiau, rhaglenni ac adnoddau ar gyfer ardaloedd gwledig yng Nghymru.

Ffermio a'r economi wrth galon polisi gwledig

Mae gan amaethyddiaeth ddylanwad cryf ar bolisi ar gyfer Cymru wledig. Dyma fframwaith y ddwy brif ddogfen ar bolisi gwledig, sef: *Cynllun Datblygu Cymru Wledig a Ffermio i'r Dyfodol*. Mae pob un o'r rhain yn pwysleisio'r gyd-ddibyniaeth rhwng amaethyddiaeth a'r economi, y gymdeithas a'r amgylchedd gwledig ac yn ceisio amlinellu symudiad yn ffermio yng Nghymru a fydd yn golygu manteision cadarnhaol i Gymru wledig yn fwy cyffredinol.

O ran egwyddor, ceir ymrwymiad i 'ddatblygu gwledig integredig' yng Nghymru. Mae hyn yn gofyn am werthfawrogi a cheisio cymryd i ystyriaeth ofynion a gwerthoedd y buddiannau sectoraidd gwahanol a'r rhyngweithio rhyngddynt. Mae'n ymbellhau o'r syniad y gellir ystyried ffermio ar wahân i faterion gwledig eraill, ac mae'n edrych tuag at gydlyn polisiau ar gyfer amaethyddiaeth, yr economi'n ehangach, yr amgylchedd a'r gymdeithas. Daw ychydig o'r ysgogiad dros yr ymrwymiad hwn o symud mewn polisi ar lefel yr UE; daw ychydig ohono o ddyletswydd Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddilyn datblygiad cynaliadwy yn ei holl waith.

Er gwaethaf hyn, mae polisi gwledig yng Nghymru yn parhau i fod â gogwydd cryf o blaid ffermio. Mae'r pwyslais pennaf ar amaethyddiaeth ac arallgyfeirio amaethyddol yn esgeuluso actorion a sectorau eraill yng Nghymru wledig. Mae llawer llai o gefnogaeth, o ran polisi a chyllid penodol, ar gyfer datblygu ac adfywio gwledig ehangach y tu hwnt i ffermio.

Polisiau a rhaglenni amrywiol ar gyfer cefn gwlad amrywiol Cymru

Mae yna frithwaith gymhleth o raglenni sy'n effeithio ar y Gymru wledig. Mae'r brithwaith hwn yn cynnwys rhaglenni ar gyfer Cymru gyfan, rhaglenni sydd ar gael ledled Cymru wledig, rhaglenni sy'n targedu ardaloedd gwledig penodol, a mentrau sectoraidd sy'n cynnwys ardaloedd gwledig. Mae yna hefyd raglenni datblygu rhanbarthol sy'n cynnwys ardaloedd gwledig a threfol ond sydd ag effaith arbennig ar ardaloedd gwledig. O ganlyniad i hyn, mae dosbarthiad cefnogaeth ar draws ardaloedd gwledig Cymru yn anghyson. Mae rhai ardaloedd yn dod o fewn ystod helaeth o raglenni; mae eraill ond yn gymwys ar gyfer cefnogaeth fwy cyfyngedig.

Caiff targedu ardaloedd gwledig ei ategu - ac i raddau, ei gymhlethu - gan y pwyslais cynyddol ar ddatblygu gofodol yng Nghymru. Mae datblygu gofodol yn canolbwyntio'n llai ar y gwahaniaethau rhwng ardaloedd gwledig a threfol ac yn fwy ar yr anghenion a'r cyfleoedd y mae ardaloedd gwahanol yn eu rhannu, a'r cysylltiadau rhyngddynt. Mae'r

fethodoleg ofodol i'w gweld yn fwyaf amlwg yng *Nghynllun Gofodol Cymru*, a fydd yn arwain datblygiad polisi fwyfwy.

Mae hefyd symudiad tuag at raglenni sy'n canolbwyntio ar adfywio ar raddfa gymunedol, gan dargedu anghenion a blaenoriaethau a ddiffinnir yn lleol. Cyfyngir rhai o'r rhain, fel Cymunedau yn Gyntaf, i gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Mae eraill, fel Gweithredu dros Gymunedau Gwledig, Rhaglen Adfywio Cymunedol y WDA a LEADER+ yn rhoi cymaint o flaenoriaeth i ansawdd y ceisiadau ag i'r amddifadedd cymharol.

Hau hadau ar lefel y gymuned

Caiff cyfrifoldeb am ddatblygu ac adfywio lleol yng Nghymru ei ddatganoli'n gynyddol. Mae gofyn i awdurdodau lleol gymryd rôl arweiniol wrth gyflwyno polisiâu cenedlaethol ac ymdrin ag anghenion a blaenoriaethau lleol. Mae ganddynt ddyletswydd statudol i baratoi strategaethau ardaloedd lleol mewn partneriaeth â rhanddeiliaid cymunedol. Anogir yn ogystal awdurdodau lleol sydd ag ardaloedd gwledig, i baratoi strategaethau datblygu gwledig integredig.

Rhoddir pwyslais cynyddol ar y potensial i sefydliadau anstatudol gyfrannu at adfywio cymunedau gwledig. Mae mentrau adfywio yn gofyn yn gynyddol am gynnwys amrediad o randdeiliaid lleol. Ystyrir bod partneriaeth rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn rhan annatod o ddatblygu gwledig cynaliadwy.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i ymagwedd 'o'r gwaelod i fyny' i adfywio cymunedau gwledig yng Nghymru. Mae hyn yn parhau â'r duedd a osodwyd gan Bapur Gwyn 1996 ar gyfer Cymru wledig, gan drosglwyddo'r cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau, datblygu economaidd a chadwraeth amgylcheddol mewn cymunedau gwledig, o'r wladwriaeth i'r cymunedau eu hunain. O ran egwyddor, mae ymagwedd fewndarddol yn ddull hyblyg ac effeithlon o fynd i'r afael ag anghenion ardaloedd gwledig. Yn ymarferol, mae'r model adfywio hwn yn agored i feirniadaeth. Yn benodol, ceir cyhuddiadau bod adfywio yn parhau i ddigwydd o'r brig i lawr oherwydd y rheolau cyllido a osodir gan lywodraeth ganol a'r rôl arweiniol sydd i awdurdodau lleol. Mae amheuan hefyd ynghylch y graddau y mae partneriaethau lleol yn gynrychiadol ac yn atebol yn ddemocratig.

Cynnal polisiâu a rhaglenni gwledig

Mae nifer o'r rhaglenni adfywio cymdeithasol sydd ar gael ar draws Cymru yn canolbwyntio ar brosiectau unigryw sydd â chwmpas cyfyngedig a chanolbwynt byr dymor. Yn gynyddol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn symud i ffwrdd oddi wrth raglenni o'r fath, gan ddadlau nad ydynt yn cynnal adfywio yn yr hir dymor. Mae'n pwysleisio'r angen bod polisiâu a rhaglenni yn ymrwymo i barhad yn eu cefnogaeth dros amser. Mae menter Cymunedau yn Gyntaf yn enghraifft o'r ymagwedd hon.

O ran adfywio cymunedau gwledig fodd bynnag, mae'r ymrwymiad hwn yn cael ei danseilio'n rhannol gan y ffaith bod polisi a rhaglenni yn dibynnu ar arian o'r tu allan i Gymru. Ar ôl 2006, mae'n debygol na fydd yr ardaloedd o Gymru wledig sydd â hawl ar hyn o bryd i dderbyn cyllid strwythurol yr UE, bellach yn gymwys. Mae LEADER+ hefyd yn dod i ben yn 2006, ac nid yw ffurf fanwl gywir unrhyw fenter datblygu cymunedau gwledig dilynol o Ewrop eto'n eglur. Bydd gan hyn ganlyniadau ar gyfer dyfodol rhaglenni domestig yn y tymor hir.

Mae sicrhau bod polisiâu a rhaglenni yn cyfrannu at adfywio tymor hir yng Nghymru wledig yn gofyn bod eu heffaith yn cael eu monitro a'u gwerthuso. Ar hyn o bryd fodd bynnag, nid yw dangosyddion gwaelodlin ar gyfer y dasg hon, ac ymrwymiad iddi, yn ddigonol.

ADRAN 1

CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn un o gyfres o adroddiadau ar gymdeithas, economi, diwylliant ac amgylchedd y Gymru wledig gyfoes a gynhyrchir gan Arsyllfa Cymru Wledig.
- 1.2 Cymharol ychydig a wyddys am faes y Gymru Wledig. Ers yr Ail Ryfel Byd bu nifer o ddisgrifiadau a dadansoddiadau o Gymru gyfan, yn enwedig ei chymdeithas, ei heconomi, ei diwylliant a'i hamgylchedd sy'n newid, tra bod y cyfrifiad wedi cynnig trosolwg cyffredinol eang o rai tueddiadau a phatrymau demograffig ac economaidd gymdeithasol penodol. Bu nifer o astudiaethau manwl hefyd o ardaloedd yn rhannau gwledig Cymru a geisiodd fynd i'r afael â materion tebyg ac i gynnig darlun cyfoethocach a mwy holistaidd o fywyd mewn rhannau penodol o gefn gwlad Cymru. Nid oes yr un o'r rhain fodd bynnag, pa un a'u hystyrir ar wahân neu gyda'i gilydd, sy'n cynnig set o ddata gwaelodlin cynhwysfawr ar sefyllfa bresennol cefn gwlad Cymru.
- 1.3 Ers datganoli, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi comisiynu dau arolwg allweddol o'r polisiau a'r rhaglenni sy'n effeithio ar Gymru wledig. Roedd y cyntaf, a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ac a gyhoeddwyd ym Mehefin 2001, yn ymwneud â pholisiau a rhaglenni a allai gefnogi mwy o arallgyfeirio ar economi Cymru wledig. Roedd yr ail, a gynhaliwyd gan ymgyngho rwyf allanol ac a gyhoeddwyd yn Awst 2002, hefyd yn ymwneud â chefnogi mwy o arallgyfeirio economaidd, ond roedd yn canolbwyntio ar rôl y system gynllunio yng Nghymru. Ni fu un arolwg a ystyriodd yr amgylchedd polisi gwledig mewn termau mwy holistaidd - gan ystyried y gymdeithas, y diwylliant a'r amgylchedd yn ogystal â'r economi - a gosod y polisiau, y rhaglenni a'r adnoddau sy'n cael eu targedu at ardaloedd gwledig, yng nghyd-destun polisiau a strategaethau ehangach.
- 1.4 Yn 2004, ymgwymerodd Arsyllfa Wledig Cymru â throsolwg o'r fath, gan gynnig datganiad a fyddai'n cyfarwyddo gwaith Is-adran Polisi Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y dyfodol.

Arsyllfa Wledig Cymru

- 1.5 Mae Arsyllfa Wledig Cymru yn ymgymryd ag ymchwil a dadansoddiad annibynnol ar y Gymru Wledig. Caiff ei hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae'n cefnogi llunio polisiau yn seiliedig ar dystiolaeth. Cychwynnodd ar ei gwaith ym mis Medi 2003 a bwriedir ei gwblhau ym mis Mawrth 2006.
- 1.6 Mae'r Arsyllfa yn cynnwys tîm o ymchwilwyr gwledig arbenigol wedi'u lleoli yn Ysgol Cynllunio Dinesig a Rhanbarthol Prifysgol Caerdydd a Sefydliad

Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Mae'r tîm ar gyfer y prosiect hwn wedi cael ei arwain gan Dr Bill Edwards a Dr Michael Woods, y ddau ohonynt yn uwch ddarlithwyr mewn daearyddiaeth ddynol ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth, gyda Catherine Walkley a'r Dr Graham Gardner yn ymchwilyr cyswllt.

- 1.7 Mae gweithgareddau'r Arsyllfa yn canolbwyntio ar bedwar prif faes:
- Casglu a dadansoddi ystod eang o ddata cymdeithasol ac economaidd ar y Gymru wledig
 - Cyflwyno'r data hyn mewn System Wybodaeth Ddaearyddol (GIS)
 - Llunio cyfres o adroddiadau ymchwil arfarnol
 - Adolygu tystiolaeth ymchwil a pholisi arall sy'n perthyn i Gymru wledig
- 1.8 Mae gwefan sy'n cynnig gwybodaeth am yr arsyllfa a'i phrif weithgareddau a chynnyrchi'w weld yn www.walesruralobservatory.org.uk

Methodoleg a rhaglen waith

- 1.9 Ymgwymerwyd â'r ymchwil sylfaenol ar gyfer yr adroddiad hwn dros gyfnod o bum mis, o fis Chwefror i fis Mehefin 2004. Roedd hyn yn cynnwys dau brif ddull o gasglu data.
- 1.10 Yn gyntaf, archwiliad o ddogfennau polisi allweddol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ei Hasiantaethau Gweithredol, Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNCau) ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru wledig.
- 1.11 Yn ail, tri arolwg drwy holiaduron, a weithredwyd drwy'r post â'r e-bost, yn cynnwys:
- Y deuddeg Awdurdod Unedol sy'n ymgorffori Cymru wledig, y derbyniwyd ymatebion gan naw ohonynt.
 - Tri Awdurdod y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, y derbyniwyd ymatebion gan bob un ohonynt.
 - Un ar ddeg CCNC, y derbyniwyd ymatebion gan saith ohonynt.
- 1.12 Yn ogystal, cynhaliwyd cyfweiliad wyneb yn wyneb â Phrif Weithredwr a Phennaeth Uned Polisi Gwledig Awdurdod Datblygu Cymru.
- 1.13 Mae'r atodiadau yn cynnwys manylion pellach am y dulliau ymchwil a ddefnyddiwyd, gan gynnwys copi enghreifftiol o'r holiadur (Atodiad 1), rhestr lawn o'r sefydliadau a dargedwyd (Atodiad 2) a chrynodeb o ymatebion yr holiadur (Atodiad 3).

Trosolwg o'r polisïau, y rhaglenni a'r adnoddau sy'n effeithio ar Gymru wledig: cylch gorchwyl

- 1.14 Mae'r adroddiad hwn yn cynnig trosolwg o'r polisïau, y rhaglenni a'r adnoddau allweddol sy'n effeithio ar ardaloedd gwledig yng Nghymru, gan gynnwys y rheiny gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, cyrff cyhoeddus anetholedig a noddir gan y Cynulliad, awdurdodau lleol yng Nghymru, llywodraeth y DU a'r Undeb Ewropeaidd. Mae ganddo'r amcanion allweddol canlynol:
- Nodi'r polisïau, y rhaglenni a'r adnoddau allweddol sy'n effeithio ar y Gymru wledig
 - Mapio cydbwysedd sectoraidd ac ymlediad daearyddol y polisïau, y rhaglenni a'r adnoddau
 - Gosod polisïau, rhaglenni ac adnoddau ar gyfer Gymru wledig yn eu cydestun ehangach
- 1.15 Nid oes diffiniad clir o'r 'Gymru wledig'. Mae'r adroddiad yn defnyddio'n bennaf y diffiniad o Gymru wledig a ddefnyddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hyn yn cynnwys naw ardal awdurdodau lleol sydd 'yn bennaf wledig' ac ardaloedd gwledig o fewn tair ardal awdurdod lleol sydd 'yn bennaf drefol'.
- 1.16 Mae'r polisïau, y rhaglenni a'r adnoddau sy'n effeithio ar Gymru wledig yn cynnwys mentrau sectoraidd dros Gymru gyfan, mesurau sydd wedi'u hanelu'n benodol at y Gymru wledig, a nifer o fentrau sy'n seiliedig ar ardaloedd (rhanbarthol a lleol) ar gyfer rhanrau o Gymru wledig. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar bolisïau a rhaglenni sydd wedi'u hanelu'n benodol at y Gymru wledig, ac ar y mesurau a gymerwyd i sicrhau bod polisïau a rhaglenni prif ffrwd yn cydnabod anghenion a blaenoriaethau penodol ardaloedd gwledig. Prif ganolbwynt yr adroddiad yw adfywio cymunedol a datblygu economaidd.
- 1.17 Mae'r adroddiad yn cynnig data gwaelodlin ar yr amgylchedd polisi, rhaglenni ac adnoddau sy'n effeithio ar y Gymru wledig. Nid yw'n archwilio'r berthynas rhwng yr amgylchedd hwnnw, y rheiny sy'n gyfrifol am gyflwyno polisïau a rhaglenni a derbynwyr y polisïau a'r rhaglenni.

Strwythur yr adroddiad

- 1.18 Mae gan yr adroddiad saith adran, gan gynnwys y cyflwyniad a'r fethodoleg (**Adran 1**). Mae **Adran 2** yn amlinellu'r fframwaith cyfansoddiadol a deddfwriaethol y mae polisi Cymru wledig yn cael ei ddatblygu ynddo. Mae **Adran 3** yn ystyried sut ac i ba raddau y mae polisïau a rhaglenni cyfredol yn ymdrin â dimensiwn gwledig yr economi, y gymdeithas, y diwylliant a'r amgylchedd yng Nghymru. Mae **Adran 4** yn archwilio cydbwysedd sectoraidd polisïau a rhaglenni gwledig. Mae **Adran 5** yn trafod ymdriniaeth diriogaethol anwastad polisïau a rhaglenni sy'n effeithio ar Gymru wledig. Mae **Adran 6** yn

amlinellu'r symud tuag at roi grym i bobl leol yn natblygiad ac adfywio cymunedau gwledig. Mae **Adran 7** yn ystyried cynladwyedd polisïau a rhaglenni ar gyfer Cymru wledig yn yr hir dymor.

Nodiadau ar derminoleg

- 1.19 Drwy gydol yr adroddiad hwn rydym yn gwahaniaethu rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r cyntaf yn cyfeirio at gorff gweithredol llywodraeth ddatganoledig Cymru; mae'r ail yn cyfeirio at gorff etholedig y Cynulliad.
- 1.20 Darperir rhestr o'r byrfoddau a ddefnyddir yn yr adroddiad yn Atodiad 4.

ADRAN 2

POLISI CYMRU WLEDIG: GWNAED YNG NGHYMRU, I GYMRU?

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r fframwaith cyfansoddiadol a deddfwriaethol y mae polisi Cymru wledig yn cael ei ddatblygu ynddo. Mae'n cynnwys trafodaeth am y berthynas rhwng yr amrywiol gyrrff sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chyflwyno polisi gwledig. Yn benodol, mae'r bennod yn ystyried:

- Canlyniadau datganoli ar bolisi gwledig
- Rôl Is-adran Polisi Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Partneriaeth Wledig Cymru
- Cyfrifoldebau Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ynghylch polisi gwledig
- Cyfrifoldebau awdurdodau lleol ynghylch polisi gwledig
- Blaenoriaethau'r UE ar gyfer datblygu gwledig

Darperir crynodeb o'r drafodaeth ar ddiwedd y bennod (t.21).

Gwnaed yng Nghymru, i Gymru: datganoli a datblygiad Cymru

- 2.1 Mae datganoli wedi arwain at greu cyfleoedd sylweddol ar gyfer datblygu polisiau a rhaglenni arbennig sy'n mynd i'r afael ag anghenion a buddiannau Cymru wledig. Trosglwyddodd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 fwyafrif o bwerau a swyddogaethau'r Swyddfa Gymreig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
- 2.2 Y Cynulliad sy'n gyfrifol am ffurfio a datblygu is-ddeddfwriaeth mewn ystod eang o feysydd polisi allweddol ar gyfer Cymru, gan gynnwys amaethyddiaeth, yr amgylchedd, datblygu economaidd, twristiaeth, cynllunio gwlad a thref ac addysg a hyfforddiant. Mae'n gyfrifol hefyd am weithredu deddfwriaeth sylfaenol llywodraeth y DU ar faterion ddatganoledig ac mae'n gallu gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae cynrychiolwyr o'r Cynulliad yn cyfrannu at drafodaethau polisi rheolaidd ar lefel yr UE, fel aelodau o dîm trafod y DU.
- 2.3 Mae gan y Cynulliad bwerau gwario sylweddol: cafwyd gwariant o £9.4 biliwn ym mlwyddyn ariannol 2002-2003; bydd hyn yn codi i £12.7 biliwn yn 2005-2006, yn ôl Cyllideb Derfynol 2005-2006¹. Mae'n gyfrifol ac yn gyfan gwbl atebol am ddyrannu adnoddau rhwng rhaglenni gwariant datganoledig. Mae hyn yn cynnwys arian ar gyfer materion gwledig, lle cafodd y rhain eu datganoli.
- 2.4 Mae'r Cynulliad yn cydnabod y gall chwarae rôl arwyddocaol wrth lunio Cymru, ac mae wrthi'n cymryd camau i wneud hynny. Treuliwyd rhan helaeth o dymor cyntaf y Cynulliad (o 1999 i 2003) yn adolygu a diwygio polisiau a rhaglenni a etifeddwyd o'r Swyddfa Gymreig a arferai fod yn gyfrifol am osod taflwybr

¹ Datganiad o Gyllido'r Cynulliad 2005-2006 (www.wales.gov.uk/assemblydata)

datblygu Cymru. Canolbwynt datganedig yr ail dymor, o 2003 i 2007, yw adeiladu ar y sylfaen hon drwy greu polisiâu a rhaglenni newydd sy'n sefydlu 'cyfeiriad newydd' i Gymru.

- 2.5 Mae'r Cynulliad yn cydnabod bod rhaglenni adfywio blaenorol Ewrop a'r DU wedi helpu i wella sefyllfa economaidd, gymdeithasol ac amgylcheddol Cymru. Fodd bynnag, mae hefyd yn tynnu sylw at y ffaith na fu fframwaith strategol, targedau na dangosyddion cynnydd cyffredin ar gyfer Gymru, a phrin oedd cydlyniant polisi ar ei chyfer. Un o brif nodau'r Cynulliad yn ei ail dymor yw penderfynu ar daflwybr datblygu i Gymru cyhyd ag y bo modd o'r tu mewn i Gymru yn hytrach nag o'r tu allan - drwy bolisiâu a rhaglenni 'a wnaed yng Nghymru i Gymru'².

Gwnaed yng Nghymru wledig, i'r Gymru wledig: datganoli a pholisi gwledig

- 2.6 Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru Weinidog, Pwyllgor ac Adran gyda chyfrifoldeb allweddol am bolisi gwledig yng Nghymru. Yn nhymor cyntaf y Cynulliad roedd materion gwledig yn rhan o bortffolio a gyfyngwyd i Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig. Yn yr ail dymor, maent wedi dod yn rhan o bortffolio ehangach sy'n cynnwys yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad.
- 2.7 Gosodwyd cyfrifoldeb ar Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad i ddatblygu polisi ar raddfa Cymru gyfan. Mae ganddynt gylch gwaith eang sy'n cynnwys yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy, cynllunio gwlad a thref, materion cefn gwlad a chadwraeth, amaethyddiaeth a datblygu gwledig gan gynnwys coedwigaeth, a chynhyrchu bwyd. Maent hefyd yn cynghori ar ddyraniadau cyllideb ar gyfer materion gwledig.
- 2.8 O fewn Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, rhoddwyd cyfrifoldeb am ddatblygu a chyflwyno polisi gwledig nad yw'n amaethyddol ar raddfa genedlaethol, (gweler blwch 2.1) i'r Is-adran Polisi Gwledig (IPG). Yr IPG sy'n gyfrifol am sicrhau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i hasiantaethau yn cymryd anghenion penodol ardaloedd gwledig i ystyriaeth; yn hybu datblygiad polisi gwledig o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyda cyrff eraill y tu allan; ac am sicrhau bod polisiâu a chynlluniau ehangach yn 'adlewyrchu'r dimensiwn gwledig yn ddigonol'.

² Adroddiad Adrannol i Swyddfa Cymru, Mai 2003

Blwch 2.1

Mae dyletswyddau cyfredol yr Is-adran Polisi Gwledig yn cynnwys:

- Ymdrin â phob agwedd ar yr economi wledig nad yw'n amaethyddol
- Cefnogi Partneriaeth Wledig Cymru
- Datblygu rhaglen LEADER+ 2000-2006 a arie nnir gan yr UE
- Cyflwyno *Cymru'n Ennill* mewn ardaloedd gwledig
- Gweithredu rhaglenni adfywio cymunedau gwledig
- Cydlynu Cynllun Adfer Cefn Gwlad

Partneriaeth Wledig Cymru

- 2.9 Yn Nhachwedd 1998 lluniodd Gweinidog Cymru ar y pryd Bartneriaeth Wledig Cymru (PWC), tasglu gwledig a gafodd gyfrifoldeb am ymdrin â'r materion amrywiol a oedd yn effeithio ar y Gymru wledig. Mae'r Bartneriaeth yn dod ag ystod eang o sefydliadau a grwpiau diddordeb at ei gilydd i gyfrannu at ddatblygu polisiau a rhaglenni ar gyfer y Cymru wledig. Mae ei gylch gwaith yn ymgorffori materion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.
- 2.10 Roedd gan y Bartneriaeth wreiddiol gynrychiolwyr o 26 o sefydliadau a grwpiau. Yn dilyn adolygiad o'i amodau gorchwyl ac aelodaeth yn 2002, mae cynrychiolaeth bron wedi dyblu i bedwardeg un o sefydliadau a grwpiau. (Gweler rhestr o'r aelodau yn Atodiad 5). Caiff y Bartneriaeth ei chadeirio gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad.
- 2.11 Ym 1999, cyflwynodd y Bartneriaeth Wledig Ddatganiad Cynhwysfawr ar Gymru wledig i'r Cynulliad. Roedd y Datganiad Cynhwysfawr yn cynnwys gweledigaeth am 'ddyfodol cynaliadwy i Gymru wledig' ac yn amlinellu saith gweithred o flaenoriaeth dros gyflawni hyn:
1. Hyrwyddo datblygiad busnes
 2. Lledaenu ffyniant economaidd
 3. Datblygu sgiliau i gyfateb i anghenion busnes
 4. Cryfhau cymunedau
 5. Gwella mynediad at wasanaethau gwledig
 6. Buddsoddi yn yr isadeiledd gwledig
 7. Gwella'r amgylchedd gwledig
- 2.12 Mae'r blaenoriaethau hyn wedi chwarae rôl allweddol wrth lunio polisiau a rhaglenni datblygu gwledig yng Nghymru. Maent wedi cyfarwyddo paratoi elfennau gwledig y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol, ac maent wedi'u hymgorffori yn y Dogfennau Rhaglennu Sengl ar gyfer Amcan 1, Amcan 2 a LEADER+ a'r Ddogfen Rhaglennu Gweithredol ar gyfer Amcan 3 yng Nghymru. Mae'r 'Trosolwg Strategol ar gyfer Cymru Wledig' yng Nghynllun Datblygu Gwledig Cymru 2000-2006 i bob diben yn grynodedb o'r Datganiad

Cynhwysfawr, ac mae'r Cynllun Datblygu Gwledig yn cadarnhau'n benodol saith gweithred o flaenoriaeth y datganiad.

- 2.13 Mae'r Bartneriaeth hefyd wedi bod yn gysylltiedig â nifer o Grwpiau Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd gan y Cynulliad. Mae'r rhain yn cynnwys grwpiau a sefydlwyd i: ystyried effaith economaidd clwy'r traed a'r genau ar y Gymru wledig; adolygu cylch gorchwyl ac aelodaeth y Bartneriaeth Wledig; diweddarau a diwygio dogfen Bartneriaeth 1999 *Cymru Wledig: datganiad gan y Bartneriaeth Wledig*; ac ystyried goblygiadau canfyddiadau astudiaeth ar *Gymunedau Cytbwys eu Hoedran* yng Nghymru Wledig.

Cyrff cyhoeddus anetholedig

- 2.14 Mae cyflwyno polisi, gan gynnwys datblygu rhaglenni ar gyfer Cymru wledig ar lefel Cymru gyfan yn bennaf yn gyfrifoldeb cyrff cyhoeddus anetholedig. Gellir grwpio'r rhain o dan y term cyffredinol 'cwango' (cyrff anllywodraethol lled-anreoledig), er bod gwahanol gyrff yn amrywio yn ôl eu trefn lywodraethol a'u hatebolrwydd i'r Cynulliad. Gall Llywodraeth Cynulliad Cymru ymrwmo i gytundebau â chyrff anetholedig yn y sector cyhoeddus i gyflawni swyddogaethau ar ei rhan. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys cynnig gwasanaethau penodol, cynghori'r Cynulliad a chyflawni rôl farnwrol.
- 2.15 Y cyrff cyhoeddus anetholedig mwyaf arwyddocaol o ran y dimensiwn gwledig yw'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNCau). Mae'r rhain yn derbyn arian yn uniongyrchol gan y Cynulliad ond nid ydynt yn rhan o'r Cynulliad; maent yn gweithredu hyd braich oddi wrtho yn ôl eu pwerau cyfreithiol eu hunain a chyda'u cyfansoddiadau eu hunain. Ar hyn o bryd mae tri deg tri CCNC, pymtheg ohonynt yn cyflawni swyddogaethau gweithredol y Cynulliad, a deunaw ohonynt yn gyrff cynghori³.
- 2.16 Mae CCNCau gweithredol yn chwarae rôl o bwys wrth gyflwyno polisiau Llywodraeth y Cynulliad. Llywodraeth y Cynulliad sy'n rhoi iddynt ran helaeth o'u cyllid ac sydd hefyd yn penodi nifer o aelodau bwrdd y CCNCau. Mae prif weithredwyr y CCNCau yn uniongyrchol atebol i Lywodraeth y Cynulliad. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn monitro ac yn dylanwadu ar weithgareddau'r CCNCau drwy nifer o fecanweithiau. Ymysg y mecanweithiau hyn mae 'llythyron cylch gwaith' sy'n gosod allan flaenoriaethau a thargedau presennol y Cynulliad ar gyfer y CCNCau a'r rheiny yn y dyfodol, gweithredu pwerau nacáu ar gynlluniau busnes a chorfforaethol, gofyn i CCNCau lunio adroddiadau blynyddol am eu cynnydd tuag at gyflawni targedau, a gofyn bod cynigion ar gyfer mathau penodol o wariant neu wariant sydd uwchlaw terfyn penodol yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad er mwyn eu cymeradwyo neu eu gwrthod. Mae'r cyfrifoldeb am ddatblygu'r polisiau cyffredinol sy'n gosod cyd-destun i

³ Adroddiad y Comisiwn Richard ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gwanwyn 2004

amcanion a gweithgareddau'r CCNCau yn gorwedd gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru.

- 2.17 Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCW) yw'r unig CCNC sydd â chylch gwaith yn arbennig ar gyfer Cymru wledig. CCW yw'r cynghorydd statudol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar faterion yn ymwneud â chefn gwlad a bywyd gwyllt yng Nghymru, a chanddo ef y mae'r cyfrifoldeb am ddatblygu a gweithredu polisi ar ddiogelu'r tirwedd a diogelu bywyd gwyllt ar y tir ac ar y môr. Mae hefyd yn hyrwyddo defnydd, mwynhad a dealltwriaeth gyhoeddus o gefn gwlad.
- 2.18 Nid yw cylch gwaith CCGC yn cynnwys datblygiad economaidd ehangach nac adfywio cymunedau yn benodol – yn wahanol i Asiantaeth Cefn Gwlad Lloegr. Ar hyn o bryd fodd bynnag, mae CCGC, ar y cyd â Bwrdd Croeso Cymru, yn cefnogi ac yn gweithredu menter Adfywio â'i nod o ysgogi twristiaeth yng Nghymru wledig. Gydag asiantaethau eraill, ganddo ef hefyd y mae'r cyfrifoldeb am gyflwyno cynlluniau amaeth-amgylcheddol fel Tir Gofal.
- 2.19 Ymwelodd yr Arglwydd Haskins â naw gwlad Ewropeaidd er mwyn llywio ei *Report on the delivery of government policies in rural England* (2003), ac ohonynt, roedd o'r farn mai *'the best example of rural delivery...is Wales'*. Gwnaed yr asesiad hwn gyda chyfeiriad penodol at gyflwyno polisi yn y sectorau amaeth a'r amgylchedd. Wrth roi tystiolaeth gerbron y Pwyllgor Dethol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ym mis Mehefin 2003, gwnaeth yr Arglwydd Haskins y sylw bod gan Gymru:
- nice separation between the policy side, the Assembly side and the Countryside Council for Wales. It has a very co-ordinated approach towards the environmental, the agricultural and the rural issues. It is very much listening to what is going on in the rural constituencies...It is a small country and size comes into the thing.*
- 2.20 Hyd 1999, gan Fwrdd Datblygu Cymru Wledig (BDCW) fu'r cyfrifoldeb am ddatblygu economaidd ac adfywio cymunedau gwledig - er bod ei enw braidd yn gamarweiniol, gan ei fod yn gyfrifol am ardaloedd gwledig canolbarth Cymru yn unig (siroedd Powys a Cheredigion a hen ardal ddosbarth Meirionnydd yn sir Gwynedd). Trosglwyddodd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a Gorchymyn (Diddymu) Bwrdd Datblygu Cymru Wledig (1999) swyddogaethau BDCW i Awdurdod Datblygu Cymru, sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu economi Cymru, gwella amgylchedd Cymru a hybu effeithlonrwydd a chystadleuaeth ddiwydiannol ledled Cymru.
- 2.21 Mae Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) yn rhedeg Uned Polisi Gwledig penodedig, sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu rhaglen integredig o fesurau ar gyfer datblygu holl economi wledig Cymru ac am sicrhau bod y rhaglenni Cymru gyfan a gyflwynir gan y WDA yn adlewyrchu'r dimensiwn gwledig yn ddigonol. Mae hefyd yn gyfrifol am gyflwyno rhaglenni blaenllaw Is-adran Polisi Gwledig

Llywodraeth Cynulliad Cymru gan gynnwys Gweithredu dros Gymunedau Gwledig, a'r rhaglenni gwledig sy'n gysylltiedig â chronfeydd strwythurol yr UE, ac yn arbennig LEADER+ ac Erthygl 33 y Cynllun Datblygu Gwledig.

- 2.22 Ym mis Gorffennaf 2004, cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai tri o'r CCNCau mwyaf, sef y WDA, Bwrdd Croeso Cymru ac ELWa, yn cael eu diddymu erbyn Ebrill 2006 â LICC yn ymgorffori eu swyddogaethau. Y rhesymeg a roddwyd dros y symudiad hwn yw y dylai eu gwaith ddod yn uniongyrchol atebol i'r gweinidog priodol yn hytrach nag i fyrddau gweithredol anetholedig y sefydliadau hyn. Cafodd rôl y CCNCau ei beirniadu'n fynych, am greu haen ddianghenraid yn y broses o gyflwyno polisi, ychwanegu biwrocratiaeth, lleihau eglurder ac atebolrwydd ac am ddefnyddio adnoddau y gellid eu defnyddio'n well rywle arall. Yn ôl Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, bydd yr ailstrwythuro hyn yn rhoi "*mwy o bwer, mwy o fâs critigol, a mwy o allu i lunio polisiau yn arbennig i Gymru*" ynghyd a "*llai o wahaniaethu rhwng llunio polisi a'i weithredu.*" Mae ei arwyddocâd - os oes un o gwbl - ynghylch polisiau ac adnoddau ar gyfer Cymru wledig, eto i'w weld.

Awdurdodau lleol

- 2.23 Ar hyn o bryd mae pymtheg o awdurdodau lleol yn ymledu'n swyddogol dros ardaloedd gwledig yng Nghymru. Gellir rhannu'r rhain ymhellach yn: naw awdurdod unedol sy'n cael eu dosbarthu yn wledig yn bennaf; tri awdurdod unedol sy'n cael eu dosbarthu yn rhai trefol yn bennaf ond bod ganddynt ardaloedd gwledig sylweddol; a thri awdurdod Parc Cenedlaethol. (Gweler Ffigur 1.)
- 2.24 Mae awdurdodau lleol yn cyflwyno ystod o raglenni gwledig ar raddfa leol. Mewn ambell achos mae'r awdurdodau lleol yn gweithredu fel yr unig asiantaethau, ond ym mwyafrif yr achosion maent yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff eraill, gan gynnwys LICC a CCNCau. Mae awdurdodau lleol hefyd yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu eu polisiau a'u rhaglenni arbennig eu hunain.
- 2.25 Mae Deddf Llywodraeth Leol (Lloegr a Chymru) 2000 yn gofyn yn benodol bod awdurdodau lleol yn hyrwyddo lles eu hardaloedd. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi pwerau newydd eang i awdurdodau wella a hyrwyddo lles lleol fel ffordd o'u cynorthwyo hwy i weithredu'r strategaethau hynny. Mae Adran 4(1) y ddeddf hon yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol i baratoi strategaeth (y cyfeirir ati fel strategaeth gymunedol neu gynllun cymunedol) ar gyfer hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hardal a chyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy yn y Deyrnas Unedig.
- 2.26 Gorfododd Llywodraeth Cynulliad Cymru bob awdurdod lleol yng Nghymru i gynhyrchu ei strategaeth gymunedol erbyn Gwanwyn 2004. Dylai'r cynlluniau hyn ganolbwyntio ar flaenoriaethau ar gyfer gweithredu sy'n codi o anghenion ardal gyfan yr awdurdod a'r cymunedau gwahanol oddi fewn iddynt. Dylai pob

cynllun gynnig ffordd o gydlynu darpariaeth y gwasanaethau a'r mentrau ac ymdrin â materion trawstoriadol mewn dull cydlynol ac integredig. Dylent amlinellu beth ddylai ddigwydd i wasanaethau yn y sir dros y 10 i 15 mlynedd nesaf, gan dalu sylw i wasanaethau a ddarperir nid yn unig gan y Cyngor Sir ond hefyd y rheiny a ddarperir gan asiantaethau partner fel yr Heddlu, y Bwrdd Iechyd Lleol ac Awdurdod Datblygu Cymru. Dylent hefyd gynnig fframwaith strategol holl-gynhwysol ar gyfer holl gynlluniau a strategaethau eraill ardal yr awdurdod lleol, fel y gall pobl weld perthnasedd y cynlluniau hynny i wella ansawdd bywyd cyffredinol yr ardal.

- 2.27 Un o swyddogaethau allweddol y strategaethau hyn yw 'nodi sut y mae blaenoriaethau'r Cynulliad yn perthyn i flaenoriaethau lleol a sut y gallant gael eu rhoi ar waith ar lefel llywodraeth leol (Paratoi Strategaethau Cymunedol, 2001). Mae ganddynt felly rôl bwysig wrth gryfhau'r cyswllt rhwng polisiau ac adnoddau lleol a chenedlaethol. "*Gall strategaethau cymunedol... helpu i ddangos sut y mae'r polisiau cenedlaethol hynny yn cael eu gweithredu ar lefel lleol, pa mor effeithiol ydynt, a sut y maent yn cyd-fynd â blaenoriaethau lleol.*" (Paratoi Strategaethau Cymunedol, 2001). Mae'n ddealliedig bod hyn yn cynnwys y dimensiwn gwledig.
- 2.28 Nid oes gofyn statudol ar awdurdodau lleol i wahaniaethu'n benodol rhwng ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol yn eu polisiau a'u rhaglenni. Mae polisi cynllunio diweddaraf Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ddefnydd tir, *Polisi Cynllunio Cymru 2002*, fodd bynnag, yn argymhell bod awdurdodau '*yn pennu strategaeth datblygu gwledig integredig ar gyfer datblygiadau newydd yn seiliedig ar egwyddorion datblygu cynaliadwy ac sydd wedi'u teilwra ar gyfer asedau ac anghenion penodol yr ardal*' (paragraff 7.5.1).
- 2.29 Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sef corff anstatudol sy'n cynrychioli buddiannau awdurdodau lleol yng Nghymru, hefyd yn dadlau o blaid rôl arweiniol ar gyfer awdurdodau lleol wrth baratoi strategaethau datblygu gwledig lleol. Mae'n annog awdurdodau lleol i gael yr hyblygrwydd i ddatblygu polisiau sy'n adlewyrchu anghenion cymunedau gwledig yn eu hardaloedd o fewn y fframwaith cenedlaethol cytunedig.


Blaenoriaethau'r DU ar gyfer Cymru wledig

- 2.30 Mae'r Cynulliad yn ymrwymo i greu polisiau a rhaglenni a wnaed yng Nghymru, i Gymru. Ar yr un pryd fodd bynnag, mae'n cael ei arwain a'i strwythuro gan flaenoriaethau a fframweithiau deddfwriaethol cenedlaethol ac Ewropeaidd ehangach, neu fel arall mae'n rhaid iddo'u cymryd i ystyriaeth.
- 2.31 Tra bod gan y Cynulliad ymreolaeth sylweddol o ran is-ddeddfwriaeth, erys y pwr i gyflawni deddfwriaeth sylfaenol gyda llywodraeth y DU, fel y mae'r pwr i godi treth. Ymysg meysydd deddfwriaeth sylfaenol mae polisi economaidd,

deddfwriaeth cyflogaeth, materion cartref, nawdd cymdeithasol, y system gyfreithiol, darlledu a'r Loteri Genedlaethol.

- 2.32 Nid yw'r Cynulliad yn gyfrifol am wario na dyrannu adnoddau ar raglenni na ddatganolwyd. Dim ond pwerau hunanariannu cyfyngedig sydd ganddo, drwy ei bwer i bennu'r grant canolog sy'n cefnogi gwariant awdurdodau lleol ac i amrywio'r taliadau am nwyddau a gwasanaethau a ddarperir ganddo; rhoddir rhan helaeth ei gyllid iddo gan Drysorlys y DU.
- 2.33 Gwnaeth y Cynulliad gais am bedwar darn o ddeddfwriaeth sylfaenol yn sesiwn 2001-2002 y Senedd, ond ni chafwyd yr un ohonynt. Cynrychiolir buddiannau Cymru yn senedd y DU gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, swydd a grëwyd adeg datganoli'r pŵer. Rhaid i bob rheol, rheoliad a phenderfyniad a wneir gan y Cynulliad ynghylch ei bwerau datganoledig gydsynio â deddfwriaeth San Steffan.
- 2.34 Mae sawl concordat yn bodoli ynghylch gwaith ac ymgynghori cydrannol ar faterion datganoledig rhwng pob prif adran Llywodraeth y DU a rhai Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cytunwyd ar y concordat sy'n ymwneud â materion gwledig yn wreiddiol rhwng y Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (MAFF) sydd bellach wedi cael ei dileu, a'r Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig. Mae'n diffinio'r berthynas rhwng Adran gyfredol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) ac Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad.

Ffigur 1 Map o'r awdurdodau unedol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol yng Nghymru wledig



- 2.35 Cyfeiriad cyfyngedig sydd yn y concordat at ddatblygu ac adfywio gwledig y tu hwnt i amaethyddiaeth, pysgodfeydd a bwyd. Mae'n mynegi 'ymrwymiad i gydweithio ar gymhwysio polisiau amaethyddol, pysgodfeydd a bwyd o fewn eu cyfrifoldebau priodol' a chytundeb i '[g]ysylltu'n agos, yn ôl y gofyn, ar faterion heb eu datganoli, yn enwedig lle gallai materion effeithio ar feysydd datganoledig'.
- 2.36 Nid yw'r concordat 'mewn unrhyw fodd yn cyfyngu ar hawl 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru' i weithredu neu i ddeddfu fel y gwêl yn addas mewn perthynas â materion datganoledig yng Nghymru'. Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael 'ei gynnwys yn llawn' mewn trafodaethau 'ynghylch llunio safbwynt polisi'r DU ar bob mater sy'n ymwneud â materion datganoledig'.

Blaenoriaethau'r UE ar gyfer datblygu gwledig

- 2.37 Fel rhan o'r Undeb Ewropeaidd, rhaid i'r Cynulliad hefyd gymryd deddfwriaeth y Comisiwn Ewropeaidd i ystyriaeth yn y gwaith y mae'n ei gyflawni. Mae Datganiad Cork 1996 gan aelod-wladwriaethau Ewrop yn diffinio'r prif flaenoriaethau ar gyfer sbarduno datblygu gwledig ac mae'n amlinellu nifer o ganllawiau cyffredinol i arallgyfeirio gweithgareddau economaidd a chymdeithasol mewn ardaloedd gwledig ac i gynnal ansawdd a mwynder tirwedd wledig Ewrop. Mae hefyd yn datgan bod angen i faterion gwledig fod yn integredig ac yn aml-sectoraidd ac i fod yn berthnasol i holl ardaloedd gwledig yr Undeb, gan fynnu: 'rhaid integreiddio'r angen i ddiogelu a gwella ansawdd yr amgylchedd gwledig ym mhob un o bolisiau'r Gymuned sy'n gysylltiedig â datblygu gwledig.' (Caiff egwyddorion datganiad Cork eu cynnwys yn Atodiad 6).
- 2.38 Cafodd y casgliadau hyn eu cymryd i ystyriaeth gyffredinol gan raglen weithredu Agenda 2000, a lanswyd ym 1999. Prif amcanion Agenda 2000 yw cryfhau polisiau'r CE ac i roi fframwaith ariannol newydd i'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer y cyfnod 2000-6 gyda golwg ar helaethu. Ei fwriad yw cynyddu effeithiolrwydd y Cronfeydd Strwythurol a'r Gronfa Cydlyniant ac i barhau â diwygio amaethyddol. Roedd Agenda 2000 yn rhoi blaenoriaeth i osod polisi datblygu gwledig cynaliadwy ar waith; pwysleisiodd gyfyngiadau rhannu polisi gwledig rhwng polisi'r farchnad amaethyddol, polisi strwythurol a pholisi amgylcheddol.
- 2.39 Mae pob rhaglen Ewropeaidd ar gyfer datblygu gwledig yn dod o fewn cylch gwaith y Rheoliad Datblygu Gwledig (RDG), un o ganlyniadau diwygiadau Agenda 2000. Mae'r RDG, sy'n cael ei adnabod yn well fel ail golofn y PAC, yn adlewyrchu symudiad ar y lefel macro i gyfeiriad polisi 'Rhanbarthol' mwy integredig ar gyfer yr UE. Ei weledigaeth yw economi wledig ôl-gynhyrchiol ac amrywiol, ac mae'n gosod gwerth sylweddol ar yr amgylchedd a'r economi gynaliadwy, ynghyd ag ar amaethyddiaeth. O ran polisi a chyllid, canlyniad hyn yw symud oddi wrth gymorthdaliadau ar gyfer cynhyrchu ac i gyfeiriad cynnwys

ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol fwyfwy mewn polisi gwledig.

- 2.40 Mae'r RDG yn cyfrif am tua 10% o wariant y PAC ac fe'i seilir ar bedair egwyddor.
1. Amlymarferoldeb amaethyddiaeth: cydnabod bod gan ffermwyr rôl amrywiol, uwchlaw cynhyrchu.
 2. Ymagwedd aml-sectoraidd ac integredig tuag at yr economi wledig: arallgyfeirio gweithgareddau, creu ffynonellau incwm a chyflogaeth newydd, ac amddiffyn y dreftadaeth wledig.
 3. Cymhorthion hyblyg ar gyfer datblygu gwledig, yn seiliedig ar egwyddorion is-reolaeth a datganoli.
 4. Eglurder wrth lunio a rheoli rhaglenni, gan gynnwys deddfwriaeth fwy syml a hygyrch.
- 2.41 O dan y Rheoliad Datblygu Gwledig, roedd yn rhaid i bob aelod-wladwriaeth y GE lunio Cynlluniau Datblygu Gwledig saith mlynedd, ar y 'lefel ddaearyddol briodol' a'u cyflwyno i'r GE i'w cymeradwyo cyn eu gweithredu. Mae gan y DU Cynlluniau i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Maent yn disgrifio'r ardaloedd daearyddol a gynhwysir, y mesurau i'w gweithredu, y gwariant arfaethedig a chyfiawnhad economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol am y cynlluniau.
- 2.42 Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2000-2006 yw'r ddogfen bolisi ddiweddar fwyaf cynhwysfawr ar Gymru wledig, sy'n hawlio ei bod yn cynnig ymagwedd integredig at ddatblygu gwledig yng Nghymru. Ei bwriad yw ategu a chefnogi hyd y bo hynny'n ymarferol, raglenni eraill yr UE a Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch Cymru wledig.


Cronfeydd Strwythurol yr UE

- 2.43 Ar hyn o bryd, daw cyfran sylweddol o gyllid datblygu gwledig yng Nghymru o Gronfeydd Strwythurol yr UE, sef prif offerynnau'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer cefnogi ailstrwythuro cymdeithasol ac economaidd ar draws yr Undeb. (Gweler ffigur 2, dros y dudalen.)
- 2.44 Mae pedair Cronfa Strwythurol ar gael i ardaloedd yng Nghymru wledig. Mae Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) yn ariannu rhaglenni sy'n gwella ffyniant economaidd a chynhwysiant cymdeithasol. Mae'n hyrwyddo datblygu ac yn annog arallgyfeirio diwydiant mewn ardaloedd sy'n 'ymlusgo'n' economaidd. Mae Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) yn ariannu cynlluniau hyfforddi, adnoddau dynol a chyfle cyfartal i hyrwyddo cyflogadwyedd. Gellir hefyd ei ddefnyddio i ategu gweithgareddau a gefnogir gan arian yr ERDF mewn rhai ardaloedd. Mae Cronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop (EAGGF) yn annog ailstrwythuro ac arallgyfeirio ardaloedd gwledig. Mae'n

hyrwyddo ffyniant economaidd a chynhwysiant cymdeithasol, ac yn anelu at amddiffyn a chynnal yr amgylchedd a threftadaeth wledig. Mae'r Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd (FIFG) yn ariannu prosiectau i foderneiddio strwythur y sector pysgodfeydd a diwydiannau perthynol ac i annog arallgyfeirio'r gweithlu a diwydiant y pysgodfeydd. Ei nod hefyd yw sicrhau dyfodol y diwydiant drwy ennill cydbwysedd rhwng adroddau'r pysgodfeydd ac ymelwa arnynt.

- 2.45 Mae polisi Llywodraeth y DU ar Gronfeydd Strwythurol yr UE yn cael ei gyflynu gan yr Adran Masnach a Diwydiant (y DTI). Yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n gyfrifol am Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yw'r brif asiantaeth ar gyfer adran Gyfarwyddo'r EAGGF, ac sy'n gyfrifol am FIFG.
- 2.46 Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel y 'corff cymwys dynodedig', sy'n gyfrifol am ddyrannu a gweinyddu arian yr UE ar gyfer Cymru o fewn y fframwaith a osodir gan yr UE. Ym 1998, sefydlodd y Swyddfa Gymreig Dasglu'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd (ESTF) sef partneriaeth rhwng y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol, i ddarparu i'r Cynulliad Cenedlaethol set gynhwysfawr o gynigion ynghylch defnyddio'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. Mae'r ESTF yn cynnwys Grwp Sector Gwledig.
- 2.47 Sefydlwyd Gweithrediaeth Rhaglenni Ewropeaidd Cymru Cyf (WEPE) ym 1996 i weinyddu mwyafrif rhaglenni cronfeydd strwythurol yr UE yng Nghymru, yn dilyn pwysau am gael eglurder, annibyniaeth a phartneriaeth wrth reoli cyllid Ewropeaidd. Cafodd ei weithredu fel cwmni dan berchnogaeth, rheolaeth ac wedi'i ariannu'n rhannol gan bob awdurdod lleol a chan bartneriaid eraill. Roedd awdurdodau unigol yn aelodau o'r cwmni. Cymerodd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) le WEPE fel asiantaeth weithredol y Cynulliad, ac mae wedi rhedeg pob rhaglen strwythurol ers 2001. Gweithredai WEFO i ddechrau o hyd braich i'r Cynulliad. Yn 2003, cafodd ei dwyn o dan reolaeth uniongyrchol Gweinidog Datblygu Economaidd a gweision sifil y Cynulliad.
- 2.48 Mae Cronfeydd Strwythurol yr UE yn cael eu cysylltu â nifer o raglenni a fwriedir i gynorthwyo rhanbarthau o'r UE sy'n dioddef problemau a achoswyd neu a waethygydd gan ddirywiad diwydiannau a fu unwaith yn amlwg, isadeileddau annigonol a rhwystrau eraill rhag datblygu economaidd. Yng Nghymru, dim ond un o'r rhaglenni hyn - LEADER+ sy'n cael ei thargedu'n uniongyrchol at ddatblygu gwledig ac adfywio cymunedau gwledig; mae gan

Ffigur 2: Ffrydiau Ariannu Ewropeaidd



eraill ddimensiwn gwledig sylweddol ac maent yn effeithio'n fawr ar ardaloedd gwledig Cymru, er nad ydynt yn rhaglenni 'gwledig' penodol. Mae Dogfen Raglennu Sengl (DRS), sy'n amlinellu blaenoriaethau ac amcanion y rhanbarth ac sy'n gosod y fframwaith strategol ar gyfer dyrannu arian, yn cyd-fynd â phob rhaglen. Caiff Dogfennau Rhaglennu Sengl eu llunio ar lefel Cymru, ond rhaid i'r Comisiwn Ewropeaidd eu cymeradwyo.

Crynodeb o'r bennod

Polisi Gwledig Cymru: gwnaed yng Nghymru, i Gymru?

Mae creu Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi creu cryn gyfle i bolisiau, rhaglenni ac adnoddau adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau Cymru wledig. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad Is-adran Polisi Gwledig sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chyflwyno polisi gwledig nad yw'n amaethyddol. Ymgwymerodd Awdurdod Datblygu Cymru â'r cyfrifoldeb am ddatblygiad economaidd Cymru wledig gyfan yn dilyn creu'r Cynulliad. Mae ail dymor y Cynulliad wedi gweld creu Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, sy'n cymryd lle'r Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig flaenorol.

Er gwaethaf datganoli, parhau'n gyfyngedig y mae'r cyfleoedd i'r Cynulliad hunanbenderfynu polisiau gwledig. Caiff datblygu polisi ac adnoddau i Gymru wledig ei gyfarwyddo a'i strwythuro gan ystod o ffactorau sydd y tu hwnt i'r heriau a'r cyfleoedd mwyaf brys y mae cefn gwlad Cymru a'r gyrru tuag at hunanbenderfynu gan Gymru yn eu gosod. Y ffactorau hyn, yn bennaf, yw'r themâu a'r gwerthoedd craidd sy'n cyfarwyddo holl waith y Cynulliad, blaenoriaethau a strategaeth y Cynulliad i Gymru gyfan, amgylchedd polisi y DU a dylanwad polisi a chyllido yr Undeb Ewropeaidd.

Mae polisiau, rhaglenni a chyllid gan yr UE wedi cymryd rôl ddominyddol yn natblygiad ac adfywio Cymru wledig. Daw mwyafswm yr arian sydd ar gael ar gyfer datblygu ac adfywio ardaloedd gwledig Cymru drwy ffrydiau arian Ewropeaidd. Cafodd y ddogfen raglen fwyaf cynhwysfawr ar gyfer Cymru wledig, *Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2000-2006*, ei chreu o dan Reoliad Datblygu Gwledig yr UE.

ADRAN 3

CYDNABOD Y DIMENSIWN GWLEDIG

Mae'r bennod hon yn amlinellu sut ac i ba raddau y mae'r polisiau a'r rhaglenni cyfredol yn ymdrin â dimensiwn gwledig yr economi, y gymdeithas, y diwylliant a'r amgylchedd yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio ar Lywodraeth Cynulliad Cymru, ar Gyrrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, ac ar awdurdodau lleol. Mae'r bennod yn ystyried yn arbennig:

- Effaith polisiau ar gyfer Cymru gyfan ar bolisiau gwledig
- Prawfesur polisiau gwledig
- Dogfennau polisi gwledig allweddol
- Y graddau y mae cyrrff cyhoeddus anetholedig yn gwahaniaethu rhwng polisi gwledig a threfol
- Y graddau y mae awdurdodau lleol yn gwahaniaethu rhwng polisi gwledig a threfol
- Diffinio Cymru wledig

Darperir crynodeb o'r drafodaeth ar ddiwedd y bennod (t.39)

Cydnabod y gwledig mewn polisiau a rhaglenni 'prif ffrwd'

3.1 Mae'r pwyslais ar bolisiau a rhaglenni sy'n ymdrin â dimensiwn gwledig economi, cymdeithas, diwylliant ac amgylchedd Cymru yn amrywio ar draws gwahanol raddau polisi a rhwng cyrrff gwahanol y llywodraeth yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud gwahaniaeth clir rhwng anghenion a buddiannau ardaloedd gwledig a threfol. Mae yn yr amrywiol raglenni sy'n dosbarthu cronfeydd strwythurol yr UE yng Nghymru gydnabyddiaeth helaeth hefyd. Mae mwy o amwysedd ac ansicrwydd ymysg awdurdodau lleol – ac eithrio awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol. Mae ffocws ar y dimensiwn gwledig yn arbennig o gyfyngedig ymysg y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad – neu felly y mae o leiaf ymysg y CCNCau hynny a ymatebodd i'r arolwg a gynhaliwyd yn rhan o'r ymchwil hwn.

Y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth y Cynulliad

3.2 Mae polisi ac adnoddau'r Cynulliad ar gyfer Cymru wledig yn cael eu harwain a'u strwythuro gan ei strategaeth a'i flaenoriaethau ar gyfer Cymru gyfan. Mae Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2000-2006 (CDG) y Cynulliad yn pwysleisio mai **agendâu a rhaglenni domestig ehangach** yn hytrach nag agendâu a rhaglenni gwledig penodol, sy'n ganolog i arwain a strwythuro datblygu gwledig. Tra yr ystyrir bod gan y mesurau sy'n cael eu hamlinellu yn yr RDP *'gyfraniad penodol i'w wneud i gyflawni'r amcanion allweddol ar gyfer datblygu gwledig yng Nghymru'*, ni ddylai'r cyfraniad hwn *'gael ei ystyried yn fwy nag yn un o*

gydrannau'r rhaglen o gamau cenedlaethol wedi'u hariannu ar y cyd [â'r UE] sy'n cael eu paratoi ar gyfer Cymru dros y saith mlynedd nesaf (t. 182).

- 3.3 Mynegir y strategaeth a'r blaenoriaethau ar gyfer Cymru gyfan mewn dwy ddogfen allweddol: Cymru'n Ennill: Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru, a gyhoeddwyd yn 2002, a Cymru: Gwlad Well, Agenda Strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru, a gyhoeddwyd yn 2003. Bwriad y rhain yw arwain y Cynulliad a phob asiantaeth arall sy'n gyfrifol am ddatblygu Cymru, neu fel arall yn gysylltiedig â hynny.
- 3.4 Mae *Cymru'n Ennill* yn mynegi gweledigaeth, amcanion, targedau a strategaeth y Cynulliad ar gyfer datblygu economi Cymru o 2002 i 2012. Mae'n nodi bod datblygu economaidd yn allweddol i lwyddiant Cymru'n gyffredinol ac yn ei osod yng nghanol y strategaeth datblygu gyffredinol. Mae'n gosod dau nod: codi cyfartaledd CMC (GDP) y pen yng Nghymru yn nes at lefelau'r DU a'r UE, o'i lefel gyfredol sef 80% o gyfartaledd y DU, a gwella perfformiad economaidd y ddwy ran o dair hynny o Gymru sy'n cael eu disgrifio 'yn ymlusgo' o ran datblygiad economaidd. Pedair blaenoriaeth *Cymru'n Ennill* yw: creu 135,000 yn fwy o swyddi yng Nghymru erbyn 2012; gwella menter ac arloesi busnes; codi lefel ysgiliau a dysgu; ac ymelwa ar botensial economaidd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).
- 3.5 Mae *Cymru: Gwlad Well* yn nodi gweledigaeth y Cynulliad am ei ail dymor, o 2003 i 2007. Mae'n amlinellu pedair blaenoriaeth ar gyfer gweithredu: helpu mwy o bobl i gael swyddi; gwella iechyd; datblygu cymunedau cryf a diogel; creu swyddi a sgiliau gwell.
- 3.6 Mae'r ddwy ddogfen yn amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer Cymru wledig. Mae *Cymru: Gwlad Well* yn datgan mai'r rhain yw:
- 'ehangu sail economaidd yr ardaloedd gwledig';
 - 'hyrwyddo'r ardaloedd gwledig';
 - 'datblygu hyfforddiant sgiliau sy'n addas ar gyfer sefyllfaoedd gwledig';
 - 'sichrau nad yw pobl leol yn cael eu prisio allan o'r farchnad dai yng nghefn gwlad'.
- 3.7 Mae *Cymru'n Ennill* yn nodi mai'r blaenoriaethau ar gyfer y Gymru wledig yw:
- 'datblygu incwm a chyflogaeth yng Nghymru wledig mewn sectorau eraill heblaw am amaethyddiaeth, yn enwedig i bobl ifanc'.
 - 'cydnabod pwysigrwydd trefi a phentrefi gwledig mewn adfywio gwledig';
 - 'gwella dengarwch cefn gwlad Cymru, ei fioamrywiaeth a dathlu ei dreftadaeth, ar gyfer mwynhad ein pobl ac yn sail i dwristiaeth';
 - hyrwyddo arferion ffermio amgylcheddol gynaliadwy, drwy gynlluniau amaeth-amgylcheddol, diogelu natur, bywyd gwyllt, archaeoleg a threftadaeth.

- 3.8 Rhaid i bob polisi, rhaglen a menter yn y Gymru wledig, pa un ai yn genedlaethol, yn lleol neu'n unigol, weithredu o fewn y **canllawiau a'r rheoliadau cynllunio** cyfredol sy'n fframio datblygu a defnyddio tir yng Nghymru.⁴ Mae'r datganiad diweddaraf ar gynllunio, *Polisi Cynllunio Cymru 2002*, wedi cael ei ffurfio o gwmpas egwyddorion datblygu cynaliadwy, un o themâu a gwerthoedd arweiniol craidd y Cynulliad (t. 10-12), a datblygu gwledig integredig (t.17).
- 3.9 Mae *Polisi Cynllunio Cymru 2002* yn nodi tair blaenoriaeth ar gyfer Cymru wledig, sef:
- sicrhau **cymunedau gwledig cynaliadwy** sydd â mynediad i wasanaethau cyhoeddus o ansawdd da
 - creu **economi leol ffyniannus ac amrywiol** lle bo amaethyddiaeth a gweithgareddau cysylltiedig yn cael eu hategu gan dwristiaeth gynaliadwy a ffurfiau eraill ar gyflogaeth mewn cefn gwlad sy'n weithiol
 - cynnal **cefn gwlad deniadol ac ecolegol gyfoethog a hygyrch** lle caiff yr amgylchedd a bioamrywiaeth eu gwarchod a'u gwella.
- 3.10 Mae cyhoeddi *Cynllun Gofodol Drafft Cymru* yn 2003 wedi ychwanegu persbectif gofodol penodol at weledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer datblygu Cymru. Mae hyn yn unol â'r strategaethau gofodol sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd yn Lloegr, yng Ngogledd Iwerddon ac yn yr Alban. Mae datblygu a chynllunio gofodol wedi ennill momentwm yn Ewrop ers llunio'r Persbectif Datblygu Gofodol Ewropeaidd ym 1999, sy'n cynnig fframwaith ar gyfer cynllunio gofodol ar raddfeydd cenedlaethol a rhanbarthol yn yr UE. Trafodir goblygiadau Cynllun Gofodol Cymru o ran polisi gwledig ym mhennod nesaf yr adroddiad hwn.
- 3.11 Mae unrhyw bolisïau a rhaglenni gwledig sy'n deillio o Lywodraeth Cynulliad Cymru, fel pob un o'i pholisïau a'i rhaglenni, yn cael eu fframio a'u harwain gan y tair thema a gwerthoedd craidd y mae wedi eu mabwysiadu ac wedi ymrwymo i'w rhoi wrth galon ei gwaith. Mae gan y Cynulliad ddyletswydd gyfreithiol i ganlyn nod **datblygu cynaliadwy**, mae'n ymrwymedig i fynd i'r afael â **difreintedd cymdeithasol** ac mae ganddo rwymedigaeth statudol i hyrwyddo a gweithio tuag at **gyfle cyfartal**. Mae'r themâu trawstoriadol hyn yn fframio ac yn arwain holl weithgareddau'r Cynulliad a Llywodraeth y Cynulliad.

Polisi sectoraidd y Cynulliad

- 3.12 Gellid dweud bod gan y mwyafrif o bolisïau cyhoeddus Cymru ddimensiwn gwledig, gan fod y mwyafrif o'r polisïau cyhoeddus yng Nghymru yn debygol o effeithio ar ardaloedd gwledig Cymru. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad gyfrifoldeb statudol am ddatblygu a gweithredu polisi mewn sectorau sy'n

⁴ Mae cynllunio'n wahanol i fesurau datblygu eraill drwy fod, yn bennaf, yn arf polisi *negyddol*; ei brif ddiben yw rheoli, nid ysgogi datblygiad.

- cynnwys: trafndiaeth, iechyd, tai, addysg, amaethyddiaeth, datblygu economaidd, yr iaith Gymraeg, gwasanaethau cymdeithasol, llywodraeth leol, cynllunio, diwylliant, chwaraeon a'r amgylchedd. Mae effeithiau tiriogaethol amrywiol polisïau'r Cynulliad ledled Cymru a ledled y Gymru wledig yn arbennig, yn cael eu hadlewyrchu i raddau amrywiol yn nogfennau polisi'r Cynulliad.
- 3.13 Cydnabyddiaeth gyfyngedig ac amrywiol sydd o anghenion a chyfleoedd arbennig y Gymru wledig o fewn polisi sectoraidd. O ran ei natur, mae polisi sectoraidd yn ceisio ymdrin ag anghenion pobl ni waeth beth fo'u lleoliad daeryddol. Er enghraifft, prif nod *Agenda Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles y Cynulliad* yw “*hybu iechyd a lles pawb sy'n byw yng Nghymru a darparu gwasanaethau iechyd effeithiol ac effeithlon*” (www.wales.gov.uk/subihealth/index.htm).
- 3.14 Ar yr un pryd, mae polisïau sectoraidd yn cydnabod yn rheolaidd ac yn rhethregol yr angen i bolisi ymdrin ag anghenion pobl a chymunedau mewn gwahanol ardaloedd ar draws Cymru. Mae *Dyfodol Iachach i Gymru* (2000) yn cydnabod yn benodol yr angen i ddyrannu adnoddau ar sail anghenion yr ardaloedd, tra bod *Cymru Greadigol: Strategaeth Ddiwylliant i Gymru* (2002) yn pwysleisio'r angen i “*adlewyrchu'r amgylchiadau lleol yn llawn ym mhob rhan o Gymru*”.
- 3.15 Y tu hwnt i'r rhethreg hon fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o bolisi sectoraidd yn *anofodol*; nid yw'n gwahaniaethu rhwng nodweddion ac anghenion gwahanol ardaloedd Cymru. Fel arfer, bwriad polisïau sectoraidd yw arwain asiantiaid cyflwyno lleol i ddatblygu a chyflwyno rhaglenni sy'n mynd i'r afael ag anghenion ac amgylchiadau lleol, o fewn fframwaith amcanion a blaenoriaethau strategol cenedlaethol ehangach.
- 3.16 Ar yr un pryd, mae rhai polisïau sectoraidd yn gwahaniaethu rhwng ardaloedd 'trefol' a 'gwledig'. Mae hyn i'w weld yn amlwg yn *Fframwaith Trafndiaeth Cymru* (2002), sy'n pwysleisio'r “*angen i gydnabod y gwahaniaethau rhwng ardaloedd gwledig a threfol*” wrth annog pobl i ddefnyddio cludiant cyhoeddus ac i wella isadeiledd a gwasanaethau cludiant cyhoeddus. Mae'n cyfeirio at y ddarpariaeth gymharol wael o ran cludiant cyhoeddus a'r ffaith bod mwy o ddibynnu ar geir mewn ardaloedd gwledig, gan nodi “*Sylwir yn gyffredinol bod cludiant cyhoeddus yn absennol neu'n brin mewn ardaloedd gwledig; o ganlyniad, os nad oes car ar gael iddynt, mae tuedd i rai pobl gael eu hynysu, eu dieithrio'n gymdeithasol, a chyfyngir ar eu dewis o ran gwaith, iechyd, addysg a chymdeithasu*”. Mae hefyd yn nodi'r swm cymharol isel o drafnidiaeth sydd mewn ardaloedd gwledig.
- 3.17 Mae'r Fframwaith Trafndiaeth hefyd yn ymgorffori persbectif gofodol sy'n fwy targedig ac sy'n mynd y tu hwnt i wahaniaethau gwledig/trefol. Mae'n ceisio sicrhau nad yw unrhyw bolisïau a rhaglenni yn gwaethgu'r anghydraddoldeb daeryddol yng Nghymru ac yn cydnabod y rhyng-gysylltiadau rhwng ardaloedd gwahanol. “*Mae'n rhaid i'r fframwaith gyfarwyddo penderfyniadau sy'n*

adlewyrchu anghenion y rhanbarthau gwahanol yng Nghymru, sut y maent yn ymwneud â'i gilydd, â gweddill y DU, gydag Ewrop a thu hwnt." (Gweler blwch 3.1 am fanylion y Fenter Cludiant Gwledig Cymunedol)

- 3.18 O'i gymharu â *Phapur Gwyn Trafnidiaeth* 1998 mae'r Fframwaith hwn yn gwahaniaethu'n sylweddol lai rhwng ardaloedd gwledig o ran *polisi* gwirioneddol. Mae'n cydnabod "*efallai y bydd rhaid i ni ddarganfod set wahanol o atebion i'r problemau mewn ardaloedd gwledig o gymharu â'r rheiny rydym yn eu datblygu mewn ardaloedd trefol*" (paragraff 4.4.3) ac "*Os ydym i gynyddu hygyrchedd ar gyfer y rheiny sy'n byw mewn ardaloedd gwledig mae'n rhaid i ni ystyried atebion mwy hyblyg [i brinder cludiant cyhoeddus]*". Mae polisi cludiant cyhoeddus penodol wledig fodd bynnag, yn cael ei gyfyngu i sicrhau bod elfennau o'r strategaeth drafnidiaeth yn gydnaws â *Chynllun Datblygu Gwledig Cymru 2000-2006* ac argymhellion y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ynghylch polisiâu ar gyfer arallgyfeirio economaidd mewn ardaloedd gwledig.
- 3.19 Yn yr un modd, mae dogfennau polisi ar gyfer tai, addysg, pobl hyn a TGCh yn cyfeirio at wahaniaeth trefol-wledig, ond ychydig o bolisi gwledig (neu drefol) penodol y maent yn ei gynnwys.

Blwch 3.1 Menter Cludiant Gwledig Cymunedol

O 1998, rhoddwyd £2.5 miliwn ychwanegol y flwyddyn i Gymru i gefnogi cludiant cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig. Caiff £2.25 miliwn o'r arian hwn ei neilltuo ar gyfer rhoi cymhorthdal i wasanaethau bws lleol; mae'r gweddill yn ariannu'r Fenter Cludiant Gwledig Cymunedol sy'n hybu cynlluniau cymunedol anffurfiol a chydlynu gwasanaethau gwirfoddol, gan gynnwys Galw'r Gyrrwr a Bysiau taci, yn well.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyfuno ei Grant Bysiau Gwledig a'i Grant Cludiant Cymunedol yn un Grant Gwasanaethau Cludiant Lleol. Bwriad hyn yw galluogi awdurdodau lleol i fabwysiadu ymagwedd hyblyg at fodloni anghenion nodedig cludiant cyhoeddus yr ardaloedd gwledig.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi gosod Menter Cefnffyrdd drwy Drefi a Phentrefi Gwledig ar waith, a'i nod yw gwella diogelwch ar y ffyrdd mewn cymunedau gwledig.

Prawfesur Gwledig

- 3.20 Ymrwymiad cyfyngedig sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod polisiau ‘prif ffrwd’ i Gymru *gyfan* yn sensitif i anghenion a blaenoriaethau penodol *wledig*. Rhoddwyd cyfrifoldeb llwyr i Is-adran Polisi Gwledig Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ar gyfer ‘*prawfesur o’r safbwynt gwledig, bolisiau a chynlluniau a ddatblygwyd o fewn cylchoedd gwaith Gweinidogion eraill i sicrhau eu bod yn adlewyrchu’r dimensiwn gwledig yn ddigonol*’.
- 3.21 Nid oes mecanweithiau fodd bynnag, sy’n galluogi’r RPD i brawfesur o’r safbwynt gwledig, bolisiau yn systematig nac i helpu adrannau eraill i osod anghenion y Gymru wledig yn y brif ffrwd wrth gynllunio, datblygu a chyflwyno polisiau, rhaglenni a mentrau. Nid oes strwythurau sy’n caniatáu monitro ac adrodd am ddatblygiad prawfesur polisiau o’r safbwynt gwledig ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru. Nid yw’n orfodol bod prif isadrannau ac adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd anghenion, blaenoriaethau a buddiannau penodol ardaloedd gwledig i ystyriaeth ac yn datblygu polisiau domestig yn unol â hynny. Nid yw’n ymddangos bod anogaeth iddynt wneud hynny ychwaith.
- 3.22 Mae’r ymrwymiad cyfyngedig hwn yn cyferbynnu â’r sefyllfa yn Lloegr ac yn yr Alban. Yn Lloegr, bu’n orfodol prawfesur pob polisi yn ‘wledig’ ers 2000. Wrth gynllunio, datblygu a chyflwyno polisiau, mae rheidrwydd systematig ar wneuthurwyr polisi:
- Ystyried effaith polisi penodol ar ardaloedd gwledig
 - Gwneud asesiad cywir o’r effeithiau hynny os ydynt yn debygol o fod yn sylweddol
 - Addasu’r polisi lle bo’n briodol i fodloni anghenion ac amgylchiadau gwledig.⁵
- 3.23 I gynorthwyo gwneuthurwyr polisi, mae Asiantaeth Cefn Gwlad Lloegr (The Countryside Agency) wedi cynhyrchu rhestr wirio pymtheg pwynt, sydd i’w gymhwyso o gamau cynharaf llunio polisi.⁶ Rhaid i adrannau’r Llywodraeth a Swyddfeydd y Rhanbarthau adrodd yn flynyddol ar y ffordd y cafodd eu polisiau eu prawfesur o’r safbwynt gwledig, ac mae Asiantaeth Cefn Gwlad Lloegr yn cyhoeddi asesiadau blynyddol ar gynnydd cyffredinol prawfesur o’r safbwynt gwledig ar draws y llywodraeth.
- 3.24 Yn yr Alban, mae Gweithrediaeth yr Alban wedi’i hymrwymo’i hun i ‘brif ffrydio’ anghenion penodol yr Alban wledig yn ei holl bolisiau, er nad ydyw wedi mynnu bod prif ffrydio yn rhan orfodol o’r broses o lunio polisi. ‘*Yn hytrach na gosod yr Alban wledig i’r naill ochr fel rhywbeth gwahanol neu achos arbennig,*

⁵ DEFRA (2000) *Our Countryside: The Future*, Papur Gwyn Gwledig, Llundain

⁶ Asiantaeth Cefn Gwlad Lloegr (2003) *Rural Proofing – policy maker’s checklist*, The Countryside Agency, Cheltenham

*mae wedi annog llunwyr polisi i gymryd anghenion ardaloedd gwledig o ddifrif ac i addasu eu polisïau i fodloni gofynion ac amgylchiadau lleol lle bynnag y bo'n bosibl.*⁷

3.25 Mae sawl corff yn gyfrifol am osod prif ffrydio gwledig ar waith yn yr Alban:

- Mae Tîm Polisi Gwledig y Weithrediaeth yn gweithio o fewn ac ar draws meysydd polisi prif ffrwd i ystyried effaith debygol y polisïau arfaethedig ar ardaloedd gwledig, sut y dylai materion gwledig gael eu hadlewyrchu wrth ddatblygu polisïau a sut y dylid dosbarthu gwybodaeth ar bolisi gwledig i sefydliadau allanol.
- Mae'r Weithrediaeth wedi sefydlu 'rhwydwaith craidd gwledig', sy'n dwyn ynghyd swyddogion y Weithrediaeth sy'n cynrychioli meysydd blaenoriaeth allweddol datblygu gwledig, gan gynnwys datblygu economaidd, gwasanaethau, cludiant a chyfiawnder cymdeithasol, i hwyluso prif ffrydio gwledig ymhellach.
- Mae cylch gwaith Is-bwyllgor Cabinet y Weithrediaeth ar Ddatblygu Gwledig yn cynnwys '*sicrhau bod datblygiadau polisi yn cymryd amgylchiadau gwledig i ystyriaeth*'.

3.26 I raddau helaeth, darperir prawfesur o safbwynt gwledig gan **Offeryn Integreiddio Polisi** Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cafodd hyn ei gynllunio fel mecanwaith gwerthuso ar y lefel uchaf i swyddogion ei ddefnyddio wrth ddatblygu polisïau a gwerthuso prosiectau ar y lefel strategol. Bwriad yr offeryn yw annog gwneuthurwyr polisi i ystyried cyfraniad eu gwaith i'r nodau ehangach, ac i annog meddwl a gweithio y tu hwnt i ffiniau adrannol.

3.27 Mae'r offeryn yn cyflwyno dau ar bymtheg o gwestiynau pen-agored ac yn dilyn hynny, trideg chwech o ddatganiadau i'w cwblhau gan Grwp Gwerthuso. Mae dau ddatganiad yn cyfeirio'n benodol at Gymru wledig.

- Pa gyfraniad wna'r gweithgaredd hwn i ddatblygu economi wledig amrywiol sy'n cynnig sail cyflogaeth eang?
- Pa gyfraniad wna'r gweithgaredd hwn i alluogi amaethyddiaeth i gyflwyno manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol?

3.28 Mewn Adroddiad gan Brifysgol Caerdydd, ystyriwyd bod yr Offeryn Integreiddio wedi cael ei dderbyn yn dda yn gyffredinol. Roedd nifer o'r rhai a gyfwelwyd o'r farn mai dyma un o brif lwyddiannau'r Cynulliad yn ei dymor cyntaf, er bod eraill yn ei feirniadu am seilio'i nodau ar *Gymru Well* sydd ei hun yn mabwysiadu '*ymagwedd rhy gyffredinol tuag at bolisi*' ac am ymwneud cyfyngedig rhanddeiliad wrth ffurfio'r offeryn.

⁷ Gwefan Gweithrediaeth yr Alban, www.scotland.gov.uk

⁸ Flynn, A (2003) Byw'n Wahanol? Asesiad o bedair blynedd cyntaf dyletswydd datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru' BRASS, Prifysgol Caerdydd

- 3.29 Mae'r Offeryn Integreiddio yn darparu ar gyfer ychydig o gydnabyddiaeth o anghenion a blaenoriaethau gwledig penodol. Fodd bynnag, mae'n cyfyngu ei brawfesur gwledig neu brif ffrydio gwledig i ofyn i lunwyr a datblygwyr polisi ystyried effaith y polisi ar arallgyfeirio sail cyflogaeth yr economi wledig a galluogi i amaethyddiaeth gyflwyno manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.
- 3.30 Roedd llythyr cylch gwaith 2003-4 a anfonwyd at y CCNCau gan y Cynulliad yn pwysleisio bod disgwyl i CCNCau chwarae rhan lawn a gweithgar wrth gyflwyno mentrau Llywodraeth y Cynlluniad ynghylch y Gymru wledig lle bo'n briodol. Mae'n ymddangos, fodd bynnag, bod rhai CCNCau yn wynebu gofynion llai caeth nag eraill o ran hyn.
- 3.31 Mae'r llythyr at y Cyngor Chwaraeon, er enghraifft, yn nodi bod CCNCau 'yn gwneud cyfraniad hanfodol i ardaloedd gwledig, ond mae angen mesur a monitro'r cyfraniad hwn'. Disgwylir i'r Cyngor Chwaraeon 'ddangos ymagwedd ragweithiol at ddatblygu ymwybyddiaeth am chwaraeon a gweithgareddau corfforol a chyfranogiad ynddynt, yn amgylchedd naturiol Cymru' ac mewn perthynas â hyn, gofynnwyd iddo 'ystyried ymarfer meincnodi, ynghyd â set o dargedau priodol ac uchelgeisiol ar gyfer y blynyddoedd i ddod'. Mae'r llythyr hefyd yn nodi y bydd y Cynulliad yn cyhoeddi arweiniad a gwybodaeth am 'brawfesur gwledig' polisiau a rhaglenni CCNCau yn fuan.
- 3.32 Mewn cyferbyniad, roedd y llythyr ar y WDA yn cyfyngu gofynion prawfesur o'r fath i sicrhau bod *'mesurau digonol yn bodoli ar gyfer monitro a gwerthuso perfformiad'* y corff hybu cig, Hybu Cig Cymru. Fel arall nid oedd ond disgwyl i'r WDA *'barhau i chwarae rhan lawn a gweithgar wrth symud yn eu blaenau bolisiau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer datblygiad economaidd y Gymru wledig yn ei chyfanrwydd,'* heb unrhyw amodiad ynghylch mesur a monitro gweithgareddau o'r fath. Ni roddwyd unrhyw amodiad ar Fwrdd Croeso Cymru nac ar ELWa ynghylch materion gwledig. Nid yw effaith unrhyw ofynion wedi cael eu teimlo eto.

Polisiau Gwledig

- 3.33 Nid yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cynhyrchu ei ddatganiad eglur ei hun am weledigaeth, bwriad a diben ar gyfer y dyfodol y Gymru wledig fel y gwnaeth ar gyfer dyfodol Cymru yn gyffredinol. *Cefn Gwlad sy'n Gweithio i Gymru*, sef Papur Gwyn 1996 llywodraeth y DU yw'r datganiad cynhwysfawr diweddaraf o bolisi'r llywodraeth ar gyfer y Gymru wledig. Y Papur Gwyn Gwledig, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Phapurau Gwyn tebyg i Loegr ac i'r Alban, oedd yr ymgais gyntaf i lunio gweledigaeth ar gyfer dyfodol y Gymru wledig a oedd yn integreiddio datblygiad cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol.

- 3.34 Mae pum dogfen a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn canolbwyntio ar flaenoriaethau presennol ar gyfer y Gymru wledig. Y rhain yw *Cynllun Datblygu Cymru Wledig 2000-2006*, a gyhoeddwyd yn 2000; *Ffermio i'r Dyfodol: Cyfeiriad newydd i ffermio yng Nghymru*, a gyhoeddwyd yn 2001; a'r *Cynllun Adfer Cefn Gwlad*, a gyhoeddwyd yn dilyn Clwy'r Traed a'r Genau yn 2001.
- 3.35 Bwriad *Cynllun Datblygu Cymru Wledig 2000-2006*, a gyhoeddwyd yn 2000 yw gwasanaethu fel mecanwaith allweddol ar gyfer datblygu gwledig yng Nghymru. Ymateb yw i Reoliad Datblygu Gwledig 1999 yr UE, â'i nod o gynnig ymagwedd fwy integredig a chynaliadwy tuag at reoli ardaloedd gwledig Ewrop ac sy'n ceisio integreiddio, hyd y bo'n ymarferol, yr amrywiol Raglenni i Gymru sy'n gweithredu o dan Gronfeydd Strwythurol yr UE. Mae'r CDG yn nodi tair blaenoriaeth ar gyfer y Gymru wledig:
- Creu sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth cryfach
 - Gwella natur gystadleuol economi cymunedau ac ardaloedd gwledig
 - Cynnal a diogelu'r amgylchedd a'r dreftadaeth
- 3.36 Mae *Ffermio i'r Dyfodol*, a gyhoeddwyd yn Nhachwedd 2001, yn weledigaeth o ddyfodol ffermio yng Nghymru. Cafodd ei chynllunio i wasanaethu fel fframwaith sy'n hwyluso ac sy'n cefnogi newid amaethyddol, gan gynnig athroniaeth ar gyfer ffermio sy'n seiliedig ar ddatblygu cynaliadwy, sef thema drawstoriadol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Amcan cyffredinol yr adroddiad hwn yw sicrhau sylfaen ar gyfer ffermio teuluol yng Nghymru sy'n hyfyw yn economaidd, sy'n cynnal yr amgylchedd ac sy'n cynnig cydlyniant cymdeithasol gwell mewn cymunedau gwledig. Mae Ffermio i'r Dyfodol yn hybu symudiad at ychwanegu gwerth, ansawdd, brandio a phrosesu lleol, a chydabod nad yw'r Gymru wledig, ac mae fydd y Gymru wledig, yn gystadleuol mewn marchnad bwyd-amaeth gonfensiynol sy'n seiliedig ar nwyddau. Cyflwynir dros 50 o bwyntiau gweithredu sy'n amlinellu strategaethau penodol ac sy'n nodi'r mudiadau priodol i gyflawni'r weledigaeth hon.
- 3.37 Y *Cynllun Adfer Cefn Gwlad* oedd ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Glwy'r Traed a'r Genau yng Nghymru. Cafodd ei gynhyrchu gan weithgor â hyd oes fer, a sefydlwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Phartneriaeth Wledig Cymru i asesu effaith economaidd y clwy ac i argymhell mesurau ar adferiad economaidd yn dilyn terfyn y clwy. Mae'r Cynllun yn cyflwyno nifer o fesurau i'w gweithredu ar unwaith i helpu busnesau mewn ardaloedd gwledig, ac mae'n awgrymu cynigion tymor canolig i helpu cymunedau gwledig a busnesau gwledig, gan ganolbwyntio ar ffermio a'r diwydiant twristiaeth. Mae hefyd yn amlinellu mesurau i leddfu straen ymysg trigolion cefn gwlad.

Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad

- 3.38 Y WDA sydd â chyfrifoldeb craidd am ddatblygiad economaidd ardaloedd gwledig yng Nghymru. Nid yw'n ys tyried fodd bynnag, bod angen – na'i fod yn ddymunol o reidrwydd – i'r WDA wahaniaethu'n anhyblyg ddimensiwn 'gwledig' mewn cyferbyniad â dimensiwn 'trefol' yn eu gweithgareddau craidd. Mewn adroddiad a luniwyd yn 2001 gan y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig fel ag yr oedd, *Arallgyfeirio'r Economi Wledig*, nodwyd bod y WDA 'yn dadlau nad oes ganddo strategaeth wledig benodol gan fod anghenion ardaloedd gwledig yn cael eu gweu i'w bolisiau economaidd mwy cyffredinol' (heb rif tudalen).
- 3.39 Mewn cyfweiliad a gynhaliwyd mewn perthynas â'r adroddiad hwn, dywedodd y prif weithredwr a'r pennaeth polisi gwledig, tra'u bod yn cydnabod bod gan ardaloedd gwledig anghenion a chyfleoedd gwahanol o bosibl, nid oeddent yn argyhoeddedig bod y rhain yn ddigon unffurf ledled y Gymru wledig, nac yn ddigon gwahanol i lawer o anghenion a chyfleoedd rhannau o'r Gymru drefol, i deilyngu datblygu polisiau a rhaglenni â chanolbwynt gwledig yn unig.

Yr hyn sydd wir yn fy mhoeni i yw gwneud y gwahaniaeth diamod hwn rhwng y gwledig a'r trefol pan ddaw at bolisi a chyllid...Mae'n rhaid i ni gael hyblyg, wyddoch chi, hyblygrwydd, i allu ymateb i amgylchiadau arbennig. ...Mae'r Awdurdod [WDA] yn sefydliad i Gymru gyfan sy'n frwd dros gyflwyno'n lleol. (Gareth Hall, Prif Weithredwr, y WDA)

Yn gyffredinol, mae'r holl wasanaethau a chynhyrchion sydd gan yr Awdurdod [y WDA] i'w cynnig yn cael eu gwneud ar sail Cymru gyfan. Nid ydym yn gwahaniaethu rhwng y trefol a'r gwledig. Felly, maent ar gael ledled Cymru. Yr hyn sy'n pennu cymysgedd y cynhyrchion hynny, os hoffech, yw anghenion a chyfleoedd lleol. (Ann Watkin, Pennaeth Polisi Gwledig, y WDA)

- 3.40 Bu'n anodd llunio unrhyw fath o lun cynhwysfawr ynghylch polisi gwledig ymysg CCNCau eraill gan mai saith yn unig o'r tri ar ddeg y cysylltwyd â hwy mewn perthynas â'r adroddiad hwn, a ymatebodd i'r arolwg. (Am restr lawn o'r CCNCau y gysylltwyd â hwy, gweler Atodiad 2.) Mae'n amlwg fodd bynnag, o'r ymatebion a dderbyniwyd, ac o wybodaeth arall sydd ar gael yn gyhoeddus - fel cynlluniau corfforaethol a chynlluniau busnes - mai cyfyngedig ac amrywiol iawn ar draws y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw'r gydnabyddiaeth o ddimensiwn gwledig penodol i ddatblygiad a chyflwyno polisiau a rhaglenni, pa un ai bod hynny yn golygu polisiau a rhaglenni penodol sy'n targedu ardaloedd gwledig neu brawfesur o'r safbwynt gwledig, bolisiau a rhaglenni prif ffrwd. Mae hyn yn adleisio darganfyddiadau cynt *Arallgyfeirio'r Economi Wledig*, a fynegodd bryder fod rhai o 'brif chwaraewyr' datblygu economaidd gwledig 'heb ffocws gwledig penodol' (heb rif tudalen).

- 3.41 Mae tri CCNC yn nodi ‘materion gwledig’ penodol neu heriau penodol sy’n wynebu ardaloedd gwledig. Mae’r Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant i Gymru (ELWa) yn ystyried bod y cyd-destun gwledig yn cyflwyno her bendant i gyflwyno cyfleoedd dysgu, o ran bod gan ardaloedd gwledig ‘*cymharol ychydig ddysgwyr [h.y. dwysedd poblogaeth isel] (gan gyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer darbodion maint), ac ychydig o ddarparwyr (sydd o bosibl yn cyfyngu ar gyfleoedd cwmpas), yn erbyn cefndir ariannol o adnoddau prin.*’
- 3.42 Yn ddiweddar, mae Bwrdd Croeso Cymru wedi pwysleisio’r heriau a’r cyfleoedd penodol ar gyfer y diwydiant twristiaeth yng Nghymru wledig. Ym mis Gorffennaf 2004, lluniodd y Bwrdd Croeso adroddiad, y *Profiad Cefn Gwlad*, sy’n cynnwys darganfyddiadau Gweithgor ar Dwristiaeth Cefn Gwlad. Roedd y gweithgor yn cynnwys ystod o arbenigwyr o’r sector cyhoeddus a phreifat, ac ychwanegwyd at yr ymchwil hwn gan gyfres o grwpiau ffocws. Bwriad yr adroddiad hwn yn cyfarwyddo’r rheiny sydd â chylch gwaith ar gyfer diddordeb yn natblygiad a hyrwyddo’r Gymru wledig.
- 3.43 Mae CCW yn ystyried bod ‘newid’ yn her benodol sy’n wynebu’r Gymru wledig yn hytrach na’r Gymru drefol, er na fanylodd ar ba fath o newid a pham yr oedd hwn yn gosod her.
- 3.44 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn pwysleisio bod yr iaith Gymraeg yn rhan annatod o gynladwyedd cymunedau gwledig. Mae’n gofalu fodd bynnag nad yw’n gorbwysleisio pwysigrwydd ardaloedd gwledig i’r iaith Gymraeg; yn hytrach, ceisia hyrwyddo’r iaith ledled Cymru. Nid yw’n gwahaniaethu rhwng yr heriau allweddol sy’n wynebu ardaloedd gwledig yng Nghymru mewn cyferbyniad â’r rheiny sy’n effeithio ar ardaloedd trefol neu ar Gymru gyfan. Yn hytrach, mae’n ystyried bod: ‘*blaenoriaethau... yn amrywio yn ôl amgylchiadau cyd-destun ac ardal, boed yn drefol neu’n wledig*’. Felly, mae’n targedu ardaloedd yn ôl eu cyd-destun a’u hamgylchiadau, ni waeth beth fo’u dosbarthiad trefol/gwledig.
- 3.45 Ar y cyfan, mae’n ymddangos bod CCNCau eraill yn ystyried bod ardaloedd gwledig Cymru ac ardaloedd trefol Cymru yn wynebu heriau tebyg – os ydynt yn ystyried y mater yn weithredol o gwbl. Mae’r Comisiwn Coedwigaeth yn ystyried bod yr heriau y mae’n eu hwynebu yn y Gymru drefol a gwledig yn ‘debyg’. Mae ELWa, sydd yn nodi heriau gwledig penodol, yn dal i ystyried bod ‘*Mwyafrif helaeth materion yr un fath mewn ardaloedd gwledig ag yn yr ardaloedd trefol*’. Lluniodd Cyngor Chwaraeon Cymru ddogfen drafod, sef *Chwaraeon a Chymru Wledig* (gan ddiweddarau dogfen gynharach o’r un teitl) ym mis Chwefror 2003, gan edrych ar faterion ynghylch chwaraeon a hamdden arall mewn ardaloedd gwledig ac ymagwedd y Cyngor Chwaraeon tuag atynt. Daeth i’r casgliad ‘*Yn gyffredinol, mae problemau chwaraeon a hamdden mewn ardaloedd gwledig yn debyg i’r rheiny sydd i’w canfod mewn trefi*’ (t.11). Ymddengys fod CCNCau eraill yn adleisio’r teimladau hyn mewn perthynas â’u

cylchoedd gwaith hwy, gan nad yw eu cynlluniau corfforaethol yn gwahaniaethu rhwng y Gymru wledig a threfol.

- 3.46 Adlewyrchir hyn yn y blaenoriaethau a osodir gan CCNCau. ELWA a Bwrdd Croeso Cymru yw'r unig ddau gorff i gynnig tystiolaeth am flaenoriaethau penodol ar gyfer y Gymru wledig. Mae ELWa o'r farn bod '*Sicrhau nad yw dysgwyr gwledig yn cael eu gosod dan anfantais sylweddol ac y cânt y cyfle i gael mynediad at brofiadau dysgu o safon (naill ai yn yr ardal (wledig) neu y tu hwnt iddi)*' yn flaenoriaeth bendant ar gyfer ardaloedd gwledig. Mae adroddiad y Bwrdd Croeso ar *Y Profiad Cefn Gwlad* yn nodi pum prif faes gwaith a fydd yn '*chwarae rhan hanfodol wrth wireddu'r weledigaeth i wneud Cymru yn gyrchfan o ddewis i ymwelwyr sy'n chwilio am brofiad cefn gwlad amrywiol ac o safon*'; nodir pedair thema drawstoriadol hefyd.
- 3.47 Ymddengys fod CCNCau eraill yn ystyried nad oes angen am bolisiau penodol ar gyfer ardaloedd gwledig. Mae gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, er enghraifft, bedair prif flaenoriaeth i Gymru, ac ymddengys bod pob un ohonynt yn berthnasol i ardaloedd gwledig a threfol. Mae Cyngor Chwaraeon Cymru o'r farn bod ganddo flaenoriaethau strategol cyffredinol sy'n ddigonol i ymdrin ag anghenion pob ardal yng Nghymru, yn wledig ac yn drefol yn *Chwaraeon a Chymru Wledig*, galwodd ar Lywodraeth y Cynulliad ac ar awdurdodau lleol i gyflawni'r gwelliannau yn isadeiledd cludiant, mewn cynhwysiant cymdeithasol ac mewn cyfleoedd cyflogaeth yr oedd yn eu hystyried yn bwysig er mwyn cael mwy o gymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd gwledig – ynghyd â mewn ardaloedd trefol (t.11). Nid yw dogfennau gan CCNCau eraill yn gwahaniaethu rhwng blaenoriaethau 'trefol' a 'gwledig'.
- 3.48 Y WDA yw'r unig CCNC gydag adran sydd â chylch gwaith craidd ar gyfer materion neu ardaloedd gwledig. Mae gan ELWa un aelod o staff sydd â '*chyfrifoldeb uniongyrchol*' am ystyried ardaloedd gwledig Cymru '*o bersbectif polisi*', er nad oes ganddo adran wledig.
- 3.49 Mae staff mwyafrif y CCNCau yn gweithio ar sail genedlaethol. Mae amryw yn nodi bod ganddynt staff rhanbarthol sy'n ymwneud yn bennaf ag ardaloedd gwledig. Maent yn pwysleisio fodd bynnag, nad yw hyn yn gyfystyr â bod gan y staff hynny ffocws sy'n bennaf wledig.

Nid oes gan unrhyw staff gyfrifoldeb craidd am faterion gwledig, ond mae tua 8 o staff yn ein hadran datblygu gwasanaethau lleol ag ychydig gyfrifoldeb am ardaloedd gwledig. (Cyngor Chwaraeon Cymru)

Mae ardaloedd fel Canolbarth Cymru yn wledig gan mwyaf. Felly, mae swyddogion yn y rhanbarth yn gweithio mewn cyd-destun gwledig yn bennaf; fodd bynnag, ni fyddai'n gywir i ni hawlio'u bod yn gweithio ar 'faterion gwledig'. (ELWa)

- 3.50 Mae diffyg canolbwynt gwledig ar lefel strategol yn tueddu i droi'n ddiffyg canolbwynt ar lefel gweithredol. Tra bod CCNCau yn ariannu nifer o fentrau sy'n effeithio ar ardaloedd gwledig, yn gyffredinol nid yw'r rhain yn canolbwyntio'n benodol ar 'faterion' gwledig penodol nac ar ardaloedd gwledig yn unig. Mae nifer yn awgrymu bod eu rhaglenni prif ffrwd yn ymdrin â materion ac ardaloedd gwledig yn ddiodyn.

Nid yw nifer o'n brosiectau yn cael eu targedi'n benodol at ardaloedd gwledig ond maent beth bynnag yn ymwneud â materion gwledig cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. (Comisiwn Coedwigaeth Cymru)

Mae ELWa yn ariannu nifer o brosiectau a gweithgareddau sy'n effeithio ar ardaloedd gwledig, fodd bynnag nid yw'n rhain yn canolbwyntio'n benodol ar ymdrin â materion gwledigrwydd ynddynt eu hunain. (ELWa)

Mae ein holl raglenni a mentrau gweithredu yr un mor berthnasol i ardaloedd trefol a gwledig. (Cyngor Chwaraeon Cymru)

- 3.51 Mae Bwrdd Croeso Cymru yn gweinyddu nifer o raglenni sydd wedi'u targedu'n benodol at ardaloedd gwledig. Mae'r rhain yn cynnwys Cynllun Arallgyfeirio Twristiaeth Fferm, sy'n cael ei redeg ar y cyd â Chyswllt Ffermio, a chynllun marchnata Gwyliau Fferm. Yn ystod 2003-4, ymgwymerodd y Bwrdd Croeso, gyda chymorth adnoddau ychwanegol a ddarparwyd gan LICC, ag ystod o weithgareddau a'u nod oedd ysgogi 'adfer' twristiaeth mewn ardaloedd gwledig yn dilyn diwedd Clwy'r Traed a'r Genau yng Nghymru. Ymysg y mentrau allweddol oedd y cynllun Adfywio, a redwyd ar y cyd â CCW ond sydd bellach wedi dod i ben. Gorffennodd roi arian i fenter Gwyliau Cefn Gwlad Cymru, dan arweiniad grŵp SPARC/PLANED Leader+ 'oherwydd allbynnau isel'.

- 3.52 Mae ELWa hefyd yn ariannu mentrau y mae'n ystyried eu bod 'yn effeithio'n bennaf ar ardaloedd gwledig' - er bod y mentrau hyn yn sectoraidd yn hytrach nag yn ofodol, yn enwedig "gweithgareddau hyfforddi yn Sector ar y Tir drwy brosiectau a gynigir gan y Cyngor Sgiliau Sector (Lantra)". Mae'r Mekanwaith Cyllido Cylchol yn cynnig cefnogaeth benodol ar gyfer addysg bellach yng Nghymru trwy wneud taliadau ychwanegol i roi sefydliadau AB yn y Gymru wledig er mwyn helpu i ddiogolledu costau sy'n perthyn i weithredu mewn ardaloedd prin eu poblogaeth.

- 3.53 Ymddengys nad oes gan CCNCau fecanweithiau mewnol yn eu lle i sicrhau bod eu rhaglenni 'prif ffrwd' yn cydnabod unrhyw anghenion penodol ardaloedd gwledig. Efallai nad yw'n rhyfeddol bod y dystiolaeth gryfaf o ganolbwynt gwledig pendant o ran polisiau a rhaglenni yn dod oddi wrth ELWa, o gofio iddo nodi heriau gwledig pendant.

Mae dimensiwn gwledig i'r mwyafrif helaeth o holl weithgareddau ELWa, hyd yn oed os nad yw'n cael ei labeli felly yn benodol. Mae strwythur rhanbarthol ELWa yn ymgorffori materion gwledigrwydd.

Er nad oes gan ELWa ddatganiad polisi gwledig fel y cyfryw, mae'n nodi bod 'ELWa yn ymrwymo i sicrhau bod anghenion dysgwyr mewn ardaloedd gwledig yn cael eu deall a'u hadlewyrchu yn yr ystod o ddarpariaeth a rhaglenni sy'n cael eu hariannu gan y sefydliad'⁹

- 3.54 Nid yw CCNCau eraill yn dangos unrhyw ymrwymiad gweithredol i sicrhau bod anghenion ardaloedd gwledig yn cael eu cydnabod a'u bodloni yn systemataidd.
- 3.55 Yn ei adroddiad ar *Arallgyfeirio'r Economi Wledig* yn 2001, mynegodd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig bryder bod rhai o 'brif chwaraewyr datblygu economaidd...heb ffocws gwledig penodol' (heb rif tudalen). Mae'r diffyg ffocws gwledig hwn wedi parhau, ac mae hefyd yn wir am y CCNCau sy'n gyfrifol am ddatblygu ehangach, fel adfywio cymunedau. Mae gan fwyafrif y mentrau cenedlaethol brinder cydrannau 'gwledig' clir a/neu nid ydynt yn cael eu 'prawfesur yn wledig', ac mae ganddynt ddiffyg nodau clir, y gellir eu mesur, ar gyfer ardaloedd gwledig. Nid oes mecanweithiau yn eu lle ar gyfer mesur cynnydd naill ai fesurau datblygu gwledig penodol neu effaith mentrau cenedlaethol ar y Gymru wledig.
- 3.56 Nid bwriad yr adroddiad hwn yw awgrymu bod y diffyg ffocws gwledig clir o reidrwydd yn dystiolaeth bod ymdriniaeth ag anghenion ardaloedd gwledig yn annigonol, neu na chânt eu cydnabod yn ddigonol. Yn achos y Cyngor Chwaraeon er enghraifft, seiliwyd y casgliad hwn ar sylfaen dystiolaeth benodol: gosododd *Chwaraeon a Chymru Wledig* bolisiau chwaraeon yng nghyd-destun allfudo pobl ifanc, cyflogau sy'n is na'r cyfartaledd, mewnfudo grwpiau sydd â statws cymdeithasol uchel; cymharodd hefyd raddau perthynol cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon mewn ardaloedd gwledig a threfol. Mae'r WDA yn dadlau bod ei ffocws ar gyflwyno rhaglenni cenedlaethol yn *lleol* yn hytrach nag ar wahaniaethu gwledig/trefol ehangach. Mewn achosion eraill fodd bynnag, nid yw'n glir ar ba dystiolaeth y seilir casgliadau o'r fath.

Rôl awdurdodau lleol

- 3.57 Mae awdurdodau lleol yn amrywio'n sylweddol ar sut ac i ba raddau y maent yn cydnabod y dimensiwn gwledig yn eu gweithgareddau. Mae mwyafrif yr awdurdodau unedol yn nodi'r heriau penodol sy'n wynebu ardaloedd gwledig. Gan amlaf mae'r rhain yn perthyn i broffiliau cymdeithasol-ddemograffig newidiol ac ailstrwythuro economaidd ardaloedd gwledig. Mae mynediad at

⁹ Yn 2001, roedd yr adroddiad *Arallgyfeirio'r Economi Wledig* yn nodi bod: ELWa wedi cynnwys elfen o ganolbwynt gwledig bob amser...ac nid yw'n bwriadu datblygu ymagwedd polisi clir at faterion gwledig. Mae ELWa hefyd wedi cytuno gyda'r WDA ar ddatblygu ymagwedd gydlynedig at faterion gwledig, gan gydnabod y tir cyffredin a natur integredig anghenion gwledig (heb rif tudalen).

wasanaethau, amddifadedd a chydlynid cymdeithasol hefyd yn cael eu nodi fel materion sydd â goblygiadau neilltuol ar y gymdeithas, yr economi, y diwylliant a'r amgylchedd gwledig. Mae amrywiaeth sylweddol, fodd bynnag, ym mha mor systematig a chynhwysfawr yr ymdrinnir â'r heriau hyn.

- 3.58 Nid yw dau o'r awdurdodau unedol a dau allan o dri o awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn gwahaniaethu rhwng gweithgareddau gwledig a threfol ar y sail nad ydynt yn gweinyddu ardaloedd trefol. Yn wir, mae'r awdurdodau hyn o'r farn bod eu holl weithgareddau wedi'u targedu at ardaloedd a materion gwledig, pa un a'u bod yn nodi ardaloedd a materion yn 'wledig' yn benodol, ai peidio.

Rydym yn awdurdod gwledig felly mae holl waith yr awdurdod yn effeithio ar faterion gwledig. (Ceredigion)

Nid oes ardaloedd trefol (yn ôl y diffiniad confensiynol) o fewn PCE...[er] bod dau anheddiad, y Bala a Dolgellau, yn cael eu diffinio'n 'Ganolfannau Lleol' gan yr Awdurdod. (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)

- 3.59 Mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol arall yn cymryd safiad tebyg. Er ei fod yn cydnabod ardaloedd trefol o fewn ei gylch gwaith, nid yw'n ystyried bod unrhyw wahaniaethau gwledig/trefol yn effeithiol ar ei weithgareddau.
Ystyrir bod cymunedau Dinbych y Pysgod, Saundersfoot, Ty Ddewi a Threfdraeth yn ardaloedd trefol yn gyffredinol, ond yn ymarferol, ni wneir gwahaniaeth cyffredinol yn ein hardal ni rhwng ardaloedd gwledig a threfol. (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro)
- 3.60 Mae pob un o'r lleill – gan gynnwys awdurdodau sy'n bennaf wledig a rhai sy'n bennaf drefol – yn gwneud gwahaniaeth clir rhwng yr ardaloedd gwledig a threfol yn eu tiriogaethau. Adlewyrchir hyn yn nyraniad yr adnoddau ar gyfer ardaloedd a gweithgareddau gwledig. (Gweler Blwch 3.2 am astudiaethau achos)
- 3.61 Mae gan y mwyafrif o AauU is-adrannau, timau neu unigolion sydd â chyfrifoldeb am ddimensiynau gwledig polisïau a rhaglenni.
- 3.62 Dim ond pedwar awdurdod unedol a ddarparodd ddata ynghykh a oeddynt yn rhannu cyllidebau rhwng ardaloedd gwledig a threfol neu faterion gwledig, neu beidio. Roedd Wrecsam – awdurdod sy'n bennaf drefol – yn dyrannu 15% o'i gyllideb datblygu economaidd i ardaloedd neu faterion gwledig ym mlwyddyn ariannol 2003-4 ac roedd yn cynyddu'r dyraniad hwn i 25% yn 2004-5. Dyrannodd Sir Fynwy – sir sy'n bennaf wledig – 30% o'i chyllideb i ardaloedd neu faterion gwledig yn 2003-4 ac yn yr un modd roedd yn cynyddu'r dyraniad hwn i 45% yn 2004-5. Roedd Ceredigion a Phowys – awdurdodau sy'n bennaf wledig – yn ystyried bod eu cyllideb gyfan yn cael ei dyrannu i ardaloedd gwledig yn 2003-4 ac yn 2004-5.

Blwch 3.2 Cyfrifoldeb am y dimensiwn gwledig mewn awdurdodau unedol

- Mae gan Ynys Môn Is-adran Datblygu Gwledig a Thwristiaeth o fewn ei Hadran Datblygu Economaidd, sy'n cynnwys tîm trosolwg strategol a chyflwyno rhaglen Grwp Gweithredu Lleol Leader+ Gogledd Gororau Cymru. Dosberthir cyfrifoldeb am faterion gwledig eraill ar hyd amrywiol adrannau'r AU, "er bod llawer o'r cyfrifoldebau...e.e. Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, wardeniaid cefn gwlad, bioamrwyiaeth, yn dod o dan gyfrifoldeb y cyfarwyddwr cynllunio a gwasanaethau amgylcheddol".
- Mae gan Sir y Fflint Swyddog Datblygu Gwledig o fewn is-adran Datblygu Economaidd a Thwristiaeth y cyngor, sydd â chyfrifoldeb craidd am faterion gwledig y sir gan gynnwys cynghori busnesau gwledig ar natur y gefnogaeth a chymorth busnes sydd ar gael, annog mentrau twristiaeth gwledig a helpu i weinyddu rhaglenni gwledig amrywiol yr UE, LICC a'r WDA sy'n effeithio ar ardaloedd gwledig Sir y Fflint. Yn ychwanegol, mae gan 'nifer' o swyddogion y cyngor gyfrifoldebau sy'n 'ymdrin ag ardaloedd gwledig a materion gwledig'. Mae gan Wrecsam is-adran Twristiaeth a Datblygu Gwledig yn ei Adran Datblygu Economaidd, sy'n cynnwys tîm cyflwyno rhaglen ar gyfer Grwp Gweithredu Lleol Leader+ Gogledd Gororau Cymru. Ar hyn o bryd mae un o dri thîm Adran Datblygu Economaidd Sir Gaerfyrddin wedi'i ymroi'n llwyr i ardal 'bennaf wledig' Taf Myrddin Teifi. Mae un o'r tri thîm yn ei Adran Datblygu Cymunedol yn gweithio gydag ardal 'bennaf wledig' Taf Myrddin, Teifi a Thywi.
- Ar hyn o bryd mae un o dri thîm Adran Datblygu Economaidd Sir Gaerfyrddin wedi'i ymroi'n llwyr i ardal 'bennaf wledig' Taf Myrddin Teifi. Mae un o'r tri thîm yn ei Adran Datblygu Cymunedol yn gweithio gydag ardal 'bennaf wledig' Taf Myrddin, Teifi a Thywi.
- Mae gan Sir Fynwy Swyddog Prosiect Gwledig llawn amser a Swyddog Adfywio rhan amser sydd â chyfrifoldeb am gynorthwyo adfywio cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig. Mae ganddo hefyd 'Swyddog Ffilmiau Symudol' â chyfrifoldeb am ei raglen Ffilmiau Symudol sy'n dod a ffilmiau sinema i gymunedau gwledig yn y sir.
- Mae gan Sir Ddinbych swyddog datblygu gwledig ynghyd â dau swyddog sydd â chyfrifoldeb am weinyddu Menter Trefi a Phentrefi Bach y WDA yn Wrecsam a swyddog sydd â chyfrifoldeb am gydlynu Grwp Gweithredu Lleol LEADER+.
- Mae gan Gonwy 'Dîm Cefn Gwlad' sy'n rhan o'i adran gynllunio, gan gynnwys tri warden symudol, gyda chyfrifoldeb craidd am ddiogelu a gwella amgylchedd naturiol Conwy.

Blwch 3.3 Strategaethau datblygu gwledig awdurdodau unedol

- Cynhyrchoedd Wrecsam Strategaeth Datblygu Gwledig ym mis Chwefror 2000, ‘*a gynlluniwyd i ymdrin ag anghenion y 12 ward yn ardal wledig y Bwrdeistref Sirol dros gyfnod 2000-2005*’ (paragraff 1.2). Bwriedir bod y strategaeth i fod yn ‘**ymateb integredig** i faterion economaidd, amgylcheddol a chymunedol sy’n wynebu ardal Wrecsam Wledig’ (paragraff 1.1). Nodir ‘*Rhaid i’r Strategaeth Wledig ategu – ac atgyfnerthu lle bo’n briodol – nodau ac amcanion **polisiau** eraill sy’n dylanwadu ar yr amgylchiadau economaidd-gymdeithasol yn ardal wledig Wrecsam*’ (paragraff 1.5).
- Cynhyrchoedd Sir Gaerfyrddin raglen adfywio gwledig bum mlynedd yn 2003, a luniwyd gan Gyngor Sir Gaerfyrddin gyda chefnogaeth Awdurdod Datblygu Cymru. Bwriad y cynllun yw ysgogi’r economi lleol; adfywio trefi a phentrefi; creu swyddi newydd; gwneud y mwyaf o gyfleoedd datblygu economaidd; helpu busnesau sy’n bodoli eisoes i dyfu ac annog cychwyn busnesau. Mae’n tynnu ar gyllid gan Amcan 1, Cyngor Sir Gaerfyrddin, y WDA, Cronfa Adfywio Lleol LICC, Y Bwrdd Croeso, Cronfa Dreftadaeth y Loteri a’r sector preifat.

- 3.63 Er i *Polisi Cynllunio Cymru 2002* a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (y WLGA) argymhell bod awdurdodau unedol yn paratoi strategaethau datblygu gwledig, dim ond dau awdurdod unedol sydd wedi gwneud hynny (gweler Blwch 3.3 uchod).
- 3.64 Mae pob un o’r awdurdodau unedol a gyfrannodd at yr arolwg ynghlwm wrth weinyddu cyflwyno rhaglenni gwledig Ewropeaidd, LICC a’r WDA mewn ardaloedd cymwys.

Cydnabod y dimensiwn gwledig: beth yw’r ‘Gymru wledig’?

- 3.65 Mae cydnabod y dimensiwn gwledig yn cael ei gymhlethu gan y ffaith **nad oes diffiniad a gytunir yn gyffredinol o Gymru wledig (Is-adran Ystadegau Llywodraeth Cynulliad Cymru)** er bod *polisiau* a *rhaglenni* gwledig penodol yn bodoli. Ar lefelau’r UE, y DU a Chymru, gwneir amrywiol ddefnydd o strwythur a dwysedd y boblogaeth, newidynnau incwm a chyflogaeth, dangosyddion economaidd gymdeithasol eraill a materion amgylcheddol a thiriogaethol, yn unol â phwrpas diffinio ‘gwledig’. Ni chydnabyddir un mynegai fel mesur safonol.
- 3.66 Ym 1997 cyhoeddodd y Swyddfa Gymreig bapur ymgynghori ar ddiffiniad ardaloedd gwledig yng Nghymru. Roedd hwn yn cynnig y byddai cymunedau â phoblogaeth o lai na 3,000 ac nad oeddynt yn cynnwys gorlif o drefi mwy yn cael eu diffinio yn ‘gwbl wledig’, a chymunedau eraill yn cael eu diffinio naill ai yn ‘gwbl anwledig’ neu’n ‘rhannol wledig’. Ym 1999 cafodd y diffiniad hwn ei ddiwygio ar sail bod y mesurau hyn yn rhy fras. Cafodd ei ddisodli gan ddiffiniad llawer mwy gwrthrychol o Gymru wledig sy’n sytyried bod Cymru gyfan yn

wledig, heblaw am restr fychan o gymunedau mewn trefi a dinasoedd â phoblogaeth o dros 10,000.

- 3.67 Mae'r diffiniad o Gymru wledig a ddefnyddir – neu ycyfeirir ato, o leiaf – yn fwyaf aml, yn seiliedig ar ddwysedd y boblogaeth ac fe'i trefnir o amgylch ffiniau'r awdurdodau unedol. Caiff ardaloedd sydd â dwysedd poblogaeth o lai na 150 o drigolion y cilometr sgwâr (diffiniad a bennwyd gan yr OECD) eu dosbarthu'n wledig. Derbynnir bod y naw awdurdod unedol yng Nghymru sy'n dod o fewn y categori hwn yn cynrychioli'r Gymru wledig. Dyma'r diffiniad a ddefnyddir gan Gyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- 3.68 Yn ychwanegol, mae nifer o wardiau o fewn tri awdurdod unedol sydd fel arall yn rhai 'trefol' wedi cael eu galw'n 'wledig' ar sail dwysedd poblogaeth isel mewn ardal sydd fel arall â dwysedd poblogaeth uchel. Cyfeirir at hyn yn aml fel diffiniad '9+3' y Gymru wledig.
- 3.69 Yn ymarferol fodd bynnag, mae'r 'Gymru wledig' y cyfeirir ati yn nogfennau polisi a rhaglen yn llawer mwy cyfnewidol ac amwys. Mae'r Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol ddiweddaraf a Chynllun Strategol Cymru, *Cymru'n Ennill a Chymru: Gwlad Well* yn nodi bod y 'Gymru wledig' yn wynebu heriau penodol a bod angen sylw arbennig arni o'i chymharu â 'Chymru', ond nid ydynt yn ei diffinio. Nid yw *Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2000-2006* yn diffinio Cymru wledig yn glir, heblaw am ei disgrifio fel yr ardaloedd hynny o Gymru nad ydynt yn 'drefol' er nad yw'n diffinio 'trefol'. *'Mae Cymru yn wlad sy'n bennaf wledig. Bwriedir felly i'r cynllun fod yn gymwys ar gyfer Cymru gyfan, ac eithrio'r rhannau hynny sy'n amlwg yn drefol ac yn ddatblygedig'* (t.13). Mae'n mynd ymlaen i bwysleisio bod Cymru wledig nid yn unig yn cynnwys y naw sir sy'n bennaf wledig ar sail dwysedd poblogaeth, ond hefyd ardaloedd lle bo gweithgareddau 'gwledig' yn digwydd. *'Mae pob ardal weinyddol yng Nghymru yn cynnwys rhai rhannau sy'n dangos nodweddion a phroblemau gwledig, a lle ymgymerir â gweithgareddau gwledig'* (t.13). Mae'r un ymadrodd yn ymddangos yn Nogfen Raglennu Sengl LEADER+ i Gymru. Nid yw'r naill ddogfen fodd bynnag yn manylu ar yr hyn maent yn eu diffinio'n weithgareddau 'gwledig'.
- 3.70 Â'r CDG ymlaen i bwysleisio anhawster gwneud gwahaniaeth clir rhwng y Gymru wledig a threfol o ran ffiniau gweinyddol sydd eisoes yn bodoli. Mae'n dadlau:

Mae'n bwysig cydnabod, er bod cysyniad 'y Gymru wledig' yn hawdd i'w adnabod, ac yn wir yn atgofus...nad oes ffin bendant sy'n rhannu ardaloedd trefol a gwledig Cymru...caiff y ffiniau eu cymylu gan gymudo a phatrymau siopa a chan ddewisiadau hamdden ac adloniant... nid yw'r Gymru wledig yn ardal economaidd ganfyddadwy eglur. (t.13)

- 3.71 Mae'r cymylu hyn yn pwysleisio'r nodweddion, yr anghenion a'r blaenoriaethau a rennir gan ardaloedd gwledig a threfol.

Mae'r problemau sy'n gysylltiedig â chyfraddau diweithdra uchel a lefelau CMC isel, er enghraifft, yn gyffredin i gymunedau trefol a gwledig a gellir cymhwysu nod y Cynulliad am economi well a chryfach, yn llawn i'r ddwy ardal. (DRS Amcan 2, t.4)

- 3.72 Ar yr un pryd ceir pwyslais ar y rhyng-gysylltiadau a'r gyd-ddibyniaeth gynyddol rhwng y Gymru wledig a threfol: '*Ceir cyd-ddibyniaeth naturiol a chynyddol rhwng cefn gwlad a'r dref*' (RDP, t.13; DRS Leader+, t.19).

- 3.73 Mae natur 'oddrychol' diffiniadau 'gwledig' yn destun trafodaeth gan academyddion, gwneuthurwyr polisi ac ymarferwyr. Yn gynyddol honnir **na ellir llunio diffiniad terfynol 'gwrthrychol' o wledig** oherwydd nodweddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol amrywiol yr ardaloedd gwahanol sydd mewn enw, yn cael eu dosbarthu fel rhai 'gwledig' yng Nghymru, yn y DU ehangach ac yn Ewrop.¹⁰ Tra bod CCW er enghraifft wedi mabwysiadu teipoleg Ymgynghorwyr Defnydd Tir sy'n nodi categorïau 'lled drefol', gwledig 'hygyrch' a 'gwledig anghysbell', mae'n ystyried bod '*Y gwahaniaeth trefol/ gwledig yn erydu yng Nghymru fel mewn mannau eraill*'.

- 3.74 Mae rhai sylwebyddion wedi defnyddio'r honiad hwn fel sail i ddadlau bod ceisio diffinio a thargeddi 'ardaloedd gwledig' sy'n wahanol i 'ardaloedd nad ydynt yn wledig' nid yn unig yn anymarferol ond yn nid ydynt yn ddefnyddiol ychwaith, ac y dylid defnyddio diffiniadau ardal eraill. Mae'r WDA wedi mabwysiadu'r ffordd hon o feddwl, gan ddadlau nad yw ceisio llunio gwahaniaethau anhyblyg – ac artiffisial yn eu tyb hwy – rhwng materion gwledig a threfol yn helpu o ran datblygu polisiâu ac sy'n mynd i'r afael ag anghenion y Gymru wledig, o gofio nodweddion amrywiol yr ardaloedd gwahanol sy'n derbyn y label 'gwledig'.

Yr hyn sy'n fy mhryderu i yw gwneud y gwahaniaeth pendant hwn rhwng y gwledig a'r trefol pan ddaw i bolisi ac ariannu... mae gwahanol rannau o'r Gymru wledig yn wahanol iawn o ran eu hanghenion a'u cyfleoedd, felly mae creu cyfarwyddyd sy'n rhy ddwys yn hollol anghywir yn fy marn i... Ac rwy'n credu felly bod yn rhaid i ni symud i ffwrdd o'r ymrannu hwn rhwng y trefol a'r dinesig sydd weithiau'n artiffisial i ryw raddau. (Anne Watkin, Pennaeth Polisi Gwledig, y WDA)

- 3.75 Ar un pwynt mae Cynllun Datblygu Cymru Wledig hefyd yn ymddangos, efallai ychydig yn wrth-sythweledol, fel petai yn ffafrio ymagwedd debyg:

Mae'r angen i dynnu ar rychwant eang o ffynonellau data sy'n adlewyrchu sefyllfa bresennol yr economi wledig ac ansawdd bywyd y rheiny sy'n byw ac yn gweithio yng nghefn gwlad, mewn trefi marchnad neu mewn pentrefi gwledig, yn

¹⁰ DETR/MAFF (2000), *Our Countryside: The Future. A Fair Deal for Rural England*, Y Llyfrfa, Norwich

fwy pwysig na diffiniad sicr o Gymru wledig – na fyddai llwyddo i wneud hynny yn ymarferol nac yn ddymunol.

- 3.76 Yng nghyd-destun ehangach polisi gwledig Cymru a'r UE fodd bynnag, mae'n amlwg bod nifer o'r farn bod y gwahaniaeth gwledig-trefol – ni waeth pa mor anodd y mae i'w lunio, ac ni waeth pa mor aneglur ac amhenodolydyw – yn hanfodol i ddatblygu a gweithredu polisiâu a rhaglenni llwyddiannus yn effeithiol. Ar ôl pwysleisio amwysedd diffinio 'gwledig', ac yn dilyn gosod cafeatau ynghylch defnydd y term 'gwledig', mae'r RDP a Dogfennau Rhaglennu Sengl y cronfeydd strwythurol yn casglu bod y gwahaniaethu rhwng ardaloedd gwledig a threfol Cymru yn ddigonol i beri bod angen ymagweddau gwahanol tuag atynt.

Mae gwahaniaethau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol sylweddol rhwng ardaloedd gwledig a dinesig, ac o ganlyniad, anghenion a blaenoriaethau gwahanol. (CDG, t.13 a DRS LEADER+, t.19)

Mae'r strwythur economaidd, y ffordd o fyw yn gymdeithasol a diwylliannol sydd wrth fôn y Gymru wledig yn wahanol i ardaloedd trefol ac mae'r Cynulliad yn cydnabod bod rhaid i'w bolisiau a'i raglenni adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol gwahanol... (DRS Amcan 2, t.4)


Er eu bod yn gyd-ddibynnol mewn sawl ffordd, mae nifer o'r heriau sy'n wynebu cymunedau gwledig Cymru yn wahanol i'w cymheiriaid trefol. (ODP Amcan 3, t.85)

Mae ffigur 4 (dros y dudalen) yn dangos dosbarthiad o wahaniaethau gwledig-trefol a gynhyrchwyd gan Gyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

- 3.77 Mae cydnabod tyndra a diffygion y cynlluniau dosbarthu gwledig-trefol sydd eisoes mewn bodolaeth ar hyd y DU wedi arwain at y Prosiect Diffiniadau Gwledig a Threfol (gweler www.statistics.gov.uk/geography/nrudp.asp). Bwriad y prosiect ar y cyd hwn, a ariennir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, DEFRA, Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, Asiantaeth Cefn Gwlad Lloegr a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, yw sefydlu dosbarthiad cytûn a safonedig o ardaloedd trefol a gwledig ar gyfer Cymru a Lloegr.
- 3.78 Mae'r prosiect wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddsbarthu ardaloedd gwledig. Mae wedi mabwysiadu 'ymagwedd anheddiad' yn seiliedig ar adnabod trefi, pentrefi a phreswylfeydd gwledig gwasgaredig o fewn fframwaith grid sy'n cynnwys celloedd 1 hectar. Bydd y 'fframwaith grid aneddiadau' hwn yn cael ei ddefnyddio wedyn yn sail i ddsbarthu Ardaloedd Allbwn a wardiau Ystadegau Ardaloedd Cyfrifiad o ran cyd-destun yr aneddiadau a ffurf yr aneddiadau.


3.79 Mae ardaloedd yn cael eu diffinio fel rhai ‘gwledig’ pan na fydd mwyafrif y boblogaeth yn byw mewn anheddiad o 10,000 neu fwy. Rhennir ardaloedd gwledig yn un o chwe categori, fel a amlinellir yn Ffigur 3.

Ffigur 3: Dosbarthu gwledig a threfol, fel a ddiffinnir gan y Prosiect Diffiniadau Gwledig a Threfol (Rural & Urban Definitions Project) (2004)



3.80 Nod y prosiect yw annog safonau cyflwyno data a dadansoddi ystadegau, sy'n gyffredin, yn bennaf wrth ddeall materion economaidd-gymdeithasol sy'n effeithio ar bobl sy'n byw mewn mathau gwahanol o ardaloedd trefol a dinesig. Mae eto i'w gweld pa oblygiadau fydd i'r system ddsbarthu newydd o ran datblygu a chyflwyno polisi.

Ffigur 4 Map o ddsbarthu gwledig a threfol yng Nghymru, fel y'u diffinnir gan StatsCymru (2004)



Crynodeb o'r bennod

Cydnabod y dimensiwn gwledig

Mae cydnabyddiaeth o ddimensiwn gwledig economi, cymdeithas, diwylliant ac amgylchedd Cymru yn amrywio ar draws graddau gwahanol polisi a rhwng gwahanol gyrff y llywodraeth yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod angen ystyried Cymru wledig yn faes polisi arbennig. Yn ei chynlluniau strategol ar gyfer datblygu Cymru, mae wedi nodi ei hymrwymiad i economi wledig gynaliadwy, i amgylchedd gwledig cynaliadwy a chymunedau gwledig cynaliadwy. Creodd Is-adran Polisi Gwledig pwrpasol o fewn Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad. Y tu hwnt i'r ymrwymiad bras hwn fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth o set gydlynol o bolisiau a ddatblygwyd yn fewndarddol ar gyfer cefn gwlad Cymru.

Prin yw'r ymrwymiad i sicrhau bod polisiau a rhaglenni 'prif ffrwd' yn cymryd y dimensiwn gwledig i ystyriaeth. Mae'r cyfrifoldeb am y dasg hon yn gorwedd yn gyfan gwbl gydag Is-adran Polisi Gwledig Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad; nid oes dyletswydd ar unrhyw adran arall o fewn LICC i ymgynghori â'r IPG. Nid yw hyn yn cymharu'n ffafriol â'r trefniadau yn Lloegr ac yn yr Alban, lle mae ymrwymadau penodol a mecanweithiau ar gyfer yr hyn a elwir yn 'brawfesur o safbwynt gwledig'.

Ychydig gydnabyddiaeth sydd o'r Gymru wledig fel maes polisi a rhaglennu arbennig ymysg y cyrff cyhoeddus anetholedig sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu Cymru. Dim ond ELWa sydd yn cyflwyno adnoddau i feysydd neu faterion gwledig er bod Bwrdd Croeso Cymru yn ddiweddar wedi llunio cynllun gweithredu ar gyfer dyfodol twristiaeth mewn ardaloedd gwledig. I raddau helaeth mae gan Gyrrff Cyhoeddus eraill a Noddir gan y Cynulliad ddiffyg ffocws clir neu benodol ar Gymru wledig heblaw wrth gyflwyno rhaglenni gwledig yr UE a LICC. Mae Awdurdod Datblygu Cymru yn canolbwyntio ar gyflwyno rhaglenni cenedlaethol yn lleol ac yn dadlau achos dros wneud yn llai o'r gwahaniaethau rhwng gwlad a thref. Mewn amryw achos mae'n amlwg nad yw CCNCau yn ystyried bod ardaloedd gwledig yn wahanol i ardaloedd trefol. Mewn sawl achos nid yw'n glir ar ba dystiolaeth – os o gwbl – y seilir yr asesiad hwn.

Nid oes consensws ar draws awdurdodau unedol ynghylch yr angen am adnoddau a rhaglenni pwrpasol i gefnogi ardaloedd gwledig. Mae rhai awdurdodau unedol o'r farn bod eu holl bolisiau a'u gweithgareddau yn cefnogi ardaloedd gwledig; mae eraill yn nodi'r angen i wahaniaethu rhwng anghenion a buddiannau eu hardaloedd gwledig a threfol. Yn rhannol, mae hyn yn adlewyrchu'r amrywiad yng nghyfrifoldeb tiriogaethol awdurdodau lleol sy'n cwmpasu ardaloedd gwledig. Mae nifer o awdurdodau yn ystyried bod eu cyfrifoldeb yn gyfan gwbl wledig ac i bob diben felly maent wedi ymrwymo eu holl adnoddau i ardaloedd gwledig. Mae eraill yn ystyried bod ardaloedd gwledig a threfol yn eu cwmpas ond prin yw'r dystiolaeth ar draws yr awdurdodau hyn o gydnabyddiaeth bendant o anghenion a blaenoriaethau penodol yr ardaloedd gwledig.

Mae diffyg polisi gwledig penodol yng Nghymru yn ffactor yn rhannol o'r amwysedd a'r amhendrantrwydd ynghylch y diffiniadau o 'Gymru wledig'. Nid oes un diffiniad y cytunir arno yn gyffredinol; caiff Cymru wledig ei ddiffinio'n wahanol yn ôl pwrpas ei ddiffinio. Mae hyn yn cymhlethu datblygiad a gweithrediad polisiau, rhaglenni ac adnoddau ar gyfer ardaloedd gwledig yng Nghymru.

ADRAN 4

FFERMIO A'R ECONOMI WRTH GALON POLISI GWLEDIG

Mae'r bennod hon yn ystyried cydbwysedd sectoraidd polisiau a rhaglenni yng Nghymru. Mae'r bennod yn ystyried yn arbennig:

- Y symudiad i 'ddatblygu amaethyddol' i 'ddatblygu gwledig'
- Datblygu gwledig integredig
- Cydbwysedd ariannu rhwng mesurau cefnogi gwledig gwahanol
- Rhaglenni allweddol ar gyfer datblygu ac adfywio cymunedau gwledig

Darperir crynodeb o'r drafodaeth ar ddiwedd y bennod (t.50).

O ffundamentalïaeth amaethyddol i ddatblygu gwledig integredig

- 4.1 Yn draddodiadol mae polisi gwledig wedi ystyried bod amaethyddiaeth yn sylfaenol i gefn gwlad Cymru. Felly, mae mesurau i gefnogi ardaloedd gwledig wedi canolbwyntio'n bennaf ar gefnogi amaethyddiaeth, yn enwedig cymhellion i reoli cynhyrchu ac i reoleiddio marchnadoedd. Mae'r ymagwedd hwn sy'n cymryd yn ganiataol mai'r un i raddau yw buddiannau ffermwyr a buddiannau cefn gwlad yn ehangach, wedi cael ei alw'n 'ffundamentalïaeth amaethyddol'.
- 4.2 Nid dweud yw hyn y cafodd datblygiad gwledig ehangach ei esgeuloso'n llwyr. Roedd y llywodraeth hefyd yn ymdrin â chreu swyddi y tu allan i'r sector amaethyddiaeth, â diboblogi gwledig ac adfywio cymunedol. Ymgwymerwyd â mesurau i annog cynhyrchu crefftiau a gweithgynhyrchu ar raddfa fach mewn ardaloedd gwledig dethol ac i gefnogi neuaddau pentref a gwasanaethau allweddol. Yng Nghymru, arweiniodd y materion hyn at greu Bwrdd Datblygu Diwydiannol Canolbarth Cymru ym 1957, a drodd yn Fwrdd Datblygu Cymru Wledig yn ddiweddarach. I raddau helaeth fodd bynnag, cedwid datblygiad economaidd cymdeithasol ac ehangach ardaloedd gwledig ar wahân i bolisi amaethyddol.
- 4.3 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r pwyslais hwn wedi newid. Yn gynyddol, mae polisi gwledig yn cydnabod bod amaethyddiaeth, er ei fod o hyd yn arwyddocaol iawn o ran ei gyfraniad amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol i ardaloedd gwledig, ac o ran y canran o dir sydd yn ei feddiant¹¹, yn lleihau o ran ei gyfraniad economaidd a'i sylfaen gyflogaeth¹². Ar yr un pryd, bu pwyslais cynyddol ar ryngberthynas a chyd-ddibyniaeth amaethyddiaeth ac economïau, cymdeithasau a diwylliannau gwledig ehangach.

¹¹ 70% o dir Cymru yn amaethyddol (ffynhonnell: Cynllun Gofodol Cymru 2003-2006 – Drafft)

¹² Yn 2000, amaethyddiaeth, hela, coedwigaeth a physgota yn cyfrif am 1.5% o CMC (GDP) cyfan Cymru ac 1.9% o holl gyflogaeth Cymru.

- 4.4 Ar lefel y DU, gwnaed y symudiad hwn yn glir ym Mhapurau Gwyn 1995-6 ar gyfer Lloegr, Yr Alban a Chymru Gwledig, ac ym Mhapur Gwyn Gwledig 2000 Lloegr. Bu symudiad hefyd ar y lefel Ewropeaidd, i ffwrdd o fecanweithiau cefnogi sy'n ymateb i dueddiadau'r farchnad, o blaid mesurau datblygu gwledig ehangach.¹³
- 4.5 Yn ôl un amcangyfrif, roedd cost clwy'r traed a'r genau yn y DU yn 2001 i economi'r Gymru wledig yn £120m yn y sector twristiaeth, yn £62m mewn amaethyddiaeth a £19m mewn sectorau eraill.¹⁴ Roedd y clwyf wedi codi ymwybyddiaeth o natur ryngberthynol materion gwledig gwahanol yn sylweddol, gan fod yn fodd i atgoffa bod amaethyddiaeth a'r economi, yr amgylchedd a'r gymdeithas wledig ehangach yn dibynnu ar ei gilydd.

Datblygu gwledig integredig yng Nghymru

- 4.6 Mae'r symudiad hwn o ran meddylfryd wedi arwain yn gynyddol at atebion yn cael eu llunio gan y syniad o ddatblygu gwledig integredig. Mae datblygu gwledig integredig (IRD) yn ystyried bod ardaloedd gwledig yn fannau amlswyddogaethol, gan gydnabod yr ystod helaeth o fuddiannau gwahanol sy'n gweithredu ynddynt, neu o leiaf a allai weithredu ynddynt. Ynghyd ag amaethyddiaeth, mae'r buddiannau hyn yn cynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i: ddatblygiad cymunedol, mentrau busnes nad ydynt yn amaethyddol, twristiaeth, gwarchod yr amgylchedd, diogelu'r amgylchedd adeiledig, pysgota a dyframaeth, chwaraeon maes, a choedwigaeth. Mae IRD yn deall ac yn ceisio cymryd y cymhlethdodau a'r rhyngweithio rhwng y swyddogaethau a buddiannau gwahanol hyn i ystyriaeth, gan fabwysiadu ymagwedd 'rhwydwaith' yn hytrach nag ymagwedd sectoraidd i gysylltu'r actorion amrywiol.
- 4.7 Ceir ychydig dystiolaeth o symudiad at ymagwedd fwy integredig at faterion gwledig yng Nghymru. Y mwyaf amlwg yw creu portffolio Gweinidogaethol ar gyfer yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, ynghyd â phwyllgor ac adran, ar gyfer ail dymor y Cynulliad, sy'n disodli portffolio Amaethyddiaeth a Materion Gwledig y tymor cyntaf.
- 4.8 Mae'r portffolio yn dwyn ynghyd gwahanol elfennau o gyfrifoldebau Llywodraeth Cynulliad Cymru am ddatblygu cynaliadwy cefn gwlad ac ehangach, a'i fwriad yw meithrin ymagwedd mwy 'cysylltiedig' at lywodraethu. Mae'n ymgorffori cynllunio, polisi amgylcheddol gan gynnwys materion sy'n ymwneud â chefn gwlad, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a materion amaethyddol a gwledig.

¹³ Fodd bynnag, mesurau datblygu gwledig ar draws yr UE rhwng 2000-2006 yn cyfrif am ddim ond 11% o holl gyfanswm cyllideb y PAC (CAP).

¹⁴ Midmore, P. (2001) *The economic impact of Foot and Mouth Disease on the rural economy of Wales: updated analysis and forecasts*. (Papur Crynodeb a baratowyd i Awdurdod Datblygu Cymru) IRS, Aberystwyth

- 4.9 Yng Ngorffennaf 2004, galwodd Ceidwadwyr Cymru am i'r Cynulliad Cenedlaethol gael Gweinidog Materion Gwledig penodol, gan ddadlau bod cyfuno'r swydd â chynllunio a'r amgylchedd yn arwain at esgeuluso nifer o faterion gwledig - yn enwedig amaethyddiaeth. Maent yn cadarnhau hyn drwy hawlio bod materion gwledig yn derbyn cyn lleied ag awr o sylw bob tair wythnos gan Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad. Wrth ymateb i'r alwad hon, amddiffynna Llafur y trefniant presennol hwn gan lonni y byddai rhannu amaethyddiaeth a materion gwledig oddi wrth yr amgylchedd a chynllunio yn 'ynysol' ac 'yn hen ffasiwn':

Mae amaethyddiaeth yn chwarae rôl bwysig yn llwyddiant y Gymru wledig, ond mae dweud bod angen ei wahanu oddi wrth ein strategaeth ar dwristiaeth a'r amgylchedd yn chwerthinlyd. (AC Llafur Preseli Sir Benfro Tamsin Dunwoody-Kneafsey)

- 4.10 Nod Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2000-2006 o ran egwyddor yw cynnig fframwaith polisi integredig ar gyfer datblygu'r Gymru wledig. Mae'r cynllun yn dilyn egwyddorion Rheoliad Datblygu Gwledig (RDG) yr UE, sy'n pwysleisio'r cydberthnasau rhwng amaethyddiaeth, yr amgylchedd a'r economi ehangach, a'u cyd-ddibyniaeth y naill ar y llall. Tra bod y cynllun yn pwysleisio bod amaethyddiaeth yn parhau i fod o bwysigrwydd hanfodol i gefn gwlad Cymru, mae'n ceisio sefydlu fframwaith cydlynol ar gyfer datblygiad ffermydd, amaeth-amgylchedd a datblygiad gwledig ehangach (gweler blwch 4.1 am enghreifftiau o fentrau o'r fath). Ei flaenoriaethau yw cryfhau'r sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth, gwella natur gystadleuol ardaloedd gwledig a diogelu'r amgylchedd a'r dreftadaeth wledig.
- 4.11 Tra bod Cymru'n Ennill yn pwysleisio 'cyfraniad y diwydiant ffermio i gymunedau gwledig Cymru ac i gefn gwlad' ac yn pwysleisio pwysigrwydd cael 'dyfodol cynaliadwy hir dymor i amaethyddiaeth i Gymru' (t.17) mae hefyd yn canolbwyntio ar yr angen i amrywio sylfaen strwythurol economi wledig Cymru. 'Mae cyflogaeth ym maes ffermio mewn dirywiad hir dymor... mae angen hanfodol i ddatblygu cyfleoedd newydd ar gyfer cyflogaeth a busnes' (t.18). Ceir ymrwymiad i 'gryfhau cyfraniad twristiaeth i'r economi wledig' ynghyd a gosod Ffermio i'r Dyfodol ar waith (t.18).

Blwch 4.1 Cynlluniau amaeth-amgylchedd ac arallgyfeirio ffermydd yng Nghymru

Mae **Tir Gofal** yn gynllun amaeth-amgylchedd a fu ar gael ledled Cymru ers 1999, sy'n cynnig taliadau i ffermwyr am reoli eu tir mewn modd cynaliadwy. Ei nod yw integreiddio rheolaeth amgylcheddol ac amaethyddol y fferm gyfan o dan un cytundeb. Cynigir cymhellion ariannol i ffermwyr amddiffyn bywyd gwylt a chynefinoedd sydd eisoes yn bodoli, creu cynefinoedd newydd, annog mwy o fynediad i'r cyhoedd ac amddiffyn y dirwedd gan gynnwys nodweddion hanesyddol/archaeolegol. Caiff ei rannu'n rhannol gan yr UE drwy fesurau amaeth-amgylchedd y PAC; gweinyddir y cynllun gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae **Cyswllt Ffermio** yn cynnig gwasanaeth i deuluoedd ffermio yng Nghymru i arlo esi ac addasu eu busnes fferm. Ei nod yw annog arferion amaethyddol sy'n diogelu ac sy'n gwella tirweddau diwylliannol ac amgylcheddol Cymru ac mae'n cynnwys pedair prif elfen:

1. Rheoli tir
2. Creu mynediad newydd
3. Cyfalaf i ddiogelu a rheoli cynefinoedd a nodweddion ac i gefnogi darparu mynediad newydd
4. Hyfforddiant i ffermwyr

Cyflwynir y cynllun gan rwydwaith o hwyluswyr Cyswllt Ffermio, gan ymddwyn fel cyswllt rhwng y gwasanaeth hwn a chymuned ffermio Cymru. Maent yn galluogi ffermwyr i gyrchu gwasanaethau yn lleol i gynorthwyo ag ymholiadau. Mae prosiectau yn cynnwys creu cynlluniau datblygu busnes fferm, cyngor ar hyfforddiant, cyngor ar reolaeth amgylcheddol a chyfeirio at grantiau posibl.

4.12 Yn yr un modd, mae'r datganiad cynhwysfawr ar y Gymru wledig a gynhyrchwyd gan Bartneriaeth Gwledig Cymru - yr oedd CDG yn cymryd sylw ohono - yn datgan '*nid yw economi gwledig llwyddiannus yn troi o gwmpas amaethyddiaeth yn unig*', a galwodd am i amaethyddiaeth gael ei integreiddio'n well yn yr economi wledig ehangach. Mae saith blaenoriaeth gweithredu'r datganiad, a fanylir yn gynt yn y ddogfen hon, yr un mor gynhwysfawr mewn perthynas â datblygiad gwledig yn fwy cyffredinol.

4.13 Ymagwedd integredig at ddatblygu gwledig oedd sail a rhesymwaith *Ffermio i'r Dyfodol* a *Chynllun Adfer Cefn Gwlad* y Cynulliad mewn enw hefyd, a lansiwyd yn dilyn clwy'r Traed a'r Genau.

4.14 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cymryd egwyddorion tebyg ac mae'n galw'n benodol am integreiddio polisi ar gyfer y Gymru wledig.

mae cefn gwlad yn adnodd dynamig ac anlwrpas. Yn unol ag egwyddorion cynladwyedd, rhaid iddo gael ei ddiogelu, a lle bynnag y bo'n bosibl, ei wella er

mwyn ei werth ecolegol, daearegol, ffisiograffig, hanesyddol, archaeolegol ac amaethyddol ac am ei adnoddau tirwedd a naturiol, gan gydbwysu'r angen i ddiogelu'r rhinweddau hyn yn erbyn anghenion economaidd, cymdeithasol a hamdden cymunedau lleol ac ymwelwyr. Bydd integreiddio polisiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn llawn yn hanfodol i allu gwireddu'r nodau a'r blaenoriaethau hyn. (t.17)

- 4.15 Prin yw'r sôn mewn polisiau gwledig eraill i Gymru am 'ddatblygu gwledig integredig' neu 'bolisi gwledig integredig'. Yn ei le, ceir pwyslais cryf ar 'ddatblygu cynaliadwy' a 'polisi datblygu cynaliadwy' yn unol â thema drawstoriadol Cynulliad Cymru o ganlyn nod datblygu cynaliadwy yn ei holl weithgareddau. Ar y lefel strategol ehangach yng Nghymru, mae 'datblygu cynaliadwy' i bob diben yn derm dirprwyol am 'ddatblygu integredig', gan ei fod yn golygu integreiddio amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Ffermio wrth galon polisi gwledig Cymru

- 4.16 Y tu hwnt irhethreg gyffredinol datblygu gwledig integredig, mae'n amlwg bod amaethyddiaeth yn parhau'n ganolbwynt allweddol mesurau datblygu gwledig yng Nghymru. Mae datganiad cynhwysfawr y Bartneriaeth Wledig ar y Gymru wledig yn disgrifio ffermydd teulu fel 'asgwrn cefn cymunedau gwledig Cymru', barn a gaiff ei dyfynnu'n aml. Yn yr un modd, mae *Ffermio i'r Dyfodol* yn cydnabod bod ffermio teuluol yn hanfodol i economi, i gymdeithas ac i amgylchedd y Gymru wledig.

Mae amaethyddiaeth a phrosesu bwyd yn gwneud cyfraniad sylweddol i economi'r Gymru wledig... Mae ffermio, yn ogystal, yn gyfrifol am lunio ansawdd yr amgylchedd gwledig, a... gwna cyfraniad hanfodol anuniongyrchol i dwristiaeth. Y tu hwnt i hynny, mae fferm y teulu yn rhan annatod o gymeriad y Gymru wledig ac o wead cymdeithasol cymunedau gwledig.

- 4.17 Yn y flwyddyn ariannol 2003 i 2004, dyrannodd Llywodraeth y Cynulliad £409,213,000 o'i chyllideb yn arbennig ar gyfer materion gwledig, drwy Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad. Mae Cyllideb Derfynol 2005-2006 y Cynulliad yn dangos y bydd y dyraniad hwn hyn cael ei gynyddu i £482,200,000 ar gyfer 2005 i 2006. Dyrennir mwyafswm yr arian hwn i gynllunio cefnogi'r farchnad, gyda chymorthdaliadau eraill yn cefnogi cynhyrchiad ffermydd a diogelu'r amgylchedd. Mae llai nag 1% yn cael ei ddyrannu i'r Isadran Polisi Gwledig (sy'n cyflogi ond 7 o'r tua 700 o aelodau staff sy'n gweithio yn Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad) sy'n gyfrifol am raglenni datblygu gwledig nad ydynt yn ymwneud ag amaethyddiaeth. Mae cynigion cyllideb drafft yn dangos bod y cydbwysedd hwn yn parhau hyd 2006-7 o leiaf.
- 4.18 Er bod y CDG, y datganiad polisi cydlynol mwyaf diweddar am y Gymru wledig, yn cynnwys 'trosolwg strategol' ynghylch pob sector yn y Gymru wledig, mae'r

cynllun ei hun yn canolbwyntio bron yn gyfan gwbl ar fesurau datblygu amaethyddiaeth a'r hyn sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth.

- 4.19 Amaethyddiaeth a Choedwigaeth yw ei flaenoriaeth sectoraidd. Mae dwy o'i dair blaenoriaeth strategol yn bennaf amaethyddol neu'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth. Blaenoriaeth 1 yw 'Creu sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth cryfach'. Tra bod Blaenoriaeth 2, 'Gwella ysbryd gystadleuol economaidd cymunedau ac ardaloedd gwledig', o ran egwyddor yn fwy cyffredinol na'r flaenoriaeth gyntaf, mae ei hamcanion wedi'u targedu'n bennaf at gefnogi cynhyrchiad amaethyddol a phrosesu a marchnata cynnyrch amaethyddol.
- 4.20 Dim ond blaenoriaeth 3, 'Cynnal a diogelu'r amgylchedd a'r dreftadaeth wledig', sydd â chylch gwaith ehangach, a'r flaenoriaeth hon sy'n derbyn y swm lleiaf o arian. O'r un mesur ar ddeg ar gyfer rhoi tair blaenoriaeth y cynllun ar waith, mae'r mwyafrif yn uniongyrchol gysylltiedig ag amaethyddiaeth a rheoli tir, er enghraifft, arfer ffermio da, amaeth-amgylchedd a choedwigaeth.
- 4.21 O ganlyniad, mae'r cydbwysedd cyllid a nodwyd yn y CDG yn pwysu'n drwm o blaid amaethyddiaeth a gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth (gweler tabl 1). *'Mae'r angen i gadw lefel gredadwy o gyllido i gefnogi Ardaloedd Llai Ffafirol, ac i barhau i ddarparu adnoddau ar gyfer datblygu cynlluniau Tir Gofal a Ffermio Organig er mwyn cyflawni elfennau allweddol y strategaeth... wedi arwain at y canlyniad anochel o gyfeirio mwyafrif yr adnoddau at y mesurau cysylltiedig (CDG, t. 373).* Mae dros 90% o'r arian yn canolbwyntio ar weithgareddau o'r fath, a rhoddir 2.5% pellach i fesurau coedwigaeth.
- 4.22 O'r arwyddocâd mwyaf i ddatblygu gwledig ehangach yng Nghymru mae Mesur 11 y Cynllun: 'Hyrwyddo addasu a datblygu ardaloedd gwledig', sy'n perthyn i Erthygl 33 Rheoliad Cyngor 1257-1999. Yng Nghymru, mae hwn yn derbyn llai na 5% o'r arian sydd ar gael drwy'r CDG. Caiff cefnogaeth ei chanolbwyntio ar bump o'i dau mesur ar bymtheg posibl:
- Gwasanaetha u sylfaenol ar gyfer yr economi a'r boblogaeth wledig
 - Adnewyddu a datblygu pentrefi ac amddiffyn a diogelu'r dreftadaeth wledig
 - Arallgyfeirio gweithgareddau amaethyddol a gweithgareddau sy'n agos at amaethyddiaeth i gynnig gweithgareddau lluosog neu incwm arall
 - Anogaeth i weithgareddau twristiaeth a chreffft
 - Gwarchod yr amgylchedd mewn cysylltiad ag amaethyddiaeth, coedwigaeth a gwarchod tirwedd a gwella lles anifeiliaid
- 4.23 Mae mesurau a thargedau ar gyfer datblygu gwledig yn perthyn i amaethyddiaeth hyd yn oed pan nad ydynt yn faterion amaethyddol. Er enghraifft, bydd y ddau faen prawf a ddefnyddir i fesur ysbryd cystadleuol economaidd cymunedau ac ardaloedd gwledig, yn gysylltiedig â chreu swyddi yn y diwydiannau llaeth a phrosesu cig oen ac eidion a chreu *'gwasanaethau hyfforddi a chynghori*

integredig, gan gynnwys rhwydwaith o ffermydd arddangos... a bod wedi cael effaith fesuradwy ar lefel y sgiliau ac arloesedd busnes a TG.’ O un mesur ar ddeg y CDG i’w gweithredu, dim ond un, ‘Hyrwyddo addasu a datblygu ardaloedd gwledig’, sy’n ystyried datblygu gwledig ehangach.

- 4.24 Mae’r gogwydd sectoraidd hyn yn deillio i raddau helaeth o’r **cyfyngiadau y datblygwyd y cynllun oddi mewn iddynt**. Fel a drafodwyd yn Adran 2 o’r ddogfen hon, cafodd y Cynllun ei greu o dan fframwaith polisi’r UE y mae datblygu amaethyddol yn flaenoriaeth allweddol iddo. Ar yr un pryd, roedd y lefel gymharol isel o arian EAGGF a oedd ar gael ar gyfer mesurau Erthygl 33 o dan y CDG, wedi arwain y Cynulliad i gyfyngu cefnogaeth i bump o’r mesurau hynny yn unig.
- 4.25 Mae’r gefnogaeth gyfyngedig ar gyfer mesurau Erthygl 33 yn deillio’n sylweddol o’r adnoddau cyfyngedig ar gyfer gweithredu’r Cynllun fel cyfanwaith. Yn ei dro, daw hyn yn bennaf o ganlyniad i etifeddu penderfyniadau gwario blaenorol y DU o dan raglenni Ewropeaidd. Mae’r arian ar gyfer yr RDG, y crëwyd y CDG ganddi, yn seiliedig ar feini prawf sy’n seiliedig i raddau helaeth ar wariant blaenorol yr aelodau ar yr amgylchedd, ar reoli cefn gwlad ac ar ddatblygu gwledig. O ganlyniad i lefelau isel blaenorol Trysorlys y DU ar fesurau anorfodol yr EAGGF, dim ond 3.5% o gyllideb RDG yr UE ar gyfer 2000-2006 a ddyrannwyd i’r DU (dyrannwyd 17.6% o’r gyllideb i Ffrainc, er enghraifft).¹⁵ Mae hyn yn cael ei ategu yn ardaloedd Amcan 1 gan gyfran arweiniad yr EAGGF.
- 4.26 Mae’r Cynulliad ei hun yn ystyried bod yr anghydbwysedd hwn, er y gellir ei gyfiawnhau, yn bell o fod yn sefyllfa ddelfrydol

Mae’r prinder difrifol o adnoddau yn galw am ganolbwyntio ar y prif gyfryngau symud cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol... [ond] effaith [y blaenoriaethu hwn] yw bod yr adnoddau sydd ar gael i ymrwymo i’r mesurau nad ydynt yn gysylltiedig... yn annigonol i gyflawni cydbwysedd rhwng y gwahanol fesurau cefnogi y mae’r Cynulliad yn gwbl fodlon â hwy. (CDG t.373).

¹⁵ Lowe, P et al (2002) *Setting the next agenda? British and French approaches to the second pillar of the Common Agricultural Policy*. *Journal of Rural Studies*, 18 1-17

Tabl 1: Dadansoddiad o Wariant Ariannol Dangosol sy'n gysylltiedig â Chynllun Datblygu Gwledig Cymru 2000-2006, € filiynau (Ffynhonnell: *Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2000-2006*, t.184)

	Cost Cyhoeddus	Cyfraniad yr UE	Ychwanegiad Cenedlaethol	Cyfanswm Gwariant € filiynau	Cyfanswm Gwariant %
Blaenoriaeth 1					
Buddsoddi mewn daliadau amaethyddol	4.34	1.09	0.00	5.43	0.68
Coedwigo tir amaethyddol	10.12	5.06	0.00	15.18	1.90
Mesurau coedwigaeth eraill	1.74	0.87	1.74	4.35	0.55
Arallgyfeirio	1.26	0.62	2.06	3.94	0.49
Gweithgareddau twristiaeth a chreffft	2.32	1.17	3.89	7.38	0.93
Blaenoriaeth 2					
Hyfforddiant	3.44	1.72	5.30	10.46	1.31
Prosesu a marchnata cynhyrchion amaethyddol	8.12	4.03	11.86	24.01	3.01
Blaenoriaeth 3					
Amaeth-amgylchedd: Amcan 1	28.72	21.53	40.61	90.86	11.39
Amaeth-amgylchedd: heb fod yn Amcan 1	28.68	14.35	40.61	83.64	10.49
Ardaloedd Llai Ffafriol	363.81	59.95	0.00	423.76	53.13
Gwasanaethau Sylfaenol	2.32	1.16	3.89	7.37	0.92
Adnewyddu pentrefi	2.32	1.16	3.89	7.37	0.92
Gwarchod yr amgylchedd	6.75	1.71	0.00	8.46	1.06
Cyfanswm	463.94	114.42	113.85	692.21	86.78
Gwerthuso	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00
Cytundebau cyfredol:					
Amaeth-amgylchedd	65.86	32.93	0.00	98.79	12.38
Coedwigaeth	4.44	2.22	0.00	6.66	0.83
Cyfanswm y cytundebau cyfredol	70.30	35.15	0.00	105.45	13.22
Cyfanswm y rhaglen	534.24	149.57	113.85	797.66	100.00

4.27 Bu'r angen i gryfhau cefnogaeth ariannol yr UE ar gyfer datblygu gwledig yn elfen bwysig o drafodaethau diwygio'r PAC. Yn yr arolwg canol tymor ym Mehefin 2003, cyflwynwyd system newydd o fodiwleiddio gorfodol, sy'n caniatáu i aelod wladwriaethau ddefnyddio arian a ddyrannwyd yn flaenorol i fesurau amaeth-amgylchedd i ariannu naill ai mesurau datblygu gwledig newydd

a gyflwynwyd yn niwygiadau'r PAC, neu i atgyfnerthu mesurau sydd eisoes yn bodoli. Cyflwynwyd pedwar mesur newydd gan ddiwygiadau i reoliad 1257/1999 Cyngor CE ym mis Medi 2003, pob un ohonynt yn symud pwyslais y gefnogaeth i ardaloedd gwledig o gyfeiriad cynhyrchu yn unig, tuag at ddatblygu gwledig mwy integredig:

- Cefnogaeth i gynhyrchwyr am gynhyrchu bwyd o ansawdd
- Rhoi cymorth cyfnod cyfyngedig i ffermwyr sy'n wynebu gofynion deddfwriaeth newydd
- Rhoi cefnogaeth incwm i ffermwyr sy'n defnyddio dulliau cynhyrchu sydd uwchlaw yr arfer safonol
- Rhoi cymorth ar gyfer rheoli strategaethau datblygu gwledig integredig gan bartneriaethau lleol yn ôl Erthygl 33

Rhaglenni eraill ar gyfer datblygu gwledig ac adfywio cymunedau gwledig

4.28 Yn ogystal â cefnogaeth amaethyddol mae nifer o raglenni allweddol sy'n cefnogi datblygiad gwledig ac adfywio cymunedau gwledig ehangach ledled Cymru.

4.29 Nod rhaglen **Amcan 1** Ewrop yw hyrwyddo datblygiad ac addasiad strwythurol y rhanbarthau hynny o'r UE sy'n 'ymlysgo fwyaf' o ran datblygiad economaidd. Er mai rhaglen ddatblygu ranbarthol yn hytrach na gwledig yw, mae'n cynnwys ardaloedd gwledig sylweddol. Mae gan ranbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd statws Amcan 1 o 2000-2006 o ganlyniad i'w CMC fod yn llai na 75% o gyfartaledd yr UE (gweler ffigur 5). Mae Dogfen Raglennu Sengl (DRS) Amcan 1 ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn nodi saith blaenoriaeth allweddol, ac un ohonynt yw '*datblygu gwledig a defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol*'.

4.30 Cynlluniwyd rhaglen Amcan 1 yng Nghymru i gyflawni:

- Economi o ansawdd da iawn, sy'n creu swyddi, sy'n amrywiol, yn arloesol ac sy'n cael ei yrru gan wybodaeth
- Gweithlu medrus, mentrus a hyblyg
- Ffyniant ac ansawdd bywyd da i gymunedau ym mhob rhan o Orllewin Cymru a'r Cymoedd, yn drefol ac yn wledig

4.31 Nod rhaglen Amcan 2 yr UE yw cefnogi adfywio economaidd a chymdeithasol ardaloedd sydd â diffygion strwythurol sylfaenol. Fel Amcan 1, mae'n rhaglen ddatblygu ranbarthol sy'n cynnwys ardaloedd sylweddol o'r Gymru wledig. Yng Nghymru, mae'r ardaloedd cymwys yn cynnwys Powys a Chasnewydd, y rhan fwyaf o Sir Fynwy, wardiau yng Nghaerdydd a wardiau yn Wrecsam ac ym Mro Morgannwg. Mae DRS Amcan 2 yn nodi pedair blaenoriaeth, a '*datblygu gwledig cynaliadwy*' yw un ohonynt.

4.32 Amcanion allweddol y rhaglen yw:

- Cynyddu twf cyflogaeth
- Hyrwyddo amrywiaeth economaidd
- Datblygu cymunedau cynaliadwy

4.33 LEADER+ yw'r brif raglen a ariennir gan yr UE ar gyfer hyrwyddo datblygu ac adfywio ardaloedd gwledig. Dyma'r diweddaraf mewn cyfres o fentrau LEADER gan ddechrau â LEADER I yn ystod cyfnod 1990-1993, LEADER II yn ystod cyfnod 1994-1999 ac yn olaf LEADER+ o 2000-2006. Mae'n wahanol i raglenni blaenorol wrth fod ganddi ymagwedd fwy thematig sy'n culhau'r amrediad a'r mathau o fentrau y mae modd iddi eu hariannu.

4.34 Mae LEADER+ yn annog datblygu a gweithredu ymagweddau 'arloesol' tuag at ddatblygiad cymunedau gwledig. Gosodir pwyslais ar gynladwyedd prosiectau peilot. Nod LEADER+ yng Nghymru yw '*Rhoi cynnig ar ymagweddau arloesol at ddatblygu gwledig a fydd yn cyfrannu at gymdeithas, economi ac amgylchedd mwy cynaliadwy i'r Gymru wledig*'. Bwriedir iddo asio â'r fframwaith strategol a sefydlwyd gan y Cynllun Datblygu Gwledig ac i ategu'r gweithgareddau a gefnogwyd gan Amcanion 1, 2 a 3.

4.35 Amcanion y rhaglen yw:

- Profi ymagweddau newydd at ddatblygu gwledig
- Cynyddu gallu grwpiau targed, cymunedau a busnesau ac annog eu hymwneud yn natblygiad eu hardaloedd
- Sicrhau cynaliadwyedd prosiectau peilot llwyddiannus trwy eu hintegreiddio i raglenni prif ffrwd
- Dysgu o ardaloedd gwledig eraill a chymryd rhan mewn gweithgareddau ar y cyd lle bo'n addas

4.36 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno nifer o raglenni i gefnogi adfywio cymunedau gwledig (gweler blwch 4.2 am un enghraifft o'r fath). Ei rhaglen flaenllaw yw Gweithredu dros Gymunedau Gwledig (RCA), a lanswyd yn 2003. Ceisia RCA gyflawni un o brif flaenoriaethau'r Cynulliad ar gyfer ardaloedd gwledig:

datblygu cymunedau lle mae pobl eisiau byw, gweithio ac ymweld â hwy, lle gellir cyrraedd cyfle a llwyddiant economaidd, amgylchedd dymunol a diogel a rhwydweithiau cymunedol cymdeithasol gweithredol a chynhwysol.

4.37 Mae'r Rhaglen Gweithredu dros Gymunedau Gwledig yn debyg iawn i ymagwedd LEADER. Mae'n gofyn bod strategaethau datblygu yn arloesol ac yn integreiddiol; bod rhaglennu'n cael eu harwain gan y gymuned a'u bod yn ategu mentrau prif ffrwd eraill. Mae RCA yn targedu ystod ychydig yn ehangach o grwpiau targed, gan gynnwys gwasanaethau adwerthu a phobl hyn ynghyd â

grwpiau a ddaw o dan LEADER+. Mae'r gwerthusiad canol tymor o LEADER+ yn ystyried bod y Cynllun Gweithredu dros Gymunedau Gwledig:

yn gallu cael ei ystyried fel y Rhaglen LEADER II 'prif ffrwd' neu 'wladol' yng Nghymru, gan ei wahaniaethu ei hun oddi wrth LEADER+ yn bennaf oherwydd y ffocws thematig gofynnol yr olaf... gellir sefydlu ei gyfatebolrwydd â LEADER+, gan gefnogi datblygu gwledig arloesol, sy'n seiliedig mewn cymunedau, 'y tu hwnt' i ffocws thematig Grwp Gweithredu Lleol.

Blwch 4.2 Cynllun Gofid Cefn Gwlad

Lansiwyd Cynllun Gofid Cefn Gwlad yn 2001 fel rhan o *Gynllun Adfer Cefn Gwlad* y Cynulliad. Roedd y cynllun yn cefnogi ystod o fentrau ag oes gyfyngedig a oedd yn rhoi cyngor a chymorth arall i bobl mewn cymunedau gwledig â phroblemau a thrallod a achoswyd neu a waethygyd gan glwy'r Traed a'r Genau.

Gweinyddwyd y cynllun gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) ac fe'i hwyluswyd gan Rwydwaith Gwybodaeth Gofid Cefn Gwlad.


Wrth gydnabod yr anghenion parhaus, dyrannodd Llywodraeth Cynulliad Cymru £550 mil pellach i'r cynllun ym Mawrth 2003. Daeth y cynllun i derfyn ym Mawrth 2004.

- 4.38 Yn rhethregol, mae polisi Llywodraeth y Cynulliad yn gwahaniaethu rhwng pwysigrwydd cyfartal yr amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ynghylch y Gymru wledig, ac yn eu pwysleisio. Mae hefyd yn cydnabod bod angen integreiddio'r tri chylch hwn er mwyn cyflawni datblygu gwledig cynaliadwy.
- 4.39 Yn ymarferol, gosodir blaenoriaeth glir ar fesurau economaidd. Mae'r *Cynllun Datblygu Gwledig* yn amlinellu tair blaenoriaeth strategol – creu '*sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth cryfach*', gwella '*ysbryd cystadleuol economaidd cymunedau ac ardaloedd gwledig*' a diogelu '*yr amgylchedd a threftadaeth wledig*' (tt.156-157) – dau ohonynt yn ymwneud yn bennaf â datblygiad economaidd.
- 4.40 Diogelu a chadwraeth amgylcheddol a bioamrywiaeth yw blaenoriaethau aneconomaidd y CDG, gan adlewyrchu'r newid ym mhwyslais polisi'r UE i ffwrdd o gynhyrchu amaethyddol dwys i gyfeiriad ffermio sy'n fwy cynaliadwy'n amgylcheddol.
- 4.41 Nid yw meysydd cymdeithas a diwylliant yn derbyn unrhyw sylw y tu hwnt i'r 'trosolwg strategol' a'r 'gwasanaethau sylfaenol cefnogol'. Ar yr un pryd, gosodir cefnogaeth am ddarparu gwasanaethau a gwarchod y dreftadaeth wledig yng nghyd-destun datblygu economaidd.

- *Rhoddir cefnogaeth... ar gyfer gwella gwasanaethau sylfaenol yn gost effeithiol... yn Nwyrain Cymru' oherwydd 'Mae diffyg darpariaeth gwasanaethau sylfaenol yn cyfyngu ar y cyfle i'r economi wledig ddatblygu'n llawn'*
- *Dylid cynnig cefnogaeth... i adnewyddu a datblygu pentrefi a gwarchod a diogelu treftadaeth wledig yn Nwyrain Cymru' oherwydd 'mae gan amgylchedd adeiledig y Gymru wledig ac adnoddau naturiol yr ardal y potensial i wneud cyfraniad sylweddol i ffyniant yr ardal' (CDG, t.163).*

4.42 Mae LEADER+ a Gweithredu dros Gymunedau Gwledig yn rhoi mwy o gefnogaeth a phwyslais ar faterion cymdeithasol. Nid yw'r rhaglenni hyn fodd bynnag yr un fath â fframwaith polisi cydlynol sy'n integreiddio buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, nac yn cyfrannu ato.

Ffigur 5 Ardaloedd prif ffrwd rhaglenni cronfeydd strwythurol yng Nghymru, 2000-2006



© Hawlfraint y Goron 2000
Yn seiliedig ar Fap yr Arolwg Ordnans
Cartograffeg: Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Crynodeb o'r Bennod

Ffermio a'r Economi wrth galon polisi gwledig

Mae gan amaethyddiaeth ddylanwad cryf ar bolisi ar gyfer Cymru wledig. Dyma fframwaith y tair prif ddogfen ar bolisi gwledig, sef: *Cynllun Datblygu Cymru Wledig*, y *Cynllun Adfer Cefn Gwlad* a *Ffermio i'r Dyfodol*. Mae pob un o'r rhain yn pwysleisio'r gyd-ddibyniaeth rhwng amaethyddiaeth a'r economi, y gymdeithas a'r amgylchedd gwledig ac yn ceisio amlinellu symudiad yn ffermio yng Nghymru a fydd yn golygu manteision cadarnhaol i Gymru wledig yn fwy cyffredinol.

O ran egwyddor, ceir ymrwymiad i 'ddatblygu gwledig integredig' yng Nghymru. Mae hyn yn gofyn am werthfawrogi a cheisio cymryd i ystyriaeth ofynion a gwerthoedd y buddiannau sectoraidd gwahanol a'r rhyngweithio rhyngddynt. Mae'n ymbellhau o'r syniad y gellir ystyried ffermio ar wahân i faterion gwledig eraill, ac mae'n edrych tuag at gydlynu polisiau ar gyfer amaethyddiaeth, yr economi'n ehangach, yr amgylchedd a'r gymdeithas. Daw ychydig o'r ysgogiad dros yr ymrwymiad hwn o symud mewn polisi ar lefel yr UE; daw ychydig ohono o ddyletswydd Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddilyn datblygiad cynaliadwy yn ei holl waith.

Er gwaethaf hyn, mae polisi gwledig yng Nghymru yn parhau i fod â gogwydd cryf o blaid ffermio. Mae'r pwyslais pennaf ar amaethyddiaeth ac arallgyfeirio amaethyddol yn esgeuluso actorion a sectorau eraill yng Nghymru wledig. Mae llawer llai o gefnogaeth, o ran polisi a chyllid penodol, ar gyfer datblygu ac adfywio gwledig ehangach y tu hwnt i ffermio.

ADRAN 5

POLISI'AU A RHAGLENNI AMRYWIOL AR GYFER CEFN GWLAD AMRYWIOL CYMRU

Mae'r bennod hon yn trafod ymdriniaeth ddaearyddol y polisiau a'r rhaglenni sy'n effeithio ar y Gymru wledig. Yn benodol, mae'r bennod hon yn ystyried:

- Y gefnogaeth anghyfartal ar gyfer gwahanol ardaloedd gwledig ar draws Cymru
- Y symudiad o 'ddatblygu gwledig' i 'ddatblygu rhanbarthol'
- Gogledd Cynllun Gofodol Cymru ar gyfer polisi gwledig
- Rhaglenni lleol ar gyfer adfywio cymunedol gwledig

Rhoddir crynodeb o'r drafodaeth ar ddiwedd y bennod (tud. 61)

5.1 I ryw raddau, mae bodolaeth polisiau a rhaglenni penodol ar gyfer ardaloedd gwledig yn dibynnu ar y syniad bod Cymru wledig yn un gofod unffurf y gellir ei dargedu fel endid cydlynol, unedig. Fodd bynnag, ar lefel y polisi a'r rhaglen fel ei gilydd, ceir tystiolaeth o symud oddi wrth yr ymagwedd hon.

5.2 Fel y nodwyd yn Adran 3, ceir pwyslais cynyddol ar yr heriau cyffredin a wynebir gan ardaloedd gwledig a threfol, sydd i ryw raddau yn cymylu'r ffiniau rhyngddynt. Ar yr un pryd, ceir cydnabyddiaeth gynyddol fod Cymru wledig ynddi ei hun yn wahaniaethol, a bod gwahanol ardaloedd yn wynebu heriau penodol a bod ganddynt wahanol anghenion a blaenoriaethau.¹⁶ Mae'r drafodaeth am ddiffiniadau 'gwledig' a 'Chymru wledig', a nodir yn Adran 3, yn adlewyrchu'r symudiad hwn yn rhannol.

5.3 Mae *Polisi Cynllunio Cymru 2002*, sy'n amlinellu polisiau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn gwneud y sylw bod y Gymru wledig yn wahaniaethol, ac yn amlinellu blaenoriaethau ar gyfer rheoleiddio gweithgaredd mewn ardaloedd gwledig yn unol â'r gwahaniaethu hwnnw:

- Cyfyngu ar y datblygu newydd yng nghefn gwlad, yn enwedig yn y 'cefn gwlad agored' a'r ardaloedd y'u penodir nawr ar gyfer eu datblygu mewn Cynlluniau Datblygu Unedol. Dylai unrhyw ddatblygu newydd "barchu a chefnogi hynodrwydd lleol" (tud. 19)
- Cadw'r "tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas", oni bai bod cynlluniau annisgwyl eraill, fel dynodi arbennig ar dir gradd is, mewn achosion lle mae pwysau datblygu penodol, yn gofyn gwrthwneud yr egwyddor hon. (tud. 25)
- Cefnogi arallgyfeirio "diwydiannau gwledig traddodiadol" tra'n hwyluso datblygu "mentrau graddfa-fach" drwy sicrhau bod tir ar gael mewn neu o amgylch aneddiadau bach (tud. 79)

5.4 Mae nifer o ddogfennau polisi a rhaglen yn nodi gwahanol anghenion a buddiannau gwahanol rannau o'r Gymru wledig. Er y bydd rhai o'r mesurau sydd wedi

¹⁶ Trafodir mwy ar y symud hwn ym mhwyslais y polisi yn Adran 6.

eu cynnwys yn y cynllun yn berthnasol i 'Gymru wledig yn ei chrynswith', mae'r Cynllun Datblygu gwledig i Gymru yn nodi

na cheir unrhyw ragdybiaeth o gwbl bod y materion a nodir yn y cynllun hwn... yn unffurf berthnasol ar draws ardaloedd gwledig. Y canlyniad anorfod yw bod yn rhaid teilwra rhai o'r blaenoriaethau a'r mesurau a nodir yn y cynllun hwn i weddu i wahanol anghenion ardaloedd gwledig gwahanol yng Nghymru. (tud. 13)

5.5 Nid yw Dogfen Rhaglennu Sengl Amcan 1 i Gymru - sy'n targedu llawer o ardaloedd sy'n wledig mewn enw, er nad yw ei chanolbwynt yn gyfan gwbl wledig - yn mabwysiadu gwahaniaethu trefol gwledig syml. Mae'n dadlau bod y fath raniad yn rhy amrwd i alluogi targedi mentrau yn effeithiol, o ystyried y gwahaniaethau rhwng ac o fewn gwahanol ardaloedd gweinyddol Cymru a'r nodweddion a rennir gan la wer o gymunedau trefol a gwledig.

5.6 Yn hytrach, mae'n diffinio yn ei delerau ei hun ddau fath o isadran o fewn ardal Amcan 1 yng Nghymru: '**Cymunedau amddifad** mewn awyrgylch gwledig, trefol a'r cymoedd a fydd yn derbyn cefnogaeth benodol wedi'i thargedu yn seiliedig ar angen' a '**Chymunedau gwledig** a allai elwa ar fwyafrif yr ymyraethau cyffredinol ond y mae arnynt angen cefnogaeth benodol i fynd i'r afael â phroblemau penodol o fod yn ymylol ac i sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at y rhaglenni cyffredinol hyn' (Amcan 1 DRS, tud. 9).

5.7 Yn adlewyrchu hyn, dyfarnwyd cyllid o dan Mesur 4, Blaenoriaeth 5 o Amcan 1, a anelir at hyrwyddo, addasu a datblygu ardaloedd gwledig, i ddau brosiect mewn awdurdodau unedig 'trefol' (Caerffili a Thorfaen).

Cefnogaeth diriogaethol anghyfartal


5.8 Tra bod rhywfaint o gonsensws ar yr angen am gefnogaeth a dargedir yn benodol tuag at ardaloedd gwledig Cymru fel y cânt eu diffinio ar hyn o bryd - yn unol â thystiolaeth *Cymru Wledig: Datganiad gan y Bartneriaeth Wledig (1999)* - dosberthir y gefnogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn anghyfartal. O'r tair prif raglen a dargedwyd at adfywio cymunedau gwledig, sef LEADER +, Gweithgarwch Cymunedau Gwledig ac Erthygl 33 Cynllun Datblygu Gwledig Cymru, dim ond RCA sy'n cynnwys Cymru wledig yn ei chyfanrwydd (gweler Ffigur 6). Mae nifer gyfyngedig o wardiau yn gymwys am bob un o'r tri chynllun hyn (14 o wardiau gwledig yn Wrecsam a 6 yn Sir Fynwy), tra bod Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a rhannau gwledig bro Morgannwg yn gymwys am un cynllun yn unig.

5.9 Nid oedd LEADER +, sef prif raglen yr UE ar gyfer cefnogi datblygu gwledig, ar gael i Gymru wledig gyfan fel y'i diffiniwyd yn swyddogol gan Gyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Gwahoddwyd ceisiadau am statws LEADER + oddi wrth grwpiau yn cynrychioli ardaloedd â dwyster poblogaeth o lai na 120 o drigolion i bob cilometr sgwâr, ac eithrio'r ardaloedd hynny â

dwysedd poblogaeth o rhwng 120 a 150 o drigolion i bob cilometr sgwâr.¹⁷ Mae Dogfen Raglennu Sengl LEADER + yn cydnabod anghysondeb a chulni'r diffiniad hwn o gymharu â'r diffiniad o wledig a ddefnyddir yn rhaglenni Amcan 1 a 2 ond mae'n dadlau bod modd ei '*gyfiawnhau o ystyried natur arloesol y rhaglen a'r cyfanswm cyfyngedig o adnoddau sydd ar gael*' (LEADER + DRS, tud.19).


¹⁷ Roedd yn rhaid i'r ardaloedd a ddiffinir gan y grwpiau fod yn 'gydlynol' yn ddaearyddol, yn gymdeithasol ac yn economaidd. Mae canllawiau LEADER+ yn nodi y gellir diffinio ardaloedd "nad ydynt yn cydfynd ag ardal weinyddol genedlaethol neu ag ardaloedd a sefydlir at y pwrpas o gymhwysedd o dan Amcan 1 a 2 y cronfeydd strwythurol". Mae'r Ddogfen Raglennu Sengl ar gyfer LEADER+ yng Nghymru yn rhybuddio, fodd bynnag, y bydd grwpiau traws-ffiniol yn debygol o ddod ar draws mwy o fiwrocratiaeth.

Ffigur 6 ardaloedd partneriaeth Gweithredu dros Gymunedau Gwledig



Ffin yr Awdurdod lleol
Cartograffeg: Cynulliad Cenedlaethol Cymru
© Hawlfraint y Goron 2003


Ffigur 7 Ardaloedd LEADER II yng Nghymru



Yn seiliedig ar fap yr Arolwg Ordnans

Cartograffeg: Cynulliad Cenedlaethol Cymru
© Hawlfraint y Goron 2003

Ffigur 8 Ardaloedd LEADER + yng Nghymru



Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddata Llinellau Ffiniau Yr Arolwg Ordnans ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Swyddfa Safwerthwyr Ei Mawrhydi & Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl.

Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn tramgwyddo Hawlfraint y Goron ac fe allai arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif y Drwydded CD 272221.

Cartograffeg gan GI Services Branch, CAPM, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Aberystwyth.

© Hawlfraint y Goron 2001

5.10 Mae LEADER +, sy'n rhedeg o 2000-2006, hefyd yn cynnwys llai o lawer o'r Gymru wledig na'r ddwy raglen LEADER flaenorol, er bod llawer mwy o ardaloedd yn gymwys ar gyfer y rhaglen gyfredol, o ran egwyddor (roedd y rhaglenni blaenorol wedi'u cyfyngu i ardaloedd Amcan 1 a 5b). O'r pedwar grwp ar ddeg a wnaeth gynnig am statws LEADER+, saith yn unig a lwyddodd. Ni chyflawnodd tri grwp - wedi'u lleoli yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin a Gwynedd - a oedd wedi dal staws LEADER II, statws LEADER+. Cyflawnodd un grwp, wedi'i leoli yng Nghonwy, statws LEADER+ heb fod ganddynt statws LEADER II o'r blaen; fodd bynnag, mae'n cynnwys un ward yn unig na chafodd ei chynrychioli cyn hynny gan grwp LEADER II. Mae hyn yn gadael Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Gwynedd a Bro Morgannwg gwledig heb fynediad at y cyllid adfywio cymunedol y mae statws LEADER+ yn ei ddarparu. Mae Ffigurau 7 ac 8 yn dangos yr ardaloedd y mae rhaglenni LEADER II a LEADER+ yn eu cynnwys.

5.11 Rhoddodd y Cynulliad wybod i ymgeiswyr aflwyddiannus LEADER+ y gellid ariannu'r gweithgareddau a fyddai wedi eu hariannu gan arian LEADER+ o ffynonellau 'prif-ffrwd' eraill fel y Gronfa Adfywio Leol. Nid yw'n amlwg o gwbl, fodd bynnag, a fyddai'r arian hwnnw, os yw ar gael, yn gwneud iawn am y methiant i ennill arian LEADER+.

5.12 casglodd adroddiad (heb ddyddiad) gan y prif weithredwr i Bwyllgor Arsyllu ar Ddatblygu Economaidd awdurdod unedol Sir Gaerfyrddin bod "*colli ariannu UE... yn achosi anawsterau ariannol i'r ddau sefydliad [Antur Teifi ac ACTT, a oedd gynt yn grwpiau LEADER II] o ran eu gallu i gefnogi adfywio gwledig. Yng Ngwynedd, "Codwyd pryderon gan grwpiau lleol o ran y diffyg arweiniad penodol a chefnogaeth weinyddol ac ariannol yn dilyn colli arian LEADER+ "* (Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Partneriaeth Economaidd Gwynedd, 12 Medi 2001).

5.13 Ar hyn o bryd, mae'r gefnogaeth gyfyngedig iawn sydd ar gael o dan Erthygl 33 y Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer darparu gwasanaethau sylfaenol mewn ardaloedd gwledig ar gael yn unig i ardaloedd gwledig Dwyrain Cymru nad ydynt â statws Amcan 2 - Sir y Fflint, Sir Fynwy, Bro Morgannwg a Wrecsam. Caiff ei ymestyn i gynnwys ardaloedd trawsnewidiol Powys o 2006. Mae ei gylch gwaith gofodol cul yn ymgais i geisio unioni'r gefnogaeth diriogaethol anghyfartal ledled Cymru wledig o ganlyniad i ddyrannu cronfeydd strwythurol yr UE.

O ddatblygu gwledig i ddatblygu rhanbarthol?

5.14 Mae'r gefnogaeth a ddarperir gan raglenni a dargedwyd yn benodol tuag at ardaloedd gwledig yn un elfen yn unig o gyfanswm y gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer datblygu economaidd ac adfywio cymunedol yn y Gymru wledig. Fel a nodwyd yn y cyflwyniad, mae'n bwysig cydnabod bod mwyafrif yr ariannu cyhoeddus ar gyfer Cymru wledig yn dod drwy raglenni mewn sectorau fel iechyd, cludiant, addysg a datblygiad economaidd ehangach, a gyflwynir ar raddfa genedlaethol ac ar raddfa'r awdurdod lleol.

5.15 Ar yr un pryd, fel y nodwyd yn y bennod flaenorol, targedir rhannau sylweddol o'r Gymru wledig gan gefnogaeth sy'n seiliedig ar ardal nad yw yn benodol wledig o ran

ei ffocws. Tra bod y rhan fwyaf o'r Gymru wledig wedi ennill statws Amcan 1 neu 2, mae hyn o ganlyniad i CMC llai na'r cyfartaledd - sef nodwedd y mae'n rhannu â nifer o ardaloedd trefol diffreintiedig yng Nghymru - yn hytrach nag am ei bod yn 'wledig'. Eto, mae hyn yn pwysleisio'r nodweddion sy'n debyg rhwng ardaloedd trefol a gwledig - er, fel a drafodir uchod ac yn yr adran flaenorol - mae rhaglenni datblygu rhanbarthol yn cydnabod heriau a blaenoriaethau penodol o ran datblygu ardaloedd gwledig o fewn y rhanbarthau a dargedir.

5.16 Yn y dyfodol, mae'n fwyfwy tebygol y bydd polisiau a rhaglenni cefnogaeth ar gyfer ardaloedd gwledig Cymru yn seiliedig ar nodweddion yr ardal yn hytrach nag ar statws y label 'gwledig'. Mae *Cynllun Gofodol Cymru*, a gyhoeddwyd yn 2004, yn arwydd o fwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddilyn strategaeth datblygu gofodol i Gymru. Ar lefel strategol, mae Cynllun Gofodol Cymru yn nodi gwahanol anghenion a photensial ardaloedd ledled Cymru. Mae'n rhagweld y bydd strategaeth genedlaethol yn y dyfodol yn cymryd hynodrwydd gwahanol ardaloedd i ystyriaeth yn fwy ac yn cymhwyso dimensiwn gofodol cryfach i bolisiau a gweithredoedd.

5.17 Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gofodol (2004) yn ei gwneud yn ddyletswydd statudol ar y Cynulliad i baratoi'r Cynllun Gofodol a'i gadw o dan adolygiad. Mae hyn yn sicrhau y bydd cynllunio gofodol yn rhan annatod o waith Llywodraeth y Cynulliad ac yn ymgorffori dyletswydd gyfreithiol i awdurdodau lleol ddilyn y Cynllun Gofodol. Mae llythyr cylch gwaith 2004-5 Llywodraeth Cynulliad Cymru i Gyrrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNCau) yn nodi'r Cynllun Gofodol, ynghyd â strategaethau cymunedol awdurdodau lleol, fel "*cyfryngau allweddol*" a thrwyddynt y bydd y weledigaeth ar gyfer Cymru gyfan a osodwyd yn *Cymru: Gwlad Well* "*yn cael ei throï'n weithredoedd penodol sy'n adlewyrchu gwahanol amgylchiadau gwahanol rannau o Gymru, yn drefol ac yn wledig.*"

5.18 Mae'r Cynllun Gofodol yn nodi chwe 'rhanbarth' i Gymru sy'n cynnwys ardaloedd â nodweddion tebyg, sy'n wynebu heriau cyffredin ac sydd â chyfleoedd tebyg (a gyflwynir yn Ffigur 9). Mae'r cynllun yn pwysleisio bod potensial y rhanbarthau yn eu cyfanrwydd yn bwysicach na'r manau unigol o'u mewn. Nid oes gan y rhanbarthau ffiniau sefydlog, a bwriedir bod trawsnewidiad graddol rhwng y rhanbarthau.

5.19 Mae gan y Cynllun Gofodol oblygiadau ar gyfer polisiau a rhaglenni gwledig yn y dyfodol. Yn o leiaf ddau ranbarth, ystyrir atgyfnerthu cysylltiadau rhwng trefi ac ardaloedd gwledig yn flaenoriaeth. Yn Nrafft Ymgynghorol y Cynllun Gofodol (2003), ystyrir bod y trefi marchnad yn hanfodol i'r cysylltiad hwn, ac fe'u nodir fel targedau posibl ar gyfer cefnogaeth benodol: "*Mae rhwydwaith o bentrefi a chymunedau gwledig yn edrych tuag at y trefi marchnad hyn i ddarparu anghenion gwasanaethau sylfaenol gyda gwasanaethau allweddol eraill, fel ysbytai, yn cael eu darparu mewn ardaloedd cyfagos*". Yn y cynllun terfynol, fodd bynnag, dilëwyd y cyfeiriad hwn.


5.20 Yn yr un modd, mae menter y Persbectif Datblygu Gofodol Ewropeaidd (ESDP), a roddodd i gynllunio gofodol yng Nghymru lawer o'r momentwm, yn hyrwyddo cryfhau'r bartneriaeth a manteisio ar y 'synergedd' posibl a'r rhyngddibyniaeth rhwng

ardaloedd trefol a gwledig. Mae'r ESDP yn cefnogi datblygu 'lluoscanolog', yn hytrach na'r ddeuliaeth craidd-cyrion sydd yn draddodiadol wedi bod yn nodweddu llawer o bolisi rhanbarthol Ewropeaidd. Mae'r fethodoleg ofodol yn ceisio cyflawni datblygu cynaliadwy a gwasgariad mwy cyfartal ar y twf ar draws tiriogaeth. Nid yw'r ymagwedd hon yn ceisio safoni'r hunaniaethau lleol a rhanbarthol, gan gydnabod bod gan wahanol ardaloedd wahanol anghenion a photensial. Yn hytrach, mae'n ceisio 'teilwra' ymagweddau ar sail ddaeryddol er mwyn cyflawni amcanion cyffredin tra'n cymryd amrywiaeth leol i ystyriaeth. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i benderfyniadau a pholisïau gydlyn materion sector a gofodol, fel materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a chluant.

5.21 Mae llawer o CCNCau (ASPB) yn strwythuro ei gweithrediadau daeryddol ar sail ranbarthol. Mae gan y WDA, CCW ac ELWa swyddfeydd rhanbarthol sy'n gweithredu ar draws ardaloedd gwledig a threfol. Mae Bwrdd Croeso Cymru wedi cefnogi sefydlu pedwar Partneriaeth Twristiaeth Rhanbarthol yn seiliedig ar bedwar rhanbarth economaidd Cymru a ddiffiniwyd eisoes gan y pedwar fforwm datblygu economaidd -Partneriaeth Canolbarth Cymru, Fforwm Economaidd Gogledd Cymru, Fforwm Economaidd De-Ddwyrain Cymru a Fforwm Economaidd De-Orllewin Cymru. (Mae Blwch 5.1 yn rhoi manylion am Ardaloedd Twf Twristiaeth BCC sy'n gweithredu ar y raddfa leol.)

5.22 Mae'r ymagwedd ofodol 'integredig' yn cydnabod bod pwysau, gweithredoedd ac atebion gwledig yn rhan o rwydwaith ehangach o sectorau, gweithredwyr a gofodau, a'r angen i weithredu ar draws beth a allai fod yn ffiniau sector a swyddogaethol mympwyol. Yr awgrymiad, a gyfleir o leiaf, yw ei bod yn anodd - ac efallai nad yw'n ddymunol - i bolisïau a rhaglenni ystyried Cymru wledig fel 'cynhwysydd gofodol' statig, wedi'i ynysu oddi wrth y tirluniau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ehangach y mae'n rhan ohonynt.

Ffigur 9 Y Persbectif Gofodol Cenedlaethol fel y caiff ei amlinellu yng Nghynllun Gofodol Cymru (2004)



Blwch 5.1 Ardaloedd Twf Twristiaeth

Mae BCC hefyd wedi mabwysiadu ymagwedd leol yn hytrach nag ymagwedd wledig-drefol yn ei fenter Ardaloedd Twf Twristiaeth (TGA). Tra bod 10 o'r 15 TGA a ddynodwyd yn cynnwys lleoliadau sy'n wledig yn bennaf, nid yw'r un ohonynt yn ardaloedd gwledig *per se*. Bwriedir i'r rhaglen gyfrannu at wireddu gweledigaethau a osodwyd yn strategaeth dwristiaeth genedlaethol Cymru *Cyflawni Ein Potensial* (a gyhoeddwyd yn 2000) a'r pedair strategaeth dwristiaeth ranbarthol.

Adfywio lleol

5.23 Ynghyd â'r ymagwedd ranbarthol i ddatblygu, mae'r llunwyr polisi yng Nghymru yn rhoi pwyslais cynyddol ar dargedu ardaloedd lleol penodol ar gyfer adfywio.

5.24 Yn fwyaf cyffredin, targedir ardaloedd ar sail amddifadedd cymharol. Y goblygiad yw bod tirlun cymdeithasol ac economaidd Cymru wledig mor amrywiol â gweddill Cymru, yn hytrach na gofod unedig unffurf. Ceir pwyslais ar anghenion a blaenoriaethau lleoliadau a chymunedau penodol, yn hytrach na thybiaeth gyffredinol o angen - neu ddiffyg angen - ar sail a yw lleoedd mewn ardaloedd 'trefol' neu 'wledig'.

5.25. Mae'r egwyddor hon yn fwyaf amlwg yn rhaglen adfywio cymunedol flaenllaw y Cynulliad, sef Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r rhaglen wedi'i thargedu at y can ward mwyaf difreintiedig yng Nghymru, a ddiffiniwyd yn ôl y Mynegai Amlamddifadedd. Yn ogystal, gwahoddir cynigion oddi wrth gymunedau ar lefel yr is-ward oddi wrth ardaloedd awdurdodau lleol nad oes ganddynt yr un ward ymhlith y can mwyaf difreintiedig o fewn eu ffiniau. Nid yw cymhwyster ar gyfer y rhaglen yn amodol ar statws 'gwledig' neu 'drefol', a thargedwyd cymunedau gwledig a threfol fel ei gilydd.

5.26 Ar yr un pryd, mae rhywfaint o'r arian datblygu ac adfywio sydd ar gael yn benodol ar gyfer ardaloedd gwledig yn cael ei dargedu ar yr ardaloedd hynny nad ydynt yn gymwys ar gyfer statws Amcan 1 a 2 ond sydd yn dal i wynebu anawsterau llym. Er enghraifft, mae'r gefnogaeth sydd ar gael yn ôl Erthygl 33 y Cynllun Datblygu Gwledig, ar gael i gymunedau gwledig yn Nwyrain Cymru yn unig, ac mae'r gefnogaeth wedi'i chyfyngu i brosiectau y bernir y byddant "*yn cefnogi prosiectau a arweinir gan y gymuned sy'n ehangu'r mynediad at wasanaethau prif-ffrwd ar gyfer yr economïa'r boblogaeth wledig neu gymunedau ymylol*", yn enwedig y rheiny "*a all fynd i'r afael ag agweddau o allgau cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig mwy ynysig neu ddarparu gwasanaethau sy'n annog entrepreneuriaeth*". Darperir y gefnogaeth ar gyfer darparu neu wella gwasanaethau yn rhannau eraill y Gymru wledig yn bennaf drwy ddatblygu cymunedol ehangach a mentrau adfywio.

5.27 Yn yr un modd, bwriedir i'r Rhaglen Adwerthu Gwledig, a weinyddir gan y WDA, gynorthwyo'r ardaloedd neu'r cymunedau hynny sy'n wynebu'r problemau mwyaf llym o ran naill ai diffyg gwasanaethau adwerthu sylfaenol neu fygythiad i'r wasanaethau adwerthu sylfaenol presennol. Nod y rhaglen yw gwella cynladwyedd

busnesau presennol, annog ailgyflwyno cyfleusterau adwerthu i ardaloedd lle y'u collwyd, a chynnal neu wella'r gwasanaethau y mae busnesau o'r fath yn eu darparu. Fe'i cyfyngir i gymunedau lle ceir naill ai dim ond un gwasanaeth ar ôl, neu ddim gwasanaeth o gwbl, neu lle mae nifer fach o wasanaethau i gyd mewn perygl o gau, ac yn cefnogi darparu 'gwasanaethau sylfaenol a hanfodol' yn unig. Rhoddir blaenoriaeth i drefi a phentrefi llai, lle y credir y bydd yr angen am wasanaethau sylfaenol ar ei fwyaf llym a lle y mae busnesau yn lleiaf tebygol o dderbyn cefnogaeth o ffynonellau eraill.

5.28 Mae'r WDA yn gynyddol fabwysiadu ymagwedd 'blwch offer' at adfywio cymunedol ledled Cymru. Mae'n cynnig ystod o fesurau cefnogaeth, gan gynnwys ariannu cyfalaf a refeniw, y gellir ei deilwra tuag at anghenion cymunedau penodol. Daw hyn yn lle'r Fenter Trefi a Phentrefi Bach (STVEI) - a ddaeth yn lle Menter Trefi Marchnad Bwrdd Datblygu Cymru Wledig (BDCG) - a ddatblygodd yr Awdurdod yn 2000 i dargedu adfywio cymunedol.

Mae'r Awdurdod [WDA] yn sefydliad Cymru gyfan sy'n gryf o blaid y ddarpariaeth leol. Ac felly, mae gennym set o bolisiau, rhaglenni ac offer, i gefnogi busnesau ac i gefnogi busnesau ac unigolion, y byddwn yn eu defnyddio yn null blwch offer, i gymysgu a chydweddu yn y ffordd fwyaf priodol er mwyn cyflawni yn ôl y cynlluniau ar gyfer y lleoliadau sy'n cael blaenoriaeth gennym. (Gareth Hall, Prif Weithredwr, WDA)

5.29 Mae symud oddi wrth dargedu naill ai'r Gymru wledig neu'r Gymru drefol i dargedu ardaloedd lleol penodol yn fwy strategol, waeth beth yw eu dosbarthiad trefol/gwledig, yn amlwg ym mholisi ehangach y WDA. Mae ei Gynllun Busnes ar gyfer 2004-7 yn nodi: "Wrth bennu dyraniad y gyllideb ar gyfer gweithgareddau adfywio cymunedol trefol a gwledig ar gyfer Blwyddyn 1 y Cynllun, fe gydnabuom ni fod angen ymagwedd fwy strategol ar gyfer y blynyddoedd dilynol." Mae'r WDA yn paratoi Strategaeth Adfywio Cymru gyfan a fydd yn nodi "lleoliadau a gaiff flaenoriaeth ar gyfer buddsoddiad yn y dyfodol" (tud.60).

5.30 Nid yw LEADER+ yn targedu angen yn benodol. Cyfyngwyd ceisiadau ar gyfer LEADER a LEADER II i grwpiau a gynrychiolai ardaloedd gwledig 'difreintiedig' (â statws Amcan 1 neu 5b), gwahodddwyd ceisiadau ar gyfer Grwpiau Gweithredu Lleol ar gyfer rhaglen LEADER+ 2000-2006 yng Nghymru o'r holl ardaloedd â dwysedd poblogaeth o lai na 120 o drigolion y cilometr sgwar, waeth beth fo'u statws Amcan 1 ac Amcan 2. Rhodddwyd statws LEADER+ i saith grwp ar sail arloesedd cymharol, ansawdd a chynnwys y ceisiadau (a oedd ar ffurf strategaethau datblygu ardal leol), yn hytrach nag yn unol ag amddifadedd cymharol yr ardal yr oeddent yn ei chynrychioli (gweler Ffigur 8)

5.31 Yn yr un modd, mae rhaglen flaenllaw y Cynulliad ar gyfer adfywio cymunedol gwledig, Gweithredu dros Gymunedau Gwledig, ar gael ledled y Gymru wledig. Gwneir dyfarniadau ar yr un sail â LEADER+ - sef arloesedd ac ansawdd y ceisiadau.

5.32 Mae gallu grwpiau lleol i wneud ceisiadau am arian wedi dod yn gynyddol bwysig wrth lunio'r tirlun cefnogaeth ar gyfer datblygu cymunedau gwledig yng Nghymru, fel y mae'r adran nesaf yn ei drafod.

Crynodeb y bennod

Polisiau a rhaglenni gwahanol ar gyfer cefn gwlad gwahaniaethol Cymru Mae brithwaith cymhleth o raglenni sy'n effeithio ar y Gymru wledig. Mae'r brithwaith hwn yn cynnwys rhaglenni sy'n berthnasol i Gymru gyfan, rhaglenni sydd ar gael ledled y Gymru wledig, rhaglenni sy'n targedu ardaloedd gwledig penodol a mentrau sector sy'n cynnwys ardaloedd gwledig. Ceir hefyd raglenni datblygu rhanbarthol sy'n cynnwys ardaloedd gwledig a threfol, ond sydd ag effaith benodol ar ardaloedd gwledig. Mae hyn yn arwain at wasgariad anghyfartal iawn ar y gefnogaeth ar draws ardaloedd gwledig Cymru. Caiff rhai ardaloedd eu cynnwys mewn ystod eang o raglenni; mae eraill yn gymwys am gefnogaeth fwy cyfyngedig.

Ategir targedu ardaloedd gwledig - ac i ryw raddau, ei gymhlethu - gan y pwyslais cynyddol ar ddatblygu gofodol yng Nghymru. Mae datblygu gofodol yn canolbwyntio llai ar y gwahaniaethau rhwng ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol, a mwy ar yr anghenion a'r cyfleoedd a rennir gan wahanol fannau a'r cysylltiadau sydd rhyngddynt. Mae'r fethodoleg ofodol yn fwyaf amlwg yn *Cynllun Gofodol Cymru*, a fydd yn gynyddol lywio polisi datblygu.

Ceir hefyd symudiad tuag at raglenni sydd yn canolbwyntio ar adfywio ar raddfa'r gymuned, yn targedu anghenion a blaenoriaethau a ddiffinnir yn lleol. Mae rhai o'r rhain, fel Cymunedau yn Gyntaf, wedi eu cyfyngu i'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae eraill, fel Gweithredu dros Gymunedau Gwledig, Blwch Offer Adfywio Cymunedol y WDA a LEADER+ yn blaenoriaethu ansawdd y cynigion yn hytrach na'r amddifadedd cymharol.

ADRAN 6

HAU HADAU AR LEFEL Y GYMUNED

Mae'r bennod hon yn amlinellu datganoli pŵer a chyfrifoldeb dros ddatblygu ac adfywio cymunedol yn y Gymru wledig. Yn benodol, mae'r bennod hon yn ystyried:

- Datganoli'r pŵer o lywodraeth genedlaethol i lywodraeth leol
- Rôl y sector anstatudol yn y Gymru wledig
- Partneriaeth ar y lefel leol
- Grymuso cymunedol ac adeiladu gallu

Rhoddir crynodeb o'r drafodaeth ar ddiwedd y bennod (tud.76).

6.1 Yng Nghymru, fel mewn manau eraill yn Ewrop, mae'r llywodraeth ganolog yn rhoi'r gorau i'r syniad y gall lywodraethu'r diriogaeth leol ym mhob ffordd. Mae'n ymbellhau oddi wrth yr egwyddor a'r ymarfer o gyflwyno lles yn gyffredinol, a oedd yn sail i'r consensws ar ôl y rhyfel. Yn hytrach, ceir pwyslais ar amrywiaeth y tirlun cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol yng Nghymru, a'r angen i fynd i'r afael â'r amrywiaeth hon drwy ganolbwyntio ar anghenion a blaenoriaethau a ddiffinnir ar y lefel leol¹⁸.

6.2 Dros y deng mlynedd diwethaf, mae hyn wedi dod cyn amlyced mewn polisi gwledig ag y mae mewn manau eraill. Fel yr ysgrifenna Murdoch, mewn ymateb i'r Papurau Gwynion gwledig cyntaf ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban:

At ei gilydd, ymddengys fel petai llywodraeth ganolog yn ceisio ymbellhau oddi wrth rôl reolaethol; nid yw bellach yn ceisio llywio'r economi gwledig (amaethyddol ac anamaethyddol) yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol (fel cynnydd mewn cynhyrchu bwyd domestig) ac mae yn awr yn cymryd llai o gyfrifoldeb o lawer am ddarparu lles a gwasanaethau yn y cylch cymdeithasol¹⁹.

6.3 Elfen allweddol o'r ymagwedd hon yw pwyslais ar weithio ar y cyd rhwng gwahanol raddfeydd, sectorau a buddiannau. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud hyn yn glir yn ei hagenda strategol ar gyfer yr ail dymor, *Cymru: Gwlad Well*.

Mae cyflawni ein gweledigaeth yn gofyn am gyfranogaeth weithredol gan holl rannau'r gymdeithas... Ni allwn gyflawni unrhyw beth wrth weithio ar ein pennau ein hunain. (tud.11)

Awdurdodau lleol: y pŵer i hyrwyddo lles

6.4 Mae mentrau yng Nghymru yn gynyddol gael eu datganoli o'r llywodraeth genedlaethol i'r lefel leol. Mae'r ddau awdurdod unedol ar hugain yng Nghymru yn

¹⁸ Gweler *Cymru: Gwlad Well: Agenda Strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru*, mis Medi 2003; Blair, T. a Schroeder, G. (1999) *Europe: The Third Way/ Die Neute Mitte* (www.eurozoneadvisors.com/reports4/schroeder-blair0609.pdf)

¹⁹ Murdoch, J. (1997) The shifting territory of government: some insights from the rural White Paper, *Area*, 29, tt. 109-118

cyfrif am ymhell dros draean gwariant cyhoeddus Cymru (CLILC, 2004). Cyfanswm y gwariant refeniw gros a gyllidebwyd ar gyfer awdurdodau lleol ar gyfer 2004-5 yw £5.7 biliwn, sef cynnydd o 11.8% ers 2003-2004 Fel y cydnabu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn *Cymru: Gwlad Well*, mae'r awdurdodau felly yn weithredwyr allweddol mewn gwella lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cymru ar raddfa leol a chenedlaethol:

Byddwn yn cydweithio â llywodraeth leol, nid yn unig i gyflwyno blaenoriaethau cenedlaethol ac atebion lleol, ond hefyd i wreiddio'r gwerthoedd hyn [o bartneriaeth] ym mhob lefel o lywodraeth yng Nghymru. (tud.11)

6.5 Ariennir awdurdodau unedol drwy gyfuniad o drethi lleol, Trethi Annomestig²⁰ a Chefnogaeth Refeniw oddi wrth y Cynulliad. Yn 2003-2004, roedd y refeniw a enillwyd drwy drethi lleol yn cyfrif am 19% o holl refeniw'r llywodraeth leol ledled Cymru.²¹ Pennir gwerth y Grantiau Cynnal Refeniw (RSG) a ddyrennir gan y Cynulliad i bob awdurdod lleol gan y swm y mae ei angen ar awdurdodau i roi lefel sylfaenol o wasanaethau. Cyfrifir hyn yn ôl yr Asesiad o Wariant Safonol (SSA).

6.6 Mae saithdeg dau o ddangosyddion yn adlewyrchu nodweddion demograffig, ffisegol, economaidd a chymdeithasol pob ardal yn dylanwadu ar yr Asesiad o Wariant Safonol ar gyfer pob awdurdod lleol. Mae'r rhain yn seiliedig ar angen, poblogaeth a mesurau o amddifadedd a pha mor wledig ydynt. Y nod yw cyflawni safon gyffredin o ddarpariaeth gwasanaethau ar draws yr holl awdurdodau.

6.7 Ym 1999, comisiynodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru adolygiad annibynnol o'r Asesiadau o Wariant Safonol. Ymc hwiliodd hwn i ba raddau yr oedd y dangosyddion a ddefnyddiwyd i fesur pa mor denau oedd y boblogaeth yn adlewyrchu'n gywir 'y pwysedd o ran cost sy'n gysylltiedig â chyflwyno gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig'. Nododd yr adolygiad fod amrywiaeth 'na fedrir mo'i hosgoi' yng nghost-yr-uned darparu'r gwasanaeth mewn rhai achosion. Ystyriwyd bod dau fesur yn arbennig o berthnasol:

- **Trothwy gwasgariad** – dyluniwyd i gyfrif am gostau o ganlyniad i'r amser a'r pellter ychwanegol sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau i gymunedau gwasgaredig.
- **Trothwy anheddiad** – y boblogaeth y *tu allan* i aneddiadau o 1,000; 7,500; 12, 500; 30,000 a 40,000 a'r boblogaeth o *fewn* aneddiadau o 50,000.

6.8 Fel y dangosir yn Ffigur 10 (tros y dudalen), mae gan y naw awdurdod unedig 'gwledig yn bennaf' yng Nghymru, Grant Cynnal Refeniw y pen sydd yn uwch na'r cyfartaledd na'r lefelau cymedrig ar gyfer Cymru gyfan. Ar yr un pryd, mae'r Gymru wledig yn derbyn llai o gefnogaeth y pen na'r Cymoedd, gan adlewyrchu sgorau uwch y Cymoedd ar yr indecsau amddifadedd.

²⁰ Mae pob busnes yn talu **Trethi Annomestig (NDR)**. Telir y trethi i bwl canolog, a weinyddir gan y Cynulliad Cenedlaethol ac yna eu hailddosbarthu i gynghorau ac awdurdodau'r heddlu. Mae'r symiau a dderbynnir gan yr awdurdodau yn cael eu cyfrif yn unol â phoblogaeth breswyl yr AU sy'n 18 oed ac yn hyn, fel cyfran o boblogaeth Cymru, sy'n 18+ oed. Yng Nghymru, cyfanswm yr NDR ar gyfer 2003-2004 y gellir ei ddosbarthu oedd £660 miliwn, yr oedd 90% wedi ei neilltuo i gynghorau (594 miliwn)


²¹ *Ystadegau Llywodraeth Leol Cymru 2003*, Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2003

6.9 Yn dilyn Deddf Llywodraeth Leol 2000, mae gan bob awdurdod lleol y pŵer i hyrwyddo neu wella lles yn eu hardal leol. Mae 'lles' yn cyfeirio ar les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Gallid ymarfer y pŵer hwn mewn perthynas ag ardal gyfan yr awdurdod lleol, rhannau o'r ardal honno, yr holl bobl yn yr ardal neu bobl benodol yn yr ardal honno. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn paratoui Strategaeth Gymunedol ar gyfer hyrwyddo lles yn yr ardal leol a chyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy y DU.

6.10 Mae *Polisi Cynllunio Cymru 2002* yn rhoi'r cyfrifoldeb ar gyfer cynhyrchu strategaethau datblygu gwledig integredig ar awdurdodau unedol yn hytrach nag ar naill ai LICC neu'r CCNCau (ASPB).

Mewn ardaloedd gwledig, dylai'r awdurdodau lleol baratoi strategaeth datblygu gwledig integredig i hwyluso arallgyfeirio'r economi wledig...mae'n rhaid i Ran 1 yr UDP... ar gyfer ardaloedd gwledig, osod strategaeth datblygu gwledig integredig ar gyfer datblygu newydd, yn seiliedig ar egwyddorion datblygu cynaliadwy ac wedi'i theilwra i asedau ac anghenion penodol yr ardal. (tt. 80-81)

Ffigur 10: Grant Cynnal Refeniw y pen



6.11 Mae CLILC hefyd wedi nodi “*rôl ganolog a strategol*” awdurdodau lleol wrth ddiwallu anghenion ardaloedd gwledig yng Nghymru.

*Mae awdurdodau lleol yn ganolog i ddatblygiad gwledig cynaliadwy... Mae ganddynt rôl fawr i'w chwarae wrth osod yr agenda strategol drwy asesu anghenion gwledig a thrwy helpu cymunedau gwledig i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau fel eu bod mewn gwirionedd yn adlewyrchu materion lleol.*²²

6.12 Yn 2001, trefnodd awdurdod unedol Gwynedd gynhadledd a fynychwyd gan drawstoriad eang o unigolion a oedd yn byw a/neu'n gweithio mewn cymunedau gwledig i “*edrych yn fanylach ar ein cymunedau gwledig ac i ddatblygu awgrymiadau ymarferol ar gyfer gwella*”. Mae adroddiad y gynhadledd, *Byw yn y Wlad*, yn cynnwys set o gynigion ar gyfer awdurdodau lleol, LICC ac CCNCau o ran datblygu ac adfywio gwledig, ac mae'n nodi yn ystod y gynhadledd y “*Galwyd ar yr holl gyrff cyhoeddus a oedd yn gweithredu yn y Gymru wledig i gydweithio i greu un strategaeth gref a all ddod â hyder a ffyniant yn ôl i gymunedau gwledig*” (ni rifwyd y tudalennau).

6.13 Fel a nodwyd yn Adran 3, dim ond dau awdurdod unedol sydd wedi cynhyrchu cynlluniau datblygu gwledig integredig. Fodd bynnag, mae nifer o awdurdodau wedi cefnogi mentrau lleol sydd yn canolbwyntio'n benodol ar gefnogi buddiannau mewn ardaloedd gwledig. Mae'r rhain yn cynnwys cymorth busnes a datblygu cymunedol ehangach, y rhoddir manylion rhywfaint ohonynt ym Mlwch 6.1 (trosodd).

6.14 Ceir consensws ymysg llywodraeth leol, bod yn rhaid rhoi mwy o gyfrifoldeb a rhyddid ariannol i Awdurdodau Unedol er mwyn ymateb yn effeithiol i angen lleol ac i ddylanwadu ar lywodraethu ehangach. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu mwy o ryddid a hyblygrwydd ar y lefel leol. Nid yw'r un rhan o'r Grant Cynnal Refeniw (RSG) o £2,422 miliwn a roddir i'r awdurdodau lleol wedi'i neilltuo.

6.15 Cefnogodd Edwina Hart, yn ei swydd flaenorol fel y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau, yr hyblygrwydd hwn ar gyfer awdurdodau unigol ym mis Ionawr 2001:

*Nid fy rôl i ydyw dweud wrth gynghorau ac awdurdodau'r heddlu beth y dylent ei wneud â'u harian: rwy'n paratoi'r ffordd iddynt gael gwneud y penderfyniadau hyn drostynt eu hunain drwy roi'r gefnogaeth briodol oddi wrth y Cynulliad er mwyn i hyn allu digwydd...Rwyf am ei gwneud yn glir nad yw adnoddau setliad refeniw yn cael ei neilltuo gan y Cynulliad ar gyfer unrhyw bwrpas penodol*²³.

6.16 Mae datganoli i raddfa'r awdurdod lleol hefyd yn amlwg o fewn polisi iechyd. Ym mis Ebrill 2003, sefydlwyd dau ar hugain o Fyrddau Iechyd Lleol yng Nghymru,

²² *Y Dyfodol i'r Gymru Wledig* CLILC, 1998

²³ Osmond, J. (gol.) *The Economy takes centre stage: monitoring the National Assembly for Wales December 2000 to March 2001* Sefydliad Materion Cymreig, mis Mawrth 2001, tud. 54

gan gymryd lle'r pum awdurdod iechyd a oedd yn gwasanaethu Cymru o'r blaen. Mae'r rhain yn derbyn tua thri chwarter cyllideb y GIG yng Nghymru. Maent yn cyd-fynd ag ardaloedd awdurdodau lleol ac fe'u sefydlwyd ar y sail bod gan wahanol ardaloedd o Gymru wahanol anghenion a blaenoriaethau. Roedd Jane Hutt, yn ei swydd flaenorol fel y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn rhagweld y Byrddau Iechyd Lleol fel dull o ddarparu atebion lleol i broblemau lleol. Bwriedir i'r Byrddau ei gwneud yn bosibl i'r GIG weithio'n fwy agos gyda'r cynghorau lleol - ceir dyletswydd statudol iddynt gydweithio - yn ogystal â chreu partneriaeth gryfach â sefydliadau lleol eraill ar gyfer gwella gofal iechyd a chymdeithasol.

6.17 Nododd adroddiad yn 2001 fodd bynnag, rywfaint o anesmwythyd ar y lefel leol o ran dyrannu arian:

*Roeddent hwy [yr awdurdodau unedol] yn llai hapus... bod rhai Gweinidogion wedi ysgrifennu at eu partneriaid mewn llywodraeth leol i roi syniad o ddisgwyliadau'r Cynulliad am fwy o wariant ar y setliad cyffredinol ar wasanaethau penodol. Meddai llefarydd Plaid Cymru ar lywodraeth leol, Janet Ryder, 'roedd yr effaith ar awdurdodau lleol yn ddifrifol, a theimlai llawer ohonynt eu bod wedi cael eu gorchymyn, unwaith eto, sut i ddyrannu eu cyllidebau. Ymddangosai iddynt hwy fel ffurf arall eto ar wystlo.'*²⁴

6.18 Yn ymarferol, mae blaenoriaethau'r Cynulliad yn dylanwadu o hyd ar rai rhaglenni sy'n gweithredu ar lefel leol o ganlyniad i gyfrifoldebau statudol awdurdodau lleol a'r ffrydiau ariannu y maent yn dibynnu arnynt. Mae ar awdurdodau lleol ddyletswydd, nid yn unig i gyrraedd nodau polisi eang LICC ond hefyd i gyflwyno, hwyluso neu weinyddu rhaglenni penodol LICC, CCNC a'r UE. Mae Blwch 6.2 (trosodd) yn rhoi enghraifft o raglen genedlaethol sy'n amrywio ledled Cymru yn unol â blaenoriaethau'r awdurdod unedol.

6.19 Mae Cyngor Partneriaeth Statudol 1998, a grëwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn hyrwyddo cydweithio a chydweithredu rhwng y Cynulliad cenedlaethol a llywodraeth leol. Mae LICC a CLILC wedi creu set o flaenoriaethau polisi ar y cyd sy'n amlinellu blaenoriaethau a rennir i gyflawni newid ar y lefel leol. Mae'r rhain yn adlewyrchu ymrwymiad a rhyngweithio ar y cyd rhwng llywodraeth leol a llywodraeth genedlaethol. Sef:

1. Gwell cyfleoedd ar gyfer dysgu
2. Economi well, gryfach
3. Gwell iechyd a lles
4. Gwell ansawdd o fywyd
5. Llywodraeth well, symlach

Bu beirniadaeth, fodd bynnag, fod y blaenoriaethau yn annelwig ac yn hollgynhwysol

²⁴ Ibid

Blwch 6.1 Mentrau cymorth busnes a chymuned awdurdodau unedol

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, fel rhan o'i raglen adfywio gwledig ehangach, a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2003, yn gweithredu Canolfan Datblygu Busnes Gwledig a Chynllun Cefnogi Busnes Gwledig. Mae'r Ganolfan Datblygu Busnes Gwledig, sydd yn agored i fusnesau newydd a sefydledig yn yr ardal leol, yn cynnig cyngor cyffredinol ar gymorth grant a chefnogaeth arall sydd ar gael i fusnesau yn y sir a chyngor penodol sydd wedi'i deilwra i anghenion busnesau unigol penodol. Mae'n gweithredu fel rhan o wasanaeth mwy cyffredinol Llygad Busnes yn Sir Gaerfyrddin, ac mae'n ychwanegol at y gefnogaeth datblygu busnes a gynigir gan Adran Datblygu Economaidd y cyngor. Derbyniodd y Ganolfan £860,000 o Ariannu Amcan 1 ac Adfywio Lleol. Mae Cynllun Cefnogi Busnes Gwledig, a ariennir hefyd gan arian Amcan 1, yn cynnig cymorth grant ar gyfer dechrau busnes, hyrwyddo busnes a marchnata cynnyrch, gyda chefnogaeth benodol wedi'i thargedu tuag at sectorau busnes penodol, yn bennaf bwyd-amaeth a thwristiaeth. Mae cyfanswm o £450,000 o arian grant ar gael dros gyfnod 2003-2008.

Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin hefyd wedi datblygu'r fenter Hyrwyddo Busnesau Cymuned Wledig, sydd wedi'i anelu at gefnogi'r hyn a elwir yn 'fentrau cymdeithasol' - sef sefydliadau sy'n gweithredu yn gystadleuol yn y farchnad economaidd, ond sy'n defnyddio unrhyw elw er budd ei gyflogeion, defnyddwyr neu'r gymuned ehangach lle y mae wedi'i leoli. Mae'r Cyngor yn cynnig cymorth grant ar gyfer astudiaethau dichonoldeb i'r potensial o sefydlu busnes cymunedol newydd ac ar gyfer ehangu neu addasu busnes cymunedol presennol (hyd at 100%, hyd at gost o £3,000) a grantiau cyfalaf ar gyfer clirio'r safle, costau adeiladu/ trosi/ ehangu a garddlunio (hyd at 75% hyd at gost uchaf o £10,000. Mae'n rhaid i fusnesau gyflogi neu fwriadu cyflogi llai na 50 o staff. Nod y fenter yw *'helpu cymunedau dan anfantaes drwy greu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant a darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion lleol'* (Cyngor Sir Caerfyrddin, dim dyddiad).

Mae Wrecsam wedi dechrau cynllun cymorth grant i gynorthwyo brosiectau mewn ardaloedd gwledig a all ddangos y byddant o fudd i'r economi, yr amgylchedd a/neu ddatblygu cymunedol. Mae'n rhaid i brosiectau fod wedi'u lleoli *"y tu allan i'r dref"*. Dyfernir rhwng £1,000 a £6,000 - ar sail ddewisol - i gefnogi gwariant cyfalaf ond nid costau rhedeg; gellir dyfarnu hyd at 100% o'r costau, ond anogir ariannu cyfatebol. Ariennir y cynllun gan Gronfa Adfywio Lleol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n rhedeg o fis Ebrill 2002 i fis Ebrill 2005.

Mae Sir Fynwy yn rhedeg sinema deithiol ar gyfer cymunedau gwledig *"gyda'r offer sinema diweddaraf sy'n rhoi delweddau digidol a sain o bob cyfeiriad sydd gystal â'r profiad a gynigir mewn sinemâu traddodiadol"*. Gwahoddir cymunedau i gofrestru eu neuadd bentref ar gyfer y cynllun. Mae pwyllgorau'r neuaddau yn penderfynu ar ddyddiadau ar gyfer nosweithiau sinema ac mae Cyngor Sir Fynwy yn cyhoeddi rhestrau ffilmiau i'r gymuned ddewis ffilm drwy ffurflenni pleidleisio mewn manau yn y gymuned (enwir siopau a thafarndai). Mae'r holl elw yn mynd yn uniongyrchol i neuadd y pentref.

Yn 2003, comisiynodd awdurdod cymunedol Conwy astudiaeth gwmpasu, a ariennir ar y cyd rhwng y cyngor a'r WDA, i bennu'r galw a'r angen am ganolfan adnoddau gwledig yng Nghonwy a fyddai'n canolbwyntio'n benodol ar anghenion busnesau a ddeilliai o'u lleoliad gwledig. Mae'n cefnogi, fel aelod o bartneriaeth wledig Conwy, adeiladu canolfan datblygu gwledig a fyddai'n darparu gwasanaethau cefnogi busnes, sef gwasanaeth gwybodaeth cyffredinol a man arddangos a pherfformio ar gyfer cymunedau lleol. Ers 2000, mae wedi ariannu cynllun grantiau bach at ddiben offer TG i ffermydd.

Mae Awdurdod Unedig Ynys Môn, fel rhan o Fforwm Economaidd Gogledd Cymru, wedi ariannu ymchwil i anghenion hyfforddiant busnesau lleol. Mewn cydweithrediad ag awdurdod unedol Gwynedd a Phrifysgol Cymru, Bangor, mae hefyd wedi ariannu ymchwil i all -fudo gwledig.

Blwch 6.2 Rhyddhad Trethi

Er mis Ebrill 1998, bu rhaglen o ryddhad gorfodol oddi wrth drethi ar gyfer busnesau bach yng nghymunedau bach gwledig Cymru. Mae hyn wedi cymryd lle'r rhyddhad, dewisol blaenorol oddi wrth drethi y gallai awdurdodau unedol ei gynnig i siopau cyffredinol a swyddfeydd post. Mewn rhai ardaloedd, mae ffurf ar ryddhad dewisol wedi parhau, gydag awdurdodau unedol yn ategu rhyddhad ardrethi gorfodol drwy gynnig rhyddhad ardrethi ychwanegol i fusnesau gwledig sy'n darparu gwasanaethau lleol gwerthfawr.

Er enghraifft, mae awdurdodau unedol Sir Gaerfyrddin a Cheredigion yn gwahodd ceisiadau am ryddhad oddi wrth drethi sy'n werth hyd at 50% ar gyfer 'busnesau sy'n darparu cyfleuster pwysig i'r gymuned leol, a nhw yw'r unig un o'u math yn yr aneddiad', naill ai i ychwanegu at ddyfarniad o leihad o dan y cynllun ryddhad gorfodol neu i gynorthwyo busnesau nad ydynt yn gymwys o dan y cynllun hwnnw. Mae'r cymorth ychwanegol hwn ymhell o fod yn gyffredinol, fodd bynnag, ac felly mae'n debygol y bydd gwahaniaethau sylweddol rhwng ardaloedd awdurdodau lleol o ran pa mor ddeniadol yw'r cymunedau gwledig llai ar gyfer sefydlu busnesau bach - gan gynnwys y rheiny sy'n darparu gwasanaethau craidd - a pha mor debyg yw hi y bydd busnesau gwledig sefydledig yn y cymunedau hynny yn aros yn hyfyw.

Mae busnesau sy'n unig swyddfa bost neu siop gyffredinol (diffinnir siop gyffredinol yn y cyd-destun hwn fel siop sy'n gwerthu bwyd a nwyddau i'r ty yn bennaf) mewn anheddiad gwledig â phoblogaeth o lai na 3,000 wedi'u heithrio rhag ardrethi yn gyfan gwbl. Er mis Ebrill 2002, mae gorsafodd petrol, tafarndai a fferyllfeydd â gwerth ardrethol heb fod yn fwy na £9,000 a safleoedd annomestig eraill â gwerth ardrethol heb fod yn fwy na £6,000 yn gymwys am ryddhad ardrethi gorfodol o 50%. Gall busnesau eraill â gwerth ardrethol o lai na £12,000 mewn aneddiadau â phoblogaeth o lai na 3,000 hefyd fod yn gymwys am leihad o 50% yn y trethi.

Cydnabod rôl y sector anstatudol yng Nghymru

6.20 Ystyrir fwyfwy nad y wladwriaeth, boed yn ganolog neu'n lleol, o reidrwydd yw'r unig asiant neu'r asiant mwyaf priodol ar gyfer diwallu anghenion Cymru. Yn hytrach, dadleuir y ceir llywodraeth dda drwy ryngweithio gweithredol rhwng gweinyddiaeth sector cyhoeddus, busnesau preifat a'r gymuned ehangach (gan gynnwys unigolion a sefydliadau gwirfoddol). Yng ngeiriau Llywodraeth Cynulliad Cymru: *"Ni allwn gyflawni unrhyw beth drwy weithio ar ein pennau ein hunain... Rydym yn gwerthfawrogi'r cysylltiadau yr ydym wedi eu creu â llywodraeth leol, busnesau, undebau llafur a'r sector gwirfoddol."*²⁵

6.21 Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i 'gydnabod, gwerthfawrogi a hyrwyddo' y sector gwirfoddol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys 'sicrhau bod y sector gwirfoddol wrth wraidd polisi y Cynulliad Cenedlaethol', gan nodi cyfleoedd i'r sector gwirfoddol gyfrannu at gyflwyno polisiâu, a chaniatáu ac annog y sector gwirfoddol i gymryd rôl flaenllaw ar lefel ymarferol lle bo'n briodol ac yn ddymunol iddo wneud hynny.

*Bydd y Cynulliad yn sicrhau ei fod yn cymryd i ystyriaeth, ar gam sylfaenol, oblygiadau polisiâu newydd neu newidiadau mewn polisiâu, i'r sector gwirfoddol. Bydd y Cynulliad yn ceisio, cyn belled ag y bo modd, osgoi neu liniaru unrhyw effaith annymunol ar y sector gwirfoddol ac i nodi ac annog cyfleoedd ar gyfer sefydliadau'r sector gwirfoddol.*²⁶

²⁵ Cymru: Gwlad Well Llywodraeth Cynulliad Cymru, Medi 2003, tud.11

²⁶ Cynllun Sector Gwirfoddol y Cynulliad Cenedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2000, para. 3.18

6.22 O dan Adran 114 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, mae'n ofyniad cyfreithiol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i nodi sut y bydd yn cefnogi ac yn hyrwyddo buddiannau sefydliadau gwirfoddol sydd â chylchoedd gwaith sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Cynulliad. Mae wedi gwneud hyn drwy *Gynllun Sector Gwirfoddol y Cynulliad Cenedlaethol*, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2000. Dyma oedd y cynllun cyntaf o'i fath yn y DU, ac mae'n wahanol i'r Compactau rhwng y sectorau statudol a gwirfoddol a gynhyrchwyd gan lywodraeth y DU a Gweithrediaeth yr Alban.

6.23 Mae'r Cynulliad wedi ymroi i '*weithio mewn partneriaeth*' gyda'r sector gwirfoddol. Diffinnir partneriaeth yng Nghynllun Sector Gwirfoddol y Cynulliad cenedlaethol fel "*cydweithio tuag at nodau cyffredin a chydabod cyfraniad arbennig pob parti*" (para 3.1) Mae partneriaeth "*yn golygu*:"

- Bod gan y sector gwirfoddol gyfraniad cyfartal â'r Cynulliad am y trefniadau o ran y cydweithio rhwng y Cynulliad a'r sector gwirfoddol;
- Y bydd y sector gwirfoddol yn cyfrannu at gam sylfaenol wrth lywio datblygiad polisïau a rhaglenni ar draws y Cynulliad, ac yr asesir ei gynigion yn ôl yr un meini prawf â'r sector cyhoeddus;
- Bod y sector gwirfoddol yn cyfrannu ei farn am y gweithdrefnau ar gyfer gweinyddu adnoddau a blaenoriaethau ar gyfer dosbarthu adnoddau i'r sector gwirfoddol;
- Bod gan y sector gwirfoddol fynediad at ei wybodaeth, ei hyfforddiant, a'i gwasanaethau adeiladu cymhwyster ac adnoddau ei hunan;
- Bod gan y sector gwirfoddol gyfleoedd i arwain yn yr ardaloedd hynny lle y mae yn y lle gorau i wneud hynny"

(Cynllun Sector Gwirfoddol y Cynulliad Cenedlaethol, para. 3.4).

6.24 Ystyrir ac adroddir i'r Cynulliad gan Gyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol ar faterion sy'n ymwneud â swyddogaethau a chyfrifoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n effeithio ar y sector gwirfoddol, neu sydd o ddiddordeb iddo, ac sy'n ehangach na chyfrifoldebau pwyllgor un pwnc. Mae'r Cyngor hefyd yn rhoi cyngor ac yn hwyluso gweithredu, monitro ac adolygu'r Cynllun Sector Gwirfoddol. Mae'r Cyngor yn cynnwys Aelodau'r Cynulliad a chynrychiolwyr a benodir o'r sector gwirfoddol.

6.25 Mae'r Cynulliad a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) ill dau yn nodi'r sefydliadau, rhwydweithiau a'r cyrff cyffredinol sector gwirfoddol perthnasol sydd â diddordeb mewn cyfrannu at feysydd penodol o bolisi ac ymarfer, ac yn cytuno ar drefniadau ymarferol ar gyfer dialog a chydweithredu ar lefel weithrediadol.

6.26 Nid yw Cynllun Sector Gwirfoddol y Cynulliad Cenedlaethol yn llywio perthynas y Cynulliad â sefydliadau anstatudol sy'n gweithredu y tu allan i'r sector gwirfoddol. Trafodir perthynas â gweddill y sector anstatudol ar sail sefydliadau unigol yn hytrach na'u llywodraethu gan set o egwyddorion cyffredinol fel yn achos y sector gwirfoddol.

6.27 Mae'r holl Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, awdurdodau unedol a Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru wedi llunio, neu yn y broses o lunio cytundebau lefel leol sy'n nodi'r gwerthoedd a'r disgwyliadau a rennir o ran eu perthynas â'r sector gwirfoddol. Yn rhannol o ganlyniad i fentrau ar y cyd ar ran yr awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol yn deillio oddi wrth ail-drefnu llywodraeth leol Cymru ym 1996, mae datblygu Compactau lefel leol yng Nghymru yn llawer mwy datblygedig, eang a systematig nag yn Lloegr neu'r Alban.

6.28 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi nodi ei ymrwymiad i'r sector gwirfoddol ar lefel yr awdurdod unedol drwy gefnogi'r compactau ac ymroi i '*sicrhau cefnogaeth llywodraeth leol drwy hyrwyddo compactau lleol a chytuno ar lefelau cyfraniadau ariannol i brosiectau adfywio'r sector gwirfoddol*'.²⁷ Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru hefyd wedi cefnogi'r egwyddor o gydweithio rhwng awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol: '*Perthynas gref rhwng llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol yw'r sail ar gyfer democratiaeth leol fywiog a chymunedau cynhwysol, gweithredol*'.²⁸

6.29 Cynrychiolir a chefnogir gweithgarwch sector gwirfoddol ym mhob awdurdod lleol ledled Cymru gan Gynghorau Gwirfoddol Sirol (CVCau). Gofynnir i CVCau fodloni isafbwynt safon a gytunir, sy'n cynnwys datblygu perthynas strwythuredig â'r awdurdod lleol. Mae'n rhaid paratoi Strategaethau Cymunedol awdurdodau lleol mewn partneriaeth â sefydliadau gwirfoddol a sefydliadau anstatudol eraill perthnasol yn ardal yr awdurdod lleol.

Cydnabod rôl y sector anstatudol ar gyfer y Gymru wledig

6.30 Mae Cynllun Sector Gwirfoddol y Cynulliad Cenedlaethol yn gofyn bod y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, yn cyfarfod â chynrychiolwyr o rwydweithiau perthnasol y sector gwirfoddol; o leiaf ddwywaith bob blwyddyn galendr i drafod materion sy'n berthnasol i ddiddordebau'r sefydliadau a gynrychiolir ar y rhwydweithiau hynny o ran cylch gwaith yr Adran Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad.

6.31 Caiff sector anstatudol ehangach, gan gynnwys sefydliadau gwirfoddol a sefydliadau nad ydynt yn wirfoddol fel ei gilydd, ei gynrychioli yn achos y Gymru wledig gan Bartneriaeth Wledig Cymru (RPW). Mae'r Bartneriaeth yn cynghori'r Cynulliad ar ddatblygu polisiau a rhaglenni ar gyfer y Gymru wledig. Mewn egwyddor, mae'n gweithredu fel ffynhonnell allweddol o syniadau ac arbenigedd ar gyfer mynd i'r afael â'r materion amrywiol niferus sy'n effeithio ar y Gymru wledig, ac fel fforwm ar gyfer trin a thrafod gwahanol safbwyntiau a blaenoriaethau'r gwahanol sefydliadau sy'n rhan o'r bartneriaeth. Mae ei chylch gwaith yn cynnwys materion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

6.32 Mae'r naw awdurdod unedol mwyaf gwledig yng Nghymru yn cynnwys cyfanswm o 11,735 o sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru,²⁹ sef ffigur a gyfrifir ar sail eu cyfeiriad cyswllt. Dengys hyn ymhle mae eu presenoldeb a'u heffaith mwyaf, er bod nifer o sefydliadau sy'n gyfrifol am faterion gwledig ac sy'n gweithredu mewn ardaloedd gwledig wedi eu lleoli mewn canolfannau trefol, yn enwedig Caerdydd.

6.33 Mae *Almanac Sector Gwirfoddol Cymru 2003* yn cynnwys cyfrifiadau sy'n amlinellu nifer y sefydliadau gwirfoddol yn ardaloedd awdurdodau lleol i bob mil o'r boblogaeth. Dengys hyn bod gan ardaloedd gwledig Cymru gyfran uwch o sefydliadau gwirfoddol y pen nag awdurdodau unedol â phoblogaeth fwy dwys (gweler Tabl 2). Dengys y ffigurau hyn mai'r nifer o sefydliadau sector gwirfoddol yng Nghymru ar gyfartaledd yw 8.6 i bob 1000 y boblogaeth, ond yn y naw sir wledig, y ffigur yw 12.2, o gymharu â gweddill Cymru lle mae'n sylweddol is, yn 6.9.

²⁷ *Cynllun Sector gwirfoddol y Cynulliad Cenedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2000*

²⁸ *Dyfodol Gyda'n Gilydd? Canllaw i lywodraeth leol a'r sector gwirfoddol a chymunedol yn cydweithio yng Nghymru* Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, 2003

²⁹ Collis, B (2003) *Almanac Sector Gwirfoddol Cymru 2003: Cyfnod newydd?* CGGC

Tabl 2: Sefydliadau gwirfoddol i bob 1000 o'r boblogaeth yn ôl ardal yr awdurdod lleol; nodir yr awdurdodau gwledig mewn teip bold (Ffynhonnell: CGGC 2003)

AWDURDOD LLEOL	NIFER I BOB 1000 O'R BOBLOGAETH
Ceredigion	19.0
Powys	17.0
Gwynedd	12.8
Sir Gaerfyrddin	11.7
Sir Fynwy	10.7
Sir Ddinbych	10.4
Blaenau Gwent	10.2
Ynys Môn	9.8
Conwy	9.6
Sir Benfro	9.2
Bro Morgannwg	8.6
Castell-nedd Port Talbot	8.3
Caerdydd	7.9
Wrecsam	7.4
Rhondda Cynon Taf	6.9
Merthyr Tudful	6.8
Sir y Fflint	6.1
Abertawe	5.8
Torfaen	5.7
Caerffili	5.6
Pen-y-bont Ar Ogwr	5.3
Casnewydd	4.5

6.34 Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd ag ymchwil a ymgymerwyd gan Gyngor Cenedlaethol y Sefydliadau Gwirfoddol, sy'n nodi bod nifer fwy o grwpiau gwirfoddol lleol yn dueddol o fod yn ardaloedd gwledig Lloegr yn gymharol i'w poblogaeth nag yn yr ardaloedd trefol, gan adlewyrchu canolbwynt cymunedol nifer o'r grwpiau a'r nifer fwy o gymunedau unigol mewn ardaloedd gwledig.³⁰

Partneriaeth ar y lefel leol

6.35 Ar raddfa'r gymuned, mae'r pwyslais ar 'bartneriaeth' rhwng y gwahanol randdeiliaid mewn cymunedau. Fel y noda Llywodraeth Cynulliad Cymru, "*Mae partneriaeth yn gysyniad allweddol yn llawer o bolisiau'r Cynulliad. Fodd bynnag, defnyddir y gair i ddisgrifio amryw berthnasoedd ac fe'i gam diffinnir yn aml.*" Rhoddir enghreifftiau o wahanol fathau o bartneriaethau a ddiffinir gan Lywodraeth y Cynulliad yn Atodiad 8.

6.36 Caiff y rhaglen Amcan 1 yng Nghymru ei gweinyddu gan y Byrddau Rheoli Partneriaethau ym mhob awdurdod lleol. Mae'r rhain yn cynnwys 18 o bobl a etholwyd yn cynrychioli agweddau o fusnes a chymunedau lleol, yn seiliedig ar yr egwyddor tair rhan a osodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol: sector cyhoeddus, busnes preifat a grwpiau cymunedol. Mae'r rhain yn ymgymryd â thasgau er mwyn cael y budd lleol mwyaf o Amcan 1.

³⁰ Cefnogi Gweithredu Gwirfoddol Gwledig Cyngor Cenedlaethol dros Sefydliadau Gwirfoddol/ Asiantaeth Cefn Gwlad, 2004

6.37 Mae partneriaethau hefyd yn goruchwylio llunio strategaeth adfywio lleol sy'n rhoi fframwaith ac sy'n amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer rhoi Amcan 1 ar waith yn yr ardaloedd lleol hyn. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddiad economaidd lleol, amcanion a thargedau penodol, manylion sut y caiff y rhaglen ei chyflwyno'n lleol, ac yn nodi meysydd penodol lle mae angen gweithredu. Mae gan bartneriaethau gyfrifoldeb llawn am ddatblygu a gweithredu'r strategaeth adfywio ac mae gan aelodau'r bwrdd gyfrifoldeb i sicrhau y caiff prosiectau addas eu datblygu (ar lefel leol a rhanbarthol) i fodloni anghenion lleol.

Grymuso cymunedau

6.38 Ceir pwyslais cryf ar rymuso cymunedau yng Nghymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad a'r cyrff a noddir ganddowedi ymrwmo i roi'r cyfloeodd a'r gefnogaeth i gymunedau allu cymryd rhan lawnach yn eu datblygiad a'u hadfywiad eu hunain. Ar yr un pryd, annogir cymunedau i gymryd cyfrifoldeb am nodi a mynd i'r afael â'u hanghenion, eu problemau a'u heriau eu hunain.

6.39 Mae mwyafrif y prosiectau adfywio cymunedol yng Nghymru yn adlewyrchu'r tueddiad cynyddol i ddatganoli mentrau, o'r Comisiwn Ewropeaidd a Llywodraeth Cynulliad Cymru, i sefydliadau lleol a graddfa'r gymuned.

6.40 Targedir yr ymagwedd LEADER yn benodol tuag at gynorthwyo adeiladu gallu lleol mewn ardaloedd gwledig (gweler blwch 3.6, trosodd, am enghreifftiau o brosiectau ledled Cymru). Ystyrir bod sefydlu a chefnogi sefydliadau a strwythurau i weithredu a chynnal datblygu lleol, yn sylfaenol. Un o bedwar amcan rhaglen Cymru yw "*Adeiladu gallu grwpiau targed, cymunedau a busnesau ac annog eu cyfranogiad yn natblygiad eu hardaloedd lleol*" (LEADER+DRS)

6.41 Menter flaenllaw y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer datblygu ac adfywio cymunedol yn y Gymru wledig yw Gweithredu dros Gymunedau Gwledig, a sefydlwyd yn 2003. Mae dros £2 filiwn y flwyddyn ar gael o dan Gweithredu dros Gymunedau Gwledig, a dargedir at Gymru gyfan, ar gyfer annog adfywio cymunedau gwledig. Mae rhan fwyaf cyllideb Gweithredu dros Gymunedau Gwledig wedi'i neilltuo i brosiectau a reolir gan fudiadau lleol gyda chyfran helaetho'r arian cychwynnol yn cael ei neilltuo i ffurfio a hyfforddi grwpiau a hyrwyddo partneriaethau. Amcan allweddol GDGG yw datblygu gallu adfywio yn yr ardaloedd gwledig hyn. Gofynnir i bartneriaethau gyflwyno Cynllun Gweithredu yn flynyddol i'r WDA yn rhoi manylion y gweithgareddau ar gyfer y flwyddyn sy'n dod, gan amlinellu gweithgareddau ar gyfer dwy flynedd arall a dangos bod trawstoriad eang o bobl mewn ardaloedd lleol yn ymwneud yn weithredol â gweithgareddau datblygu y partneriaethau.

6.42 Mae Erthygl 33 yn darparu hyd at £8.7 miliwn o ariannu o 2000 tan 2006-7 i bartneriaethau yn ardaloedd gwledig Dwyrain Cymru lle nad yw rhaglenn UE eraill yn berthnasol. Mae'r WDA yn rheoli darpariaeth ariannu i Bartneriaethau Cymunedol, a arweinir gan yr Awdurdodau Unedol, i weithredu prosiectau sy'n mynd i'r afael â 3 mesur:

- Gwasanaethau sylfaenol ar gyfer yr economi a'r boblogaeth wledig
- Adnewyddu a datblygu pentrefi a diogelu a chadw'r dreftadaeth wledig
- Annog gweithgareddau twristiaeth a chreffft

Dewiswyd y mesurau hyn ar y sail mai y nhw fydd fwyaf tebygol i gynyddu cyfranogiad mewn bywyd cymunedol, cynorthwyo sefydlu ac ehangu mentrau a arweinir gan y gymuned a gwneud y gorau o'r cyfraniad i adfywiad economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru wledig.

Blwch 6.3 Enghreifftiau o brosiectau LEADER+

Plugging the Leaks (Planed)

Mae 'Plugging the Leaks' yn ceisio 'cadw gwerth' yn ardal LEADER Sir Benfro. Mae'r prosiectau'n cynnwys:

- Prosiectau ynni cymunedol
- Mentrau marchnata a dosbarthu cynnyrch lleol
- Gwyliau yn dathlu balchder lleol mewn treftadaeth, diwylliant, ffermio a chwaraeon
- Gwneud defnydd gwell o neuaddau pentref i ddarparu gwasanaethau lleol

Sir Fynwy – Hanes Byw (Adventa)

Mae 'Hanes Byw' yn nodi pentrefi/cymunedau â photensial o ran treftadaeth a all gyfrannu at sector twristiaeth Sir Fynwy. Mae'r fenter yn cynnwys:

- Defnyddio llwybrau cylch i adrodd hanes pob pentref/ cymuned
- Cynhyrchu paneli dehongli/taflenni ar gyfer pob llwybr
- Ymgymryd ag ymgyrch hyrwyddo er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r llwybrau

Ffisig Nain (Conwy Wledig)

Mae Ffisig Nain yn canolbwyntio ar y sector iechyd amgen yng Nghonwy wledig. Mae'n ceisio dartblygu clwstr busnes ym maes iechyd ategol, gyda phwyslais ar bobl sy'n ymwneud â homeopathi, llysieuaeth feddygol, crefft ymladd ac aromatherapi.

6.43 Mae'r Cynulliad yn rhoi pwyslais allweddol ar ddatblygu mentrau cludiant cymunedau lleol fel ffordd o fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag ynysiad a phroblemau hygyrchedd i wasanaethau yn y Gymru wledig. Ers 1998, mae'r Fenter Cludiant Cymunedol Gwledig wedi sicrhau bod £250,000 ar gael bob blwyddyn i ariannu prosiectau cludiant cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig sydd wedi'u trefnu'n lleol mewn ymateb i anghenion a heriau penodol cymunedau unigol.

6.44 Mae rhaglen Cydcoed y Comisiwn Coedwigaeth yn annog pobl leol i wneud y defnydd gorau posibl o'r coetiroedd ar gyfer swyddi, tyfiant economaidd, cadwraeth a hamdden ac ar yr un pryd, gwneud coed a choedwigoedd yn rhan werthfawr o fywyd cymunedol yng Nghymru. Er mwyn cael y gefnogaeth, mae'n ofynnol iddo gael ei sianelu drwy grwpiau cymunedol â chyfansoddiad. Llunnir y rhaglen yn y ffordd hon er mwyn cael rhoi grantiau yn uniongyrchol i gymunedau iddynt gael rheoli penderfyniadau a chronfeydd ar lefel leol. Mae Swyddogion Prosiect Cydcoed yn cynorthwyo i sefydlu grwpiau cymunedol mewn ardaloedd lle nad ydynt yn bodoli.

6.45 Nod Menter Trefi a Phentrefi Bach (STVEI), a lanswyd gan y WDA ym 1999 ac yn cymryd lle 'Menter Trefi Marchnad' BDCG, yw cefnogi busnesau mewn trefi, pentrefi bach neu 'ardal wledig a ddiffinir yn dda' fel arall. Mae cymorth grant a chynghor arbenigol ar gael i fusnesau bach neu ganolig unigol (SMEau), clymbleidiau busnes lleol a grwpiau cymunedol. Mae prosiectau cymwys a lunnir i gynorthwyo marchnata, yn gwella cystadleuedd ac yn gwneud ardal yn fwy deniadol drwy welliannau gweledol i'r amgylchedd adeiledig. Mae cynlluniau cludiant cymunedol hefyd yn gymwys ar gyfer eu hariannu. Mae'n rhaid i fforwm o gynrychiolwyr busnes o ardal benodol wneud y cais. Os yw cais yn llwyddiannus, mae'n rhaid i'r fforwm gymryd rhan gweithredol yn natblygu'r fenter leol drwy gynhyrchu cynllun gweithredu lleol a'i roi ar waith a monitro cynnydd y datblygu.

6.46 Mae'r Rhaglen Adwerthu Lleol, a weinyddir gan y WDA fel rhan o raglen y RCA, yn cynnig cymysgedd o gyngor a chymorth grant i fusnesau adwerthu mewn cymunedau gwledig.

Bwriedir bod y cymorth hwn yn ategu'r gwasanaethau cymorth busnes mwy cyffredinol a ddarperir gan fentrau ehangach fel Porth Llygad Busnes. Mae cymorth ar gael i helpu marchnata'r busnes, gwella mynediad cwsmeriaid at y busnes, ac yn fwy cyffredinol, 'gwella cynladwyedd tymor-hir y busnes'. Gall cwmnïau unigol a grwpiau busnes neu gymunedol gymryd mantais o'r cynllun hwn. Yn y ddau achos, mae'n rhaid iddynt allu dangos bod y gymuned yn cefnogi unrhyw brosiect arfaethedig, drwy lunio cynllun datblygu sy'n cyfeirio at adfywiad y gymuned lle mae'r busnes wedi'i leoli, neu lle caiff ei leoli.

6.47 Mae nifer o awdurdodau unedol wedi datblygu, neu wedi helpu datblygu rhaglenni adfywio cymunedol ar gyfer eu hardaloedd gwledig lleol (gweler Blwch 6.4). Mae'r rhain yn gyffredinol yn sianelu ac yn cyfuno ariannu uniongyrchol oddi wrth yr awdurdod lleol gydag ariannu o ffynonellau eraill. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn agored i gymunedau gwledig a threfol.

Blwch 6.4 Enghreifftiau o gynlluniau grantiau bach awdurdodau lleol

Mae awdurdod unedol Gwynedd yn gweithredu Cynllun Grantiau Cwlwm Gwledig, a luniwyd i adeiladu gallu a hunan-ddibyniaeth mewn cymunedau gwledig. Mae'n rhaid i brosiectau ddangos y byddant o fudd i'r economi leol a bod y gymuned dan sylw yn cefnogi ac am gyfranogi. Bydd lefel y cyfraniad yn dibynnu ar natur y prosiect, ond disgwylir i ymgeiswyr fel arfer gyfrannu 10% o'r arian eu hunain. Roedd tua £1 miliwn ar gael ar gyfer y cynllun yn y flwyddyn ariannol 2002-2003. Cynorthwyr y cynllun grantiau gan saith swyddog cymunedol yn gweithio yng ngwahanol ardaloedd y sir. Mae'r swyddogion yn cynorthwyo cymunedau i nodi a datblygu prosiectau a chynghori grwpiau lleol ar ffynonellau ychwanegol o arian grant.

Mae awdurdod unedol Conwy yn gweithredu Cynllun Grantiau Masnachol Gwledig sydd â'r nod o annog gwella ac uwch raddio mathau penodol o eiddo masnachol mewn aneddiadau gwledig, yn benodol, siopau, tafarndai, swyddfeydd post a modurdai. Mae'n cynnwys y sir gyfan, gan gynnwys yr ardal o fewn Parc Cenedlaethol Eryri, ond gan eithrio Llanrwst a Betws y Coed a'r prif drefi ar hyd yr arfordir.

Nod Rhaglen Trefi a Phentrefi Strategol Cyngor Sir Gaerfyrddin yw 'cynorthwyo creu cymunedau gwledig cynaliadwy a ffyniannus' drwy gadw busnesau presennol a denu buddsoddiad mewnol. Mae'n cynnwys nodi a chreu cyfleoedd busnes lleol, gwella'r amgylchedd mewn ardaloedd diwydiannol o fewn 'trefi strategol' a chyfrannu tuag at gynhyrchu cynllun datblygu cymunedol integredig. Mae'r Grant Gwella Trefi yn darparu hyd at 50% o'r arian ar gyfer gwelliannau i eiddo masnachol yng 'nghraidd canolog' 'trefi strategol', ac mae'r Grant Trosi Gwledig yn darparu hyd at 50% o'r ariannu ar gyfer trosi adeiladau gwledig segur i ddefnydd busnes, gyda £5.8 miliwn ar gael o dan y cynllun dros y cyfnod 2003-2008. Areinnir y cynllun gan yr awdurdod unedol, y WDA, Cronfa Adfywio Cymunedol LICC ac arian Amcan 1, ac mae'n rhan o raglen adfywio gwledig pum mlynedd Sir Gaerfyrddin.

Mae Sir Fynwy yn geithredu Cynllun Datblygu Economaidd a Chymunedol yn cefnogi prosiectau lleol sy'n cynorthwyo ac yn hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae'r cynllun yn rhoi cymorth grant i grwpiau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, gan gynnwys cynghorau a phartneriaethau tref a chymunedol. Fe'i targedir yn benodol tuag at brosiectau sy'n creu neu'n diogelu swyddi, yn adeiladu gallu cymunedol lleol a chefnogi datblygu cynaliadwy. Mae grantiau ar gael i brosiectau cyfalaf a refeniw. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o gefnogaeth a geir ar gyfer prosiectau newydd, gyda thua £390,000 o'i £400,000 o arian cyfalaf ar gyfer 2003-2004 wedi'i neilltuo i brosiectau arian-craidd presennol. Mae'r Cyngor yn nodi bod y cynllun yn gydran allweddol o'i strategaeth gymunedol ar gyfer Sir Fynwy.

Datblygu lleol i bobl leol?

6.48 Ystyrir bod datganoli cefnogaeth oddi wrth grwpiau statudol sefydledig yn gwneud y gorau o allu rhanbarth i adfywio, gan adlewyrchu rôl rhwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol wrth wella cyfalaf cymdeithasol a photensial datblygu dilynol. Mae Ray (2001)³¹ yn cyfeirio at yr ymagwedd hon fel ymagwedd neo-fewndarddol i ddatblygu gwledig sy'n adlewyrchu'r cydbwysedd rhwng ariannu o'r tu allan, adnoddau a fframweithiau polisi gyda phenderfyniadau a chyfrifoldeb lleol mewndarddol. Yng Nghymru, mae dyfodiad y grwpiau hyn wedi arwain at fosaig cymleth o gefnogaeth ar gyfer ardaloedd gwledig.

6.49 Ceir gwahaniaeth glir rhwng rhaglenni a phrosiectau a gychwynnwyd ac a gyflwynwyd ar lefel leol a'r rheiny sy'n gweithredu ar y raddfa leol ond lle mae gweithredwyr lleol yn gweithredu yn flaenaf fel asiantau cyflwyno. Mae llawer o raglenni yng Nghymru yn ddibynnol ar gyflwyno ar lefel y gymuned, ond gosodir strwythurau'r rhaglenni ac amodau'r ariannu yn aml o'r brig i lawr. Gellir dadlau bod hyn yn tansilio natur mewndarddol y cynlluniau hyn. Diffinnir y meini prawf y mae'n rhaid i'r partneriaethau lleol eu bodloni hyd yn oed i fod yn gymwys i wneud cais am arian adfywio yn ganolog, yn yr un modd â'r llwybrau archwilio y mae'n rhaid i grwpiau eu dilyn os nad ydynt yn derbyn arian.

6.50 Yn hyn o beth, bu rhywfaint o feiriniadu rhaglenni fel Cymunedau yn Gyntaf, sydd â'r nod o adeiladu gallu o ran arweinyddiaeth ac annog grymuso yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru³². Bu beirniadaeth arbennig o'r hyn y mae rhai yn ei weld fel rôl or gryf yr awdurdodau lleol, sy'n gyfrifol am hwylso cyflwyno'r rhaglen a recriwtio'r timau sy'n rheoli'r rhaglen ar gyfer cymunedau unigol³³. Gellid beirniadu yn yr un modd y rhaglenni sy'n gweithredu o dan Erthygl 33 y Cynllun Datblygu Gwledig, a weinyddir ac a hwylusir hefyd ar raddfa'r gymuned gan yr awdurdodau lleol. Amheuir awdurdodau lleol yn aml oherwydd eu hanes o ddarparu gwasanaeth gwael mewn ardaloedd difreintiedig. O'r herwydd, gallai'r ffaith bod yr awdurdodau yn rhan o gynlluniau o'r fath gyfyngu ar effeithiolrwydd rhaglenni a chodi gwrychyn y cymunedau y maent yn ceisio eu cynrychioli.

6.51 Ar yr un pryd, mae eraill wedi awgrymu mewn rhai achosion, bod awdurdodau unedol yn rhoi arweinyddiaeth annigonol yn y fath fentrau. Wrth ymateb i adolygiad 2003 o Gymunedau'n Gyntaf, meddai AS y Democratiaid Rhyddfrydol tros Orllewin Cymru, Peter Black:

*Mewn rhai ardaloedd, mabwysiadwyd ymagwedd o'r brig i lawr, ac o ganlyniad, nid yw cymunedau yn ymwneud cymaint nac wedi eu grymuso cymaint ag y maent yn eu haeddu. Mewn ardaloedd eraill, gadawyd cymunedau i ymgodymu ormod. Mae cael y cydbwysedd yn iawn wastad yn broblem.*³⁴

³¹ Ray, C (2001) Transnational co-operation between rural areas: elements of a political economy of EU rural development. *Sociologica Ruralis*. 41 (3) tt. 279 - 295

³² *Adolygiad Cymunedau yn Gyntaf 2003*, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003 (ar gael yn www.wales.gov.uk/assemblydata)

³³ Osmond, J. a Mugaseth, J. (2004) Ymagweddu Cymunedol at Dlodi yng Nghymru, yn *Goresgyn Anfantais: Agenda ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf*. Joseph Rowntree Foundation; Lewis, H. (2004) *Adolygiad Cymunedau yn Gyntaf 2003* Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003 (ar gael yn www.wales.gov.uk/assemblydata); *Cymunedau yn Gyntaf: Y ffordd Ymlaen* Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003

³⁴ Araith a roddwyd 23 Mehefin 2004 (ar gael yn www.cix.co.uk/~Idswaleswest/speeches)

6.52 Bu pryder hefyd yn fwy cyffredinol mai ychydig iawn o weithredwyr lleol sy'n ymwneud yn weithredol yn llawer o waith datblygu 'cymunedol', gyda mwyafrif y boblogaeth leol yn llugoer, neu mewn rhai achosion hyd yn oed yn anymwybodol o weithgareddau lleol. Mae'r rhethreg sy'n gysylltiedig â lansio rhaglenni newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, yn pwysleisio pwysigrwydd adeiladu gallu lleol sy'n fwy democrataidd a chynhwysol ac a fydd yn ei gwneud yn bosibl i gymunedau weld, datblygu, cyflwyno a chynnal prosiectau lleol yn y tymor hir.

Crynodeb o'r bennod

Hau'r hadau ar lefel y gymuned

Mae'r cyfrifoldeb ar gyfer datblygu ac adfywio lleol yng Nghymru yn cael ei ddatganoli yn gynyddol. Gofynnir i awdurdodau lleol gymryd rôl arweiniol mewn cyflwyno polisiau cenedlaethol a mynd i'r afael ag anghenion a blaenoriaethau lleol. Mae ganddynt ddyletswydd statudol i baratoi strategaethau ardal leol mewn partneriaeth â rhanddeiliaid cymunedol. Anogir awdurdodau lleol sy'n cynnwys ardaloedd gwledig hefyd i baratoi strategaethu datblygu gwledig integredig.

Ceir pwyslais cynyddol ar y potensial am i sefydliadau an-statudol gyfrannu at adfywio cymunedol gwledig. Yn gynyddol, mae mentrau adfywio yn gofyn am gynnwys ystod o randdeiliadi lleol. Gwelir bod partneriaeth rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn rhan hanfodol o ddatblygu gwledig cynaliadwy.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymroi i ymagwedd 'o'r llawr i fyny' at adfywio cymunedol gwledig yng Nghymru. Mae hyn yn parhau tueddiad a oedd wedi'i osod gan Bapur Gwyn 1996 ar gyfer Cymru wledig, yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb ar gyfer darpariaeth gwasanaethau, datblygu economaidd a chadwraeth amgylcheddol mewn cymunedau gwledig i ffwrdd o'r wladwriaeth ac ar y cymunedau eu hunain. Mewn egwyddor, mae'r ymagwedd 'fewndarddol' yn ffordd hyblyg ac effeithlon o fynd i'r afael ag anghenion ardaloedd gwledig. Yn ymarferol, mae'r model hwn o adfywio yn agored i feirniadaeth. Yn benodol, ceir honiadau bod adfywio yn dal i fod yn ormod 'o'r brig i lawr', oherwydd y rheolau ariannu a osodir gan lywodraeth ganolog a'r rôl arweiniol a chwareir gan yr awdurdodau lleol. Ceir hefyd amheuaeth i ba raddau y mae'r partneriaethau lleol yn gynrychiadol ac yn atebol yn ddemocrataidd.

ADRAN 7

CYNNAL POLISIÂU A RHAGLENNI CYNALIADWY

Mae'r bennod hon yn ystyried cynladwyedd polisiâu a rhaglenni Cymru wledig. Yn benodol, mae'r bennod yn ystyried:

- Yr angen am ymrwymïadau tymor hir i'r Gymru wledig
- Ansicrwydd dyfodol ariannu gan yr UE
- Monitro effaith polisiâu a rhaglenni ar y Gymru wledig

Rhoddir crynodeb o'r drafodaeth ar ddiwedd y bennod (tud.81).

7.1 Mae polisi gwledig Cymru yn pwysleisio 'datblygu cynaliadwy' a 'pholisi cynaliadwy', yn unol â thema trawstoriadol Cynulliad Cymru o geisio nod datblygu cynaliadwy yn ei holl weithgareddau.

7.2 Mae'r ddogfen polisi gwledig fwyaf cynhwysfawr – sef Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2000 – 2006, mewn egwyddor “yn darparu gweledigaeth ar gyfer datblygu Cymru wledig gyfan, yn nodi problemau ac yn asesu blaenoriaethau a gweithredoedd arfaethedig ar sail holistig” (tud. 145). Llywiwyd CDG gan, ac mae'n cefnogi'n benodol, ddatganiad cynhwysfawr Partneriaeth Gwledig Cymru am y Gymru wledig, a gyhoeddwyd yn 1999, sy'n cyfleu neges meddwl a gweithio 'cynaliadwy'. Mae'r datganiad yn cynnwys 'gweledigaeth o ddyfodol cynaliadwy ar gyfer Cymru wledig', wedi'i wneud o 'gymdeithas gynaliadwy', 'economi gynaliadwy', amgylchedd cynaliadwy' a 'fframwaith polisi cynaliadwy'. Mae'n nodi bod “pob un o'r pedair elfen hon yn rhyngddibynnol”, a “chydabyddir pwysigrwydd mabwysiadu ymagwedd integredig i ddatblygu gwledig” (tud.6).

7.3 Mae'r cynllun yn pwysleisio bod cyflawni'r bedwaredd elfen, sef fframwaith polisi cynaliadwy “*sy'n sicrhau datblygiad integredig a gweithredu rhesymegol polisiâu a rhaglenni sy'n effeithio ar y Gymru wledig*” (tud. 145), yn sylfaenol i gyflawni'r weledigaeth gyffredinol o Gymru wledig gynaliadwy. Mae'n nodi y caiff hyn ei wireddu drwy gydnabod a chymodi'r gwahanol fuddiannau, galwadau a blaenoriaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a thrwy osod mesurau ar lefel genedlaethol sy'n ategu mentrau Ewropeaidd a lleol.

Gweledigaeth dymor-hir i'r Gymru wledig?

7.4 Mae cyflawni datblygu gwledig cynaliadwy yn dibynnu cymaint ar barhau'r gefnogaeth dros *amser* ag y mae ar y math a lefel y gefnogaeth yn yr ardal leol. Gellir gweld hyn yn achos Sir Benfro, a nodwyd yn enghraifft wych o ranbarth sydd wedi bod ag ymrwymiad dros gyfnod hir i adeiladu gallu cymunedol.

7.5 Cychwynnodd Sir Benfro ymagwedd arloesol tuag at ddatblygu cymunedol yn y 1970au, pan gymrodd grwp lleol newydd ei greu gyfrifoldeb oddi wrth y cyngor dosbarth am ofal-dydd, gofal plant, technoleg gwybodaeth a rhai agweddau eraill o ddarpariaeth chwaraeon. Mae parhad y sefydliad hwn wedi bod yn arwyddocaol mewn creu seiliau sefydliadol cryf yn Sir Benfro, gan hwyluso gallu'r ardal i elwa ar raglenni newydd³⁵.

³⁵ Asby, J. a Midmore P. (1995) Human Capacity Building and Planning: Old Ideas with a Future for Marginal Regions? Yn Byron R (gol) *Economic Futures on the North Atlantic Margin*, Aldershot, tt.329-346

7.6 Yn y 1980au, enillodd grwp SPARC (Gweithredu De Sir Benfro dros Gymunedau Gwledig) statws LEADER yn rownd gyntaf y rhaglen. Cynhaliodd y statws hwn drwy LEADER II a LEADER +, gan fod yr unig Grwp Gweithredu Lleol yng Nghymru i fod yn rhan o bob un o dri rownd LEADER.

7.7 Bellach wedi'i alienwi'n PLANED (Rhwydwaith gweithredu Lleol Sir Benfro ar gyfer Menter a Datblygu), dyfarnwyd iddo 12 o brosiectau a ariennir gan Amcan 1, gan wneud cyfanswm o dros £700,000 o arian Ewropeaidd. O'r saith awdurdod unedol gwledig sydd wedi'u cynnwys yn y rhaglen, dyfarnwyd y nifer fwyaf o brosiectau i Sir Benfro (90) a'r ail swm mwyaf o grantiau (dros £25 miliwn).

Tabl 3: Dyfarniadau Amcan 1 i awdurdodau unedol gwledig (Gorfennaf 2004)

	Nifer y prosiectau	Cyfanswm Grantiau Amcan 1 (£)	Cyfartaledd y grant i bob prosiect (£)	Grant Amcan 1 y pen
Ynys Môn	31	24,427,727	877,991	365.5
Sir Gaerfyrddin	52	22,741,681	437,340	131.6
Ceredigion	43	15,252,322	354,705	203.5
Conwy	35	17,520,701	500,591	159.9
Sir Ddinbych	44	20,677,207	469,936	222.2
Gwynedd	62	42,370,181	683,390	362.6
Sir Benfro	90	25,360,209	281,780	222.2

7.8 Ceir cydnabyddiaeth gynyddol bod yn rhaid cynnal y rhaglenni hynny a dargedir at ddatblygu cynaliadwy ac adfywio cymunedau yng Nghymru. Roedd llawer o'r rhaglenni adfywio cymunedol cynnar a dargedwyd at gymunedau yng Nghymru yn ariannu prosiectau 'unigol' a oedd yn gyfyngedig o ran eu cwmpas, yn dymor-byr o ran eu canolbwynt ac yn aml yn anghynaliadwy ar ôl tynnu'r ariannu o'r ffynonellau allanol. Mae'r sector gwirfoddol, yn arbennig yn feiriadol o'r tueddiad presennol ar gyfer ariannu prosiectau a grantiau *ad hoc*, tymor byr, ac mae'n galw am drefniadau mwy sicr.³⁶

7.9 Mae nifer o ddogfennau LICC yn cyfeirio at y methiant hwn, ac o ganlyniad, ceir pwyslais cynyddol ar yr angen i seilio polisiau a rhaglenni ar ymagwedd fwy hir-dymor.

7.10 Mae rhaglen Cymunedau yn Gyntaf y Cynulliad yn enghraifft o'r athroniaeth hon. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn pwysleisio'r angen am ymrwymiad ariannu "*tymor hir, efallai tymor hir-iawn*" (*Dogfen Ymgynghorol Cymunedau yn Gyntaf 2000*). Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i ariannu Cymunedau yn Gyntaf am o leiaf ddeng mlynedd, mae'n gofyn bod yr holl gymunedau sy'n cymryd rhan yn amlinellu gweledigaeth hir-dymor ar gyfer eu hardal ac yn targedu ariannu tuag at rymuso cymunedol ac adeiladu gallu – "helpu cymunedau i'w helpu eu hunain".

7.11 Ceir llai o lawer o dystiolaeth o'r ymrwymiad hir-dymor hwn o ran adfywio cymunedol gwledig. Mae Gweithredu Cymunedol Gwledig yn pwysleisio adfywio a datblygu hir-dymor a chynaliadwy yn hytrach na phrosiectau y mae eu hoes wedi ei chyfyngu; mae'n sicrhau bod tri chwarter (£1.5 miliwn y flwyddyn) cyfanswm yr arian ar gael drwy bartneriaethau cronfeydd RCA i ymgymryd ag 'adeiladu gallu yn y gymuned leol. Caiff £500,000 y flwyddyn sydd yn weddill ei neilltuo ar gyfer ariannu cyfalaf ar brosiectau a gychwynnir drwy waith adeiladu-gallu. Oes gychwynnol y rhaglen, fodd bynnag, oedd tair blynedd yn unig – 2003-2006 – er fe'i hystyngwyd ar ôl hynny i 2008.

³⁶ Collis, B. (2003) *Almanac Sector Gwirfoddol Cymru 2003: Cyfnod newydd?* WCVA

7.12 Mae graddfa amser llawer o fentrau datblygu yn y Gymru wledig y tu allan i reolaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae fframwaith ariannu presennol yr UE yn cynnwys y cyfnod 2000 – 2006. O ganlyniad, mae llawer o raglenni'n ymestyn hyd at 2006 yn unig, gan gynnwys Amcan 1, 2 a 3 a Leader +. Mae hyn yn arwain at ansicrwydd o ran ariannu a rhaglenni i'r Gymru wledig.

Mesur a monitro effaith polisiâu a rhaglenni yn y Gymru wledig

7.13 Mae'n rhaid mesur a gwerthuso effaith polisiâu a rhaglenni er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu at ddatblygu tymor hir ac adfywio yn y Gymru wledig.

7.14 Mae'r peirianweithiau ar gyfer monitro'r holl raglenni mawr sy'n effeithio ar ardaloedd gwledig naill ai yn eu lle neu yn y broses o gael eu sefydlu. Mae Monitro Gweithredu dros Gymunedau Gwledig, sef Erthygl 33 o'r Cynllun Datblygu Gwledig a Leader+ yn gyfrifoldeb ar Uned Bolisi Gwledig y WDA. Cyfrifoldeb Pwyllgor Monitro y Cynllun Datblygu Gwledig ym monitro gweddill y CDG. Carwyn Jones yw Cadeirydd y pwyllgor, ac mae'n cynnwys cydbwysedd o aelodau o'r sector cyhoeddus, y 'sector preifat/ cymdeithasol' a'r 'sector gwirfoddol / cymunedol'. Caiff Amcan 1 a 2 eu monitro gan WEFO a phwyllgorau monitro partneriaethau lleol. Caiff Cymunedau yn Gyntaf ei fonitro gan bwyllgorau lleol a phartneriaethau.

7.15 Ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae diffyg y data llinell sylfaen sydd ar gael ar gyfer Cymru wledig ac ardaloedd lleol yn cyfyngu ar y monitro.

7.16 Ym mis Mawrth 2002, lluniodd y Cynulliad grynhoad ystadegol ar Gymru wledig fel rhan o'i gyfres 'Ffocws Ystadegol'. Mae'r crynhoad yn cyflwyno ystod o ystadegau sy'n rhoi data ar amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru wledig a hefyd yn cymharu amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru wledig â gweddill Cymru. Yn y crynhoad, diffinir 'Cymru wledig' fel y naw awdurdod lleol a ddiffinnir yn 'wledig' gan y Cynulliad. Felly mae'n eithrio ardaloedd eraill sydd yn 'wledig' ond nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y diffiniad hwn. Fodd bynnag, ni ddiweddarwyd y crynhoad i gymryd Cyfrifiad 2001 i ystyriaeth ac nid yw'n adlewyrchu sefyllfa Cymru wledig ar ôl y Clwy Traed a'r Genau.

7.17 Yn ôl nodyn yn y Cynllun datblygu Gwledig, a gyhoeddwyd cyn llunio'r crynhoad, mae'r crynhoad yn canolbwyntio'n benodol "*ar y dangosyddion hynny sy'n mesur effaith y strategaeth datblygu gwledig cyffredinol a fabwysiadwyd yn yr holl rannau o Gymru*" (tud.354). Yn ymarferol, mae'r dangosyddion llinell sylfaen a restrir yn y CDG yn adlewyrchu ffocws amaeth-ganolog y Cynllun.

7.18 Mae adroddiad diweddar ar ystadegau gwledig a datblygu gwledig gan y Gweithgor Rhyngwladol ar Amaethyddiaeth yn cynnwys nifer o sylwadau o ran ystadegau ar gyfer monitro datblygu gwledig yn y DU. Mae rhywfaint o'r rhain yn ymwneud â'r DU yn ei gyfanrwydd, mae eraill yn ymwneud yn uniongyrchol â Chymru. Mae'n casglu bod y dangosyddion ystadegol presennol yn annigonol i fodloni heriau'r polisiâu sy'n dod i'r amlwg ynghylch ardaloedd gwledig.

7.19 Yn benodol, mae'n nodi bod angen ymagwedd fwy holistig i gasglu data mewn ardaloedd gwledig sy'n edrych y tu hwnt i amaethyddiaeth ac sy'n ystyried materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach.

*Ceir gwrthygyferbyniad cryf rhwng y ddarpariaeth ystadegol ar gyfer, ar y naill law, amaethyddiaeth fel gweithgaredd economaidd a defnyddiwr adnoddau, ac ar y llaw arall, bolisi gwledig. Yn y DU, ceir system gref a sefydledig o ystadegau amaethyddol, gyda'r adrannau amaethyddol yn gweithredu fel y cyflenwr a'r prif ddefnyddiwr... Mewn gwrthygyferbyniad, hyd nes yn ddiweddar iawn, mae ystadegau gwledig wedi bod yn wannach ac yn ddarniog iawn... Cyn 2001, nid oedd gan yr un adran gyfrifoldeb, ac felly roedd y rhai a oedd yn sylwebu ar gyflwr cefn gwlad (fel yr Asiantaeth Cefn Gwlad yn Lloegr a'r rheiny a oedd yn gyfrifol am ddarparu crynhoad ystadegol o'r Gymru wledig ar gyfer y llywodraeth ddatganoledig newydd (CCC 2001) yn canfod eu hunain yn casglu o ystod eang o ffynonellau, nad oedd modd cymharu llawer ohonynt.*³⁷

7.20 Cydnabywyd hyn gan y Cynulliad a'i gyrff a noddir yng Nghynllun Datblygu Gwledig Cymru:

Mae'r Cynulliad wedi cydnabod yr angen i gasglu set mwy cynhwysfawr o ddangosyddion llinell sylfaen ar gyfer Cymru wledig (lle mae rhai ar gael), yn seiliedig ar ddata 1999-2000, y gellir eu defnyddio i fesur effaith cyffredinol ei bolisiau datblygu gwledig – ac yn benodol effeithiolrwydd y strategaethau a'r blaenoriaethau a nodir yn y cynllun hwn. (tud. 353)

7.21 Yn yr un ddogfen, mae'r Cynulliad yn nodi'r "angen i dynnu ar ystod eang o ffynonellau data sy'n adlewyrchu cyflwr presennol yr economi wledig ac ansawdd bywyd y rhai sy'n byw ac yn gweithio yng nghefn gwlad, mewn trefi marchnad neu bentrefi gwledig" (tud. 354). Mae hyn, fodd bynnag, yn gwrthdweud datganiad y Cynulliad braidd, ar yr un dudalen ac yn y llinell flaenorol, na fyddai "diffiniad diamwys o'r Gymru wledig... yn ymarferol nac yn ddimunol". Mae'n anodd gweld sut y gellir mesur cyflwr yr economi wledig ac ansawdd bywyd y rhai sy'n byw ac yn gweithio yn y Gymru wledig os na cheir unrhyw gytundeb am yr hyn sy'n cyfrif yn 'Gymru wledig'.

7.22 Ceir hefyd heriau wrth fesur effaith mentrau adfywio cymunedol ehangach a allai effeithio ar ardaloedd gwledig. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn cynnwys dangosyddion perfformiad lefel uchel a llinell sylfaen. Mae dangosyddion lefel uchel – fel a nodir yn *Mapio Allgau Cymdeithasol yng Nghymru* ac yn *Mynegai Amlamddifadedd 2005* Llywodraeth Cynulliad Cymru – yn cynnwys agweddau o'r economi, iechyd, addysg, tai, plant a theuluoedd ac incwm. Dylid gosod dangosyddion pellach yng Nghynlluniau Cymunedol Awdurdodau Lleol, arfarniadau Gwerth Gorau a dangosyddion perfformiad asiantaethau partneriaeth eraill.

7.23 Mae'r rhagl;en hefyd yn annog cymunedau i sefydlu eu dangosyddion a'u prosesau adolygu eu hunain. Cynigir y dylid defnyddio cyfres o ddangosyddion meincnod, wedi'u grwpio mewn chwe maes (gweithgarwch economaidd, addysg a hyfforddiant, yr amgylchedd, iechyd, cymdeithas sifil a diogelwch cymunedau), ar gyfer adolygiad blynyddol o bob cymuned sy'n cymryd rhan.

³⁷ Hill, B. (2003) *Rural Data and rural statistics (Note 2)*, Statistics on rural development and agricultural household income, IWG.Agri Task Force, Imperial College, Wye Campus

7.24 Mae'r ail ddogfen ymgynghorol ar gyfer rhaglen Cymunedau'n Gyntaf y Cynulliad³⁸ yn nodi'r problemau sy'n ymwneud â monitro ac asesu newid, o ganlyniad i gyfyngiadau mesuriadau ystadegol cyfredol ac anhawster mesur dangosyddion newid penodol. Mae'n nodi dau ddimensiwn y broses a greodd anawsterau penodol:

[1] Y ffaith nad oes tystiolaeth ystadegol ar gael ar lefelau gofodol priodol. Er y bydd y Mynegai Amlamddifadedd newydd yn gwella'r sefyllfa, mae data is-ward cywir yn parhau yn anghaffaeladwy, er ei fod bellach yn cael ei ddatblygu;

[2] Cyflawni cydbwysedd rhwng y dystiolaeth ystadegol a thystiolaeth mwy ansoddol. Bydd ymyrraeth lwyddiannus yn gadael ei hôl ar yr ystadegau pennawd, ac mae'n rhaid bod tystiolaeth glir o hynny ar gael, ond yn ogystal, bydd llawer o'r newid cadarnhaol yn digwydd yn agweddau, gwerthoedd a chredoau y rheiny sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig a'r rheiny sy'n rhoi gwasanaethau iddynt. Mae mesuriadau o welliant mewn materion fel stigma, dyheadau isel, hunan-werth a hunaniaeth gymunedol, a rhagfarn gan ddarparwyr gwasanaeth, o reidrwydd yn oddrychol ac mae angen mwy o dystiolaeth ansoddol.

7.25 Mae cynnwys gofodol anghyfartal y rhaglenni adfywio cymunedol gwledig ledled Cymru yn rhoi cyfle gwerthfawr i werthuso gwerth ac effeithiolrwydd cymharol y rhaglenni hynny. Mae'r monitro cyfyngedig presennol ar y fath rhaglenni o ganlyniad i ddiffyg data llinell sylfaen ar y lefel leol, fodd bynnag, yn cyfyngu ar ba mor bell y gellir manteisio ar y potensial hwn.

Crynodeb o'r bennod

Cynnal polisiâu a rhaglenni gwledig

Mae llawer o'r rhaglenni adfywio cymunedol sydd ar gael ledled Cymru ar hyn o bryd yn canolbwyntio at brosiectau unigol sydd wedi'u cyfyngu o ran eu cwmpad ac yn dymo r-byr o ran eu ffocws. Yn gynyddol, mae Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol yn symud i ffwrdd oddi wrth y fath rhaglenni, gan ddadlau nad ydynt yn cynnal adfywio tymor byr. Mae'n pwysleisio'r angen i bolisiâu a rhaglenni ymrwymo i gefnogaeth barhaus dros amser. Mae menter Cymunedau yn Gyntaf yn enghraifft o'r ymagwedd hon.

O ran adfywio cymunedol gwledig, fodd bynnag, caiff yr ymrwymiad hwn ei danseilio i ryw raddau gan ddibyniaeth y polisiâu a'r rhaglenni ar ariannu o'r tu allan i Gymru. Mae'n debygol ar ôl 2006, na fydd gan yr ardaloedd o Gymru sydd â'r hawl i gael ariannu strwythurol yr UE ar hyn o bryd, yn gymwys bellach. Mae LEADER+ hefyd yn dod i ben yn 2006, ac nid yw eto'n glir a fydd menter datblygu cymunedol gwledig Ewropeaidd i'w ddilyn. Mae gan hyn ganlyniadau ar gyfer dyfodol rhaglenni domestig yn yr hirdymor, fel Gweithredu dros Gymunedau Gwledig, sydd hefyd i ddod i ben yn 2006.

Mae gofyn monitro a gwerthuso effaith polisiâu a rhaglenni er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu at adfywio hir-dymor yn y Gymru gwledig. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, ceir dangosyddion llinell sylfaenol ac ymrwymiad annigonol ar gyfer y dasg hon.

³⁸ Cymunedau yn Gyntaf: Y Ffordd Ymlaen Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2001

ARSYLLFA WLEDIG CYMRU

Astudiaeth ymchwil i bolisiau ac adnoddau sy'n effeithio ar y Gymru wledig

AROLWG O AWDURDODAU UNEDOL

Awdurdod Unedol _____
Enw Cyswllt _____
Swydd yn yr Awdurdod _____
